

CABINET



CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 20fed Ionawr, 2026
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Aml- Leoliad: Siambr Hywel Dda a Zoom
PWYNT CYSWLLT	Gwen Alaw Roberts cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Nia Wyn Jeffreys	Arweinydd y Cyngor
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Paul John Rowlinson	Aelod Cabinet Tai ac Eiddo
Menna Trenholme	Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
June Jones	Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
R Medwyn Hughes	Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Dewi Jones	Aelod Cabinet Addysg
Huw Wyn Jones	Aelod Cabinet Cyllid
Llio Elenid Owen	Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYS			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 RHAGFYR			4 - 14
6	POLISI CLUDIANT ADDYSG (DRAFFT)	Cyng Dewi Jones	Debbie Jones, Pennaeth Cynorthwyol Addysg	15 - 49
7	STRATEGAETH CAFFAEL 2026 - 2031	Cyng Llio Elenid Owen	Arwel Evans, Rheolwr Caffael	50 - 97
8	POLISI CANU'R GLOCH	Cyng Llio Elenid Owen	Eurig Williams, Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol Jac Ynyr Evans, Cyfreithiwr	98 - 127
9	CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau	128 - 156
10	RHAGLEN GYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD (SEFYLLFA 30 TACHWEDD 2025)	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	157 - 170

			– Cyfrifeg a Phensiynau	
11	TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDU CYNLLUNIAU ARBEDION	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau	171 - 179

Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025

Yn bresennol-

Y Cyngorwyr: Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Rebeca Jones (Rheolwr Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol), Gail Warrington (Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant), Mari Wynne Jones (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Meinir Owen (Uwch Ymarferydd Prosiectau), Mari Powell Jones (Rheolwr Cefnogol Gwasanaethau Corfforaethol), Meinir Griffiths (Swyddog Gwella Gwasanaeth), Debbie Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth), Cyng. Angela Russell (Aelod Lleol Ward Llanbedrog gyda Mynytho), Cyng. Cai Larsen (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi), Cyng. Elin Walker Jones (Aelod Lleol Ward Glyder), a Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Nia Jeffreys.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

6. SEFYDLU BWRDD RHEOLI MAETHOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Cefnogwyd sefydlu, a chyfranogiad y Cyngor i'r, Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer yr Afon Gwyrfaï yn unol â'r cylch gorchwyl yn Atodiad 1.

Enwebwyd Pennaeth Adran Amgylchedd i gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd newydd a dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth gadarnhau cynrychiolaeth swyddogion y Cyngor ar y Bwrdd ac i ymgymryd ag unrhyw newidiadau ansylweddol i'r Cylch Gorchwyl.

TRAFODAETH

Soniwyd am y ddyletswydd statudol sydd gan gyrff cyhoeddus i gynnal y bywyd gwyllt a'r fioamrywiaeth o fewn yr afonydd sydd wedi eu dynodi fel ardaloedd cadwraeth arbennig yng Nghymru, a'r effaith y gall lefelau uchel o faetholion ei gael ar ansawdd y dŵr ac felly ar y fioamrywiaeth hon.

Nodwyd bod adroddiad wedi'i gyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2021, a oedd yn asesu os oedd yr afonydd yn cyrraedd y targedau a osodwyd ynglŷn â'r lefelau o faetholion yn yr afonydd. Amlygwyd ar adeg yn adroddiad, bod y ddwy afon yng Ngwynedd yn cyrraedd y targedau hyn felly nad oedd angen gweithredu'n ffurfiol ar y pryd.

Adroddwyd bod asesiad mwy diweddar, hefyd wedi'i gynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn dangos bod yr Afon Gwyrfaï yn methu'r targedau ansawdd dŵr hyn oherwydd y lefelau o faetholion sydd yn yr afon. Mewn sefyllfa pan fu afon yn methu, datganwyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol yw sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion er mwyn rhoi camau mewn lle i gyrraedd y targedau. Bwriadwyd creu Bwrdd ar y cyd gydag awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Pwysleisiwyd bod creu'r Bwrdd hwn yn allweddol oherwydd y caiff methiant yr Afon Gwyrfaï effaith uniongyrchol ar y Cyngor, o ran datblygiadau tai a datblygiadau amaethyddol o fewn dalgylch yr afon a thu hwnt. Ychwanegwyd bod 10 cais cynllunio yn cael eu hoedi ar hyn o bryd o ganlyniad i hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Adnabuwyd yr angen i ddeall gwraidd y broblem a'r angen felly am drafodaethau gyda'r bobl berthnasol er mwyn cael yr atebion hynny.
- Pryderwyd am effaith posib hyn ar ddatblygiadau tai yn yr ardal, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd yr amgylchedd mewn perthynas â hyn.
- Soniwyd am sgil effeithiau sefydlu'r Bwrdd ar adnoddau. Cadarnhawyd bod hyn wedi ei godi gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, a bod bwriad i benodi Swyddog Prosiect o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar Afon Gwyrfaï.
- Cadarnhawyd y bydd y Bwrdd yn cael ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd.

7. CYLLIDO GWAITH DIOGELU ADEILAD Y CORBETT ARMS, TYWYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y defnydd o £1.5 miliwn o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor er mwyn cyllido gwaith i ddiogelu adeilad y Corbett Arms yn Nhywyn.

TRAFODAETH

Pwysleisiwyd effaith dyletswydd y Cyngor i orfod mynd i'r afael â phroblemau fel hyn, heb adnoddau nac arian, ar bobl Gwynedd.

Datganwyd bod rhan o adeilad y Corbett Arms wedi disgyn a thynnwyd sylw at ddyletswydd statudol y Cyngor i sicrhau diogelwch yr adeilad a thrigolion Tywyn. Eglurwyd nad oedd y Cyngor yn awyddus i gymryd unrhyw risg pellach gyda'r adeilad oherwydd y bygythiad i rannau eraill o'r adeilad ddisgyn yn ogystal.

Amlygwyd y camau sydd wedi eu cymryd yn barod ddiogelu'r safle a'r cyhoedd, gan nodi bod dyletswydd hefyd i warchod yr adeilad gan ei fod yn rhestredig. Adnabuwyd y costau sylweddol ynghlwm â'r ddyletswydd hon.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cydnabuwyd bod siawns o allu adennill cyfran o'r costau hyn yn ôl, ond nodwyd yr angen i fod yn realistig. Pwysleisiwyd nad y Cyngor sydd berchen yr adeilad, ac felly mai rôl y Cyngor yw diogelu'r safle'n unig.
- Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â phwy sydd berchen yr adeilad. Cyfeiriwyd at her datgymalu perchnogaeth wrth ddelio ag adeilad fel hyn.
- Nodwyd bod llawer o'r gwaith hwn yn waith ymatebol sy'n anodd ei ragweld, felly bod yr Adran yn gyson wylidwrus o'r risg hynny.
- Wrth drafod y pwerau ymyrryd sydd gan y Cyngor mewn perthynas ag adeilad peryglus, eglurwyd mai'r cam cyntaf yw cyflwyno rhybudd i'r perchennog. Ychwanegwyd y golyga hyn mai dim ond os nad yw'r perchennog yn gwneud y gwaith angenrheidiol i ddiogelu'r safle y gall y Cyngor ymyrryd. Nodwyd bod lleoliad yr adeilad peryglus hefyd yn chwarae rhan yma.
- Holwyd a oes diwedd i'r broblem hon, gan bryderu am orfod talu mwy o gostau cynnal a chadw ar yr adeilad am flynyddoedd i ddod. Amlygwyd nad oes sicrwydd am sut y gwnâi'r adeilad ymddwyn yn y dyfodol, ond cadarnhawyd y caiff adeilad ei fonitro'n gyson.

8. TWF – SIARTER Y GYMRAEG YN Y GWAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd y Cabinet ar ran y Cyngor fel cyflogwr i fabwysiadu Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith, Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru), ar y cyd â chynrychiolwyr lleol undebau Unsain, GMB ac Unite.

TRAFODAETH

Eglurwyd mai nod y Siarter yw i gefnogi gweithwyr, eu hundebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog a sicrhau fod gan weithwyr fynediad at gynrychiolaeth gan undebau llafur yn y Gymraeg.

Adroddwyd ar y 4 egwyddor y bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â nhw wrth fabwysiadu'r Siarter, sef

- Twf a hawliau'r Gymraeg
- Cynhwysiant a chyfiawnder ieithyddol
- Arweinyddiaeth ac atebolrwydd
- Dysgu parhaus a meithrin hyder

Pwysleisiwyd rôl allweddol y Gymraeg o fewn y Cyngor ac ymfalchiwyd yn y ffaith mai Gwynedd fydd yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu'r Siarter hwn.

Esboniwyd bod swyddogion y Cyngor wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Siarter, a diolchwyd i gynrychiolwyr yr Undebau am eu brwdfrydedd tuag ato. Gobeithiwyd y bydd mabwysiadu'r Siarter yn dangos y ffordd i awdurdodau eraill wneud yn ogystal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mynegwyd balchder bod y Cyngor yn arwain y ffordd yn y maes ac ategwyd y diolch i'r Undebau am eu cydweithrediad.
- Diolchwyd ac ymfalchiwyd bod yr Undebau yn gweld gwerth yn y gwaith hwn yn ogystal. Pwysleisiwyd y berthynas weithiol dda sydd rhwng y Cyngor a'r Undebau a bod y berthynas honno yn gallu arwain at waith gwych, fel y Siarter hwn.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/25.

TRAFODAETH

Nodwyd y darperir yr adroddiad drosolwg o brif faterion y gweithlu a sut y mae hynny'n llywio rhai elfennau o strategaeth staffio'r Cyngor.

Aethpwyd drwy brif bwyntiau'r adroddiad:

- Gwelwyd ychydig o leihad yn nifer staff y Cyngor erbyn mis Mawrth eleni.

- Nodwyd bod nifer uwch o ferched yn gweithio i'r Cyngor na dynion, gan gyfeirio at y ffigyrau adrannol a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Adnabuwyd bod y mwyafrif o weithlu'r Cyngor dros 40 mlwydd oed ac er felly ei fod yn weithlu profiadol, fe fydd yn her i'r Cyngor pan fydd y staff hynny'n gadael eu cyflogaeth ar yr un pryd.
- Soniwyd bod trosiant staff wedi cynyddu i 9.9%.
- Eglurwyd bod cynnydd mewn absenoldebau salwch – cadarnhawyd bod mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor.
- Datganwyd y bydd system adnoddau dynol a chyflogau newydd yn cael ei chyflwyno flwyddyn nesaf.

Amlygwyd bod yr adroddiad hwn yn gyson gydag adroddiadau blaenorol, a bod y materion sy'n codi yma yn rhan o drafodaethau cyson â phartneriaid.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Wrth gyfeirio at broffil y gweithlu o ran rhyw, holwyd am y rhaniad hwn a sut y gall y Cyngor fynd i'r afael â stereoteipiau traddodiadol o ran meysydd gwaith. Cadarnhawyd bod gwaith a phrosiectau yn edrych ar hyn gan roi cyfleoedd i bobl ym mhob maes. Ychwanegwyd bod modd gweld ôl effaith y gwaith hwn ar ffigyrau penodol o fewn y gweithlu erbyn hyn.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi cyfleoedd teg i bob person yng Ngwynedd gael unrhyw swydd o fewn y Cyngor.
- Holwyd os oes digon o gyfleoedd i ddatblygu staff o fewn y Cyngor, gan bwysleisio pwysigrwydd cadw staff yn ogystal â denu staff newydd. Sicrhawyd y caiff pwyslais ei roi ar gynnal sgysiau datblygiad parhaus gyda staff, a bod nifer uwch o gyrsiau'n cael eu cynnal erbyn hyn.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad a chymeradwywyd yr argymhellion.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan adnabod y cyfnod o newid a chyd-addasu a fu. Datganwyd bod hyrwyddo Modelau Diogelwch wedi cyrraedd pob rheolwr, gan gryfhau dealltwriaeth a chydweithio ar draws y sefydliad. Yn ogystal, nodwyd bod polisïau allweddol wedi'u hadolygu - gan gynnwys y Polisi Alcohol a Chyffuriau - i ddiogelu pawb sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'r Cyngor.

Tywyswyd y Cabinet drwy brif bwyntiau'r adroddiad:

- Cofnodwyd cyfanswm o 4,128 adroddiad o ddamweiniau, gyda 53 ohonynt yn RIDDOR, sef y damweiniau mwyaf difrifol. Soniwyd hefyd am y cynnydd mewn digwyddiadau treisgar.

- Bu dau achos mewn cartrefi preswyl yn arwain at ymweliadau gan AGID (HSE). Derbyniwyd argymhellion i wella dogfennaeth a hyfforddiant atal cwympiadau, gyda ffi ymyrraeth o £1,044.
- Crybwyllwyd bod 9 cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel a 5 cwrs adnewyddu wedi eu cynnal, gan olygu bod 72% o reolwyr bellach wedi eu hyfforddi.
- Derbyniwyd 1,051 atgyfeiriad gan Iechyd Galwedigaethol, gyda 464 ohonynt yn ymwneud ag iechyd meddwl. Ychwanegwyd bod darpariaeth cwnsela wedi cynyddu dros 180%.
- Adroddwyd bod achrediad ISO 45001 yn parhau i gael ei gynnal gan BSI. Soniwyd bod trafodaethau ar y gweill i uno'r ddwy system bresennol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn cynnwys data o ysgolion yn ogystal.
- Gofynnwyd a yw'r nifer uchel o ddamweiniau yn dod o fan penodol o fewn y Cyngor. Datganwyd y caiff staff eu hannog i adrodd ar unrhyw ddamweiniau fel bod posib cael darlun o lle mae'r damweiniau hyn yn deillio, a'r posib o atal problemau yn y dyfodol.
- Eglurwyd bod anghenion plant yn dwysau ac efallai bod angen ystyried sut mae ymateb i hynny.
- Trafodwyd y digwyddiadau treisgar sy'n cymryd lle tu allan i faes Addysg, gan nodi bod amrediad ar draws y Cyngor o ran y math o ddigwyddiadau ac o ran difrifoldeb y digwyddiadau hynny. Pwysleisiwyd yr angen i adrodd ar ddigwyddiadau o'r fath.
- Holwyd am eglurhad o'r cynnydd yn y ffigyrau o aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cludo i'r ysbyty. Amlygwyd y ddyletswydd i adrodd ar achosion o'r fath, a nodwyd bod yr achosion yn amrywio o blant ysgol a phobl mewn cartrefi preswyl i bobl mewn canolfannau hamdden, er enghraifft.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Cwynion A GWELLA GWASANAETH 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad a chynhigiwyd unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

TRAFODAETH

Datganwyd y rhoddai'r adroddiad drosolwg o berfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau yn y cyfnod o Ebrill 2025 i Fedi 2025. Tynnwyd sylw at Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon am gyfnod 2024/25 sydd hefyd ynghlwm.

Amlygwyd bod 22 cwyn ffurfiol dilys a 13 cwyn Ombwdsmon wedi'u cyflwyno rhwng Ebrill a Medi 2025, sy'n lleihad o'r un cyfnod y llynedd. Yn ogystal, datganwyd bod lleihad yn nifer y dyddiau cyfartalog mae'n cymryd i ymateb i gwynion o 17.5 diwrnod yn 2024/2025 i 15.3 diwrnod yn 2025/26.

Adroddwyd mai 'diffyg ymateb/gweithredu' yw prif sail y cwynion, gan nodi bod nifer o'r cwynion yn ymwneud â'r adrannau Amgylchedd a Chyllid. Gobeithiwyd y bydd y Siarter Cwsmer newydd sydd bellach mewn lle, yn arbed nifer o gwynion yn y categori 'diffyg ymateb/gweithredu' yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at y Wal Lwyddiannau ac at y nifer helaeth o ddiolchiadau a chanmoliaeth sy'n cyrraedd y Cyngor gan y cyhoedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd am y prif wersi a ddysgwyd o'r cwynion a sut y gwnaiff hyn arwain at welliant. Tynnwyd sylw at y ffaith mai diffyg ymateb yw prif natur y cwynion ac amlygwyd bod pwysau gwaith staff yn ffactor gyfrannol yma. Nodwyd y caiff cyrsiau gofal cwsmer eu cynnig, a soniwyd am y gwaith pellach sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â hyn.
- Cynigiwyd mai diffyg ymateb yw'r categori hawsaf i fynd i'r afael ag ef, ac awgrymwyd yr angen i ail edrych ar hyn. Eglurwyd bod diffyg adnoddau a'r pwysau sydd ar staff yn cael effaith ar yr hyn sy'n bosib, a bod blaenoriaethau adrannau yn amrywio.
- Nodwyd bod cydnabyddiaeth yn cael ei roi o dderbyn pob cwyn. Ychwanegwyd bod yr adran yn edrych ar system bosib i fynd i'r afael â hyn ac i fod yn fwy rhagweithiol.

12. ACHOS BUSNES AMLINELLOL CARTREF GOFAL PENRHOS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol yn Atodiad 1, yn ddarostyngedig i hynny,

Awdurdodwyd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru i geisio am £16.4miliwn o arian Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) i greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penrhos, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Llawn.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad a chanmolwyd brwdfrydedd a chefnogaeth yr Aelod Lleol at y mater hwn. Diolchwyd yn ogystal i'r swyddogion am eu gwaith caled.

Datganwyd bod y prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Chymdeithas Dai ClwydAlyn i ddatblygu cyfleuster gofal newydd ac arloesol. Nodwyd y bydd yn cynnwys 32 o wlaŵ dementia preswyl a 24 o wlaŵ nyrsio, bydd 8 o'r rhain yn wlaŵ dementia nyrsio.

Eglurwyd bod anghenion gofal yn cynyddu ar draws y wlad, ac adnabuwyd Pen Llyn fel ardal gydag angen cynyddol am y ddarpariaeth. Drwy'r datblygiad hwn, gobeithiwyd galluogi a chefnogi pobl i aros yn lleol i dderbyn gofal.

Cyfeiriwyd at y datblygiadau pellach ar y safle a'r lefelau gwahanol o ofal fydd ar gael, megis adeilad fydd yn cynnwys 30 fflat, tai gofal ychwanegol, a 12 byngalo.

Amlygwyd llwyddiant yr Academi Ofal a soniwyd am y gobaith o allu defnyddio safle Penrhos i ddenu a hyfforddi staff yn lleol.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Llanbedrog gyda Mynytho i'r cyfarfod. Pwysleisiwyd bod gweld y safle'n datblygu yn arbennig. Awgrymwyd bod y datblygiad yn rhywbeth y dylai Cymru gyfan gymryd sylw ohono. Nodwyd pwysigrwydd cadw Cynghorau Plwyf yn ymwybodol o ddatblygiadau a chael pobl leol yn rhan o'r prosiect, a holwyd pe tasai modd cynnal cyfarfodydd er mwyn gwneud hyn.

Ymfalchiwyd yn y gwaith sydd ar droed, a diolchwyd unwaith eto i'r swyddogion am eu gwaith diflino.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Amlygwyd y problemau llifogydd sydd ar y ffordd i'r safle, a gofynnwyd a oes cynlluniau i fynd i'r afael â hynny. Eglurwyd bod y mater wedi'i drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect, ac er nad yw hyn yn disgyn o fewn ffiniau'r Cynllun, penderfynwyd datgan cefnogaeth i unrhyw gynlluniau arfaethedig sy'n ymwneud â'r ffordd.
- Adnabuwyd pa mor arloesol yw'r prosiect, ond soniwyd am yr angen, a'r her o ddenu staff i'r maes.
- Gobeithiwyd am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r prosiect hwn yn ogystal.
- Ymhelaethwyd ar y prosiectau eraill sydd ar y gweill er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ofal yng Ngwynedd.

13. GWELLIANNAU SYLWEDDOL I YSGOL TRYFAN – CYNYYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

PENDERFYNIAD

Rhoddwyd caniatâd y Cabinet i gynyddu cyllideb y prosiect i wneud gwelliannau sylweddol i adeiladau a safle Ysgol Tryfan ym Mangor er mwyn cyfarch costau chwyddiant a chynnydd cyffredinol mewn costau deunyddiau adeiladu ers sefydlu cyllideb wreiddiol y prosiect yn 2018, gan wireddu hynny drwy drosglwyddo £1.96m o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyfarch cyfanswm y costau a ragwelir i wireddu'r prosiect yn Ysgol Tryfan.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod cynnydd sylweddol mewn costau wedi golygu'r angen i ail edrych ar gynlluniau, a rhagwelwyd yr angen i gynyddu cyllideb y prosiect hwn i £23.6 miliwn. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cyllido 65% o gost y cynllun, sy'n golygu bod cyfraniad Cyngor Gwynedd yn £1.96 miliwn ychwanegol.

Cyfeiriwyd at y cynllun fel buddsoddiad yn nyfodol plant a phobl ifanc y Sir, ac yn y Gymraeg ym Mangor.

Amlygwyd gan yr Aelod Cabinet ei fod wedi ymweld ag Ysgol Tryfan, ac wedi gweld yr angen sydd am fuddsoddiad. Tynnwyd sylw at y difrod a wnaethpwyd i'r Ysgol yn ystod y stormydd diweddar, a'r ffaith bod sgaffaldiau ar adeiladau'r Ysgol yn ei wneud yn beryglus.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Glyder i'r cyfarfod. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y buddsoddiad hwn i addysg uwchradd Gymraeg ym Mangor. Ategwyd y geiriau am gyflwr yr adeiladu a'u bod yn hen a bregus.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Holwyd sut byddai'r datblygiadau hyn yn gwella'r profiad dysgu i ddysgwyr yn yr Ysgol. Eglurwyd bydd yr amgylchedd ddysgu'n gwella drwy ddatblygu ansawdd a maint dosbarthiadau, ynghyd â darpariaethau chwaraeon datblygiadol a gwelliant i ofodau allgyrsiol yn yr Ysgol.
- Sicrhawyd mai dyma'r ffordd fwyaf cost effeithiol o gwblhau'r prosiect.
- Nodwyd mai bwriad cynyddu capasiti'r Ysgol yw sicrhau continwwm o addysg Gymraeg o'r cynradd i'r uwchradd i blant y dalgylch am flynyddoedd i ddod.
- Cadarnhawyd y bydd pob adeilad newydd ar y safle yn cwrdd â thargedau carbon sero net, yn unol â gofynion y grant. Bydd lleihau allyriadau carbon yr adeilad hefyd yn gorfod cael ei ystyried gydag unrhyw addasiadau i'r adeilad.

14. POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd drafft o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd enghreifftiol i ysgolion Gwynedd er mwyn ei gyflwyno i bwrpas ymgysylltu cyhoeddus. (Atodiad 1).

TRAFODAETH

Amlygwyd mai diweddarau'r Polisi Iaith Addysg gyfredol yw pwrpas yr adroddiad. Adnabuwyd ei bod yn gyfnod o newid i'r Gymraeg mewn addysg a chyfeiriwyd at Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol yn ddiweddar.

Datgelwyd y bydd angen i'r Cyngor osod ysgolion mewn gwahanol gategoriâu iaith, ond nodwyd na fydd hyn yn cael ei weithredu'n llawn tan 2030. Tynnwyd sylw at awydd y Cyngor, fel awdurdod addysg, i fod yn rhagweithiol gan sicrhau bod gan yr ysgolion amser digonol i ymateb pe bai angen cyflwyno unrhyw newidiadau yn sgil y Polisi ddrafft hwn.

Rhestrwyd y rhanddeiliaid allweddol y bu i'r adran ymgynghori a hwy wrth ddod a'r Polisi drafft gerbron y Cabinet. Wrth egluro rhesymeg dod a'r eitem hwn gerbron y Cabinet, pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgysylltu cyhoeddus i gael barn y cyhoedd am y Polisi drafft.

Nodwyd mai Polisi drafft ydyw ac nad oes gan y Cyngor hawl i orfodi unrhyw bolisi iaith ar ysgolion. Ychwanegwyd ei fod yn benderfyniad i gyrff Llywodraethol yr ysgolion i fabwysiadau unrhyw bolisi.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod. Manylwyd ganddo ar y tair gwaith y bu'r Polisi drafft hwn fynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, a'r sylwadau ac argymhellion oedd yn deillio o hynny.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mynegwyd cefnogaeth i'r Polisi drafft gan gwestiynu pa gefnogaeth fydd ar gael i'r ysgolion hynny a fydd angen newid yn sgil y Polisi drafft. Sicrhawyd y bydd pob ysgol yn cael cyfle i baratoi a chyflwyno eu cynlluniau cyflawni. Yn ogystal, nodwyd mai pwrpas cyflwyno'r Polisi drafft ar y pwynt hwn yw i sicrhau bod gan yr ysgolion ddigon o amser i baratoi a blaen gynllunio ar gyfer mabwysiadu'r Polisi. Ychwanegwyd bod staff ysgolion hefyd yn derbyn cefnogaeth i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a bod cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth hon drwy gynlluniau sabothol.
- Mynegwyd awydd i weld yr ysgolion hyn sy'n trosi yn symud ar draws y continwum, a gallu dangos eu bod yn gwneud cynnydd ieithyddol cyson.
- Croesawyd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i nodi eu bod am gynnal adolygiad o gyrff Llywodraethol a'u rôl, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau fel hyn.
- Cydnabuwyd bod dylanwadu ar iaith gymdeithasol ysgolion yn heriol, ond gobeithiwyd y bydd y Polisi drafft hwn yn galluogi cydweithio gydag ysgolion er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd cymdeithasol a phrofiadau allgyrsiol sydd yn defnyddio'r Gymraeg.

15. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYNLLUN DIGIDOL CYNGOR GWYNEDD (CYFNOD 2024/2025)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

PENDERFYNIAD

Nodwyd cynnwys a chymeradwywyd cyfrol gyntaf o adroddiadau blynyddol ar Gynllun Digidol Cyngor Gwynedd (2023-2028).

TRAFODAETH

Pwysleisiwyd ran annatod technoleg gwybodaeth mhob peth sydd o'n cwmpas erbyn hyn.

Cyfeiriwyd at y Systemau Rheoli Sefydliad, gan ychwanegu bod y darparwr llwyddiannus ar fin cael ei gyhoeddi.

Adroddwyd am y gwaith parhaol o Barhad Gwasanaeth a phwysleisiwyd pwysigrwydd y gwaith hwn mewn perthynas â gwarchod systemau rhag ymosodiadau seibr.

Cadarnhawyd bod System Ffôn newydd y Cyngor ar waith a bod y Ganolfan Gyswilt hefyd yn weithredol ar y datrysiad newydd.

Datganwyd bod deallusrwydd artiffisial yn cael ei dreialu, ac mae'r adran yn edrych ar astudiaethau achos er mwyn gweld sut gall y Cyngor ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i ddatblygu.

Trafodwyd bod bwriad i uwchraddio'r ddarpariaeth ddarlledu yn Siambrau'r Cyngor.

Amlygwyd mai hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf sy'n adrodd ar y Cynllun Digidol, a nodwyd erbyn y flwyddyn nesaf y bydd modd cymharu ac edrych yn ôl ar adroddiad eleni i sicrhau fod y Cynllun yn rhagweithiol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Datganwyd bod adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a oedd yn cynnwys sôn am y diffyg cyfleoedd sydd i bobl hŷn gyfrannu at drafodaethau digidol a'r trafferthion posib sy'n eu hwynebu yn y maes. Pwysleisiwyd pwysigrwydd adroddiad cydraddoldeb o fewn y maes hwn. Ymfalchïwyd bod cyfeiriad at addysgu o fewn yr adroddiad a phwysigrwydd hynny wrth fynd ymlaen.
- Cyfeiriwyd at y capasiti o fewn y Tîm i gyflawni, ac amlygwyd yr angen i ail flaenoriaethu yn barhaus er mwyn cyrraedd gofynion yn ogystal â chwilio am fwy o adnodd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 3:40yh.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 16 Ionawr 2026
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dewi Jones
Swyddog Cyswllt: Debbie Jones – Pennaeth Cynorthwyol Addysg
Teitl yr Eitem: Polisi Cludiant Addysg (Drafft)
Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Ceisir caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg (Drafft).

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mabwysiadwyd y Polisi Cludiant Addysg presennol yn 2009, ac er nad oes newid i'r gofynion statudol ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr, mae'n amserol adolygu'r polisi oherwydd yr angen i:

- 2.1.1 Sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol:
- Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu gyfan o'r elfennau dewisol o'r polisi
- 2.1.2 Sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd:
- Mae anghysondeb yng nghynnwys y polisi ar draws yr holl feysydd, ac mae'n anghyson hefyd o ystyried polisiau cludiant rhai siroedd eraill.
- 2.1.3 Sicrhau bod y Polisi'n addas i bwrpas o ran rhesymoldeb gweithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael:
- Mae'r Polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono mwyach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol;
 - Mae'r Polisi yn amwys sy'n llesteirio gallu'r Awdurdod i wneud penderfyniadau clir a chytbwys gan ein gadael yn agored i her a chwynion.

3 CEFNDIR

- 3.1 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol' (Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.
- 3.2 Mae'r Mesur yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol:
- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal ei hawdurdod;
 - Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir o'r ysgol addas agosaf;

- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir o'r ysgol addas agosaf;
- Asesu a diwallu anghenion plant 'sy'n derbyn gofal' yn ardal eu hawdurdod;
- Hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg ac ysgolion ffydd;
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

3.3 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â gofynion y Mesur. Ar yr un pryd, o fewn y Mesur, gall yr Awdurdod Lleol wneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur, ac ar sail dewis a disgresiwn yr Awdurdod.

3.4 Yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu polisiau i ddarparu cludiant dewisol o fewn eu Polisi Cludiant Addysg, ac os bydd Awdurdod yn gwneud defnydd o bwerau Rhan 6 i ddarparu cludiant dewisol, mae gan yr Awdurdod hefyd yr hawl i ddiddymu'r ddarpariaeth yn ddiweddarach. Er mwyn gwneud hynny, o dan ganllawiau statudol 2014, mae'n ofynnol:

- Cynnal ymgynghoriad cyn dileu neu addasu darpariaeth ddewisol; a
- Cyhoeddi trefniadau erbyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol.

4. CYFLWYNIAD

4.1 Mae'r prif newidiadau a gynigir i'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) i bwrpas ymgynghori yn ymwneud â darpariaeth cludiant dewisol yr Awdurdod yn y meysydd canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliaid Deuol
- Ôl-16

4.2 Cynllun Seddi Gweigion

4.2.1 Ar hyn o bryd, cynigir sedd wag i ddysgwyr nad oes ganddynt hawl i gludiant di-dâl os bydd argaeledd sedd ar gludiant a chodir tâl am y sedd honno. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:

- Bod seddi gwag ar gael;
- Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol;
- Dim costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd;
- Talu'r ffi gyfredol am sedd wag.

4.2.2 Nid yw'r cynllun ar gael ar gytundebau cludiant cyhoeddus, ac nid oes sicrwydd y bydd y sedd wag ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd. Ceisir rhoi o leiaf wythnos o rybudd petai'r trefniant yn gorfod dod i ben.

4.2.3 Yn sgil y gofynion statudol i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid cyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol, nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion fel y bwriadwyd heb ymrwymo i gynnig sedd wag drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn mynd yn groes i hanfod y cynllun o drefniant hyblyg i allu cynnig sedd wag heb ymrwymo i ddarparu'r sedd am gyfnod penodol, gan y gallai hynny arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod. O ganlyniad, mae'r Cynllun Seddi Gweigion fel pennawd wedi'i ddiddymu fel cynnig o'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft).

4.3 Ysgolion Ffydd

4.3.1 Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y Polisi Cludiant Addysg er y darperir cludiant i ddysgwyr sy'n dewis mynychu'r ysgolion ffydd ar hyn o bryd yn unol â'r gofyn statudol. Mae gan Wynedd ddwy ysgol ffydd (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr), a'r ysgolion eu hunain yw'r awdurdodau mynediad yn hytrach na'r Cyngor, ac felly nid oes ffiniau dalgylch penodol ar eu cyfer fel gyda gweddill ysgolion y sir.

4.3.2 Mae gofyn i'r awdurdod hyrwyddo mynediad i ysgolion ffydd, felly mae cludiant i ysgolion ffydd fel cynnig wedi ei ychwanegu i'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft). Mae'r cynnig yn nodi'r bwriad i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr yn unol â'r gofyn statudol, ac i ddysgwyr sy'n byw ddim mwy na phum milltir o'r ysgol (ffydd) addas agosaf, gan adlewyrchu'r ffaith fod ysgol ffydd yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch arferol ysgol, gan gynnig eglurder o fewn y polisi ar yr hawl i gludiant.

4.4 Preswyliaid Deuol

4.4.1 Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswyllo mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant ar wahân, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r preswylfeydd hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif breswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa.

4.4.2 Mae'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) yn cynnig rhagor o eglurder, sef y darperir cludiant yn unol â'r gofyn statudol, ond na ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na 5 milltir o'r ysgol addas agosaf.

4.5 Cludiant Ôl-16

4.5.1 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant dewisol i ddysgwyr ôl-16 llawn amser i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- Ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynnyddoedd 12 & 13.
- Ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer Blynnyddoedd 12 & 13 & 14
- Grŵp Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon.

4.5.2 Mae'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) yn cynnig bod yr awdurdod yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol neu'r coleg ôl-16 addas agosaf sy'n darparu'r cwrs.

4.5.3 Mae'r cynnig i ddarparu cludiant ôl-16 i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd ag i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yn:

- gyson gyda gweddill y Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol.
- golygu bod y ddarpariaeth cludiant yn cefnogi darpariaeth ôl-16 ar draws y sir, ac yn cyfrannu at sicrhau hyfywedd y darpariaethau ledled y sir, yn Arfon, Dwyfor a Meirion wrth gludo dysgwyr i'r safleoedd agosaf sy'n darparu'r cwrs.
- golygu na fydd myfyrwyr Prifysgol Bangor yn gymwys am gludiant ôl-16 gan fod y cynnig yn ymwneud â chludiant i ysgolion uwchradd neu safleoedd Grŵp Llandrillo Menai yn unig
- golygu cyfyngder oedran o fod yn llai nag 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academiaidd y dilynwyd y cwrs. Mae hyn yn gyson gyda pholisi cludiant siroedd eraill.

4.5.4 Nodir fod gan ddysgwyr yr hawl i ddewis unrhyw leoliad ar gyfer eu haddysg ôl-16, ond os na fydd dysgwr yn dewis yr ysgol/ safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yna byddent yn colli eu hawl i gludiant am ddim, yn yr un modd â'r Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol.

4.6 Eglurder Pellach

4.6.1 Ceir yna hefyd feysydd eraill o fewn y Polisi Cludiant Addysg ble rydym wedi ychwanegu manylder ac eglurder i'r polisi, ond nid yw'r ychwanegiadau hynny'n arwain at unrhyw newid i'r ymrwymiad i ddarparu cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant presennol. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys:

- Mesur Pellter Teithio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Ad-drefnu Ysgolion
- Disgwyliadau ar rieni/gwarchodwyr

5. YSTYRIAETHAU ERAILL

5.1 Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

- 5.1.1 Bydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn cael cyfle i graffu'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gyflwyno argymhelliad i'r Cabinet. Caiff argymhelliad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ei ystyried fel rhan o'r adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â chyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg terfynol i'w fabwysiadu.

5.2 Asesiad Effaith Cydraddoldeb

- 5.2.1 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y Polisi Cludiant Addysg (Drafft), a gellir gweld yr asesiad drafft llawn yn Atodiad 2.
- 5.2.2 Mae'r asesiad drafft yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod y polisi yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Byddwn yn ystyried yr asesiad ymhellach ac yn addasu pan fo gwybodaeth newydd yn dod i law yn sgil yr ymgynghoriad.
- 5.2.3 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad fod y Polisi Cludiant Addysg (Drafft) yn debygol o gael effaith cadarnhaol a negyddol ar rai nodweddion cydraddoldeb. O safbwynt oedran, mae effaith cadarnhaol posib gan y bydd y Polisi arfaethedig yn gosod canllaw glir i ddysgwyr yn sgil y ffaith y bydd dysgwyr o bob oed cymwys yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Fodd bynnag, mae effaith negyddol posib ar grŵp bychan o ddysgwyr 19 oed a hŷn sydd ar hyn o bryd yn manteisio ar y Tocyn Teithio Ôl-16.
- 5.2.4 Yn yr un modd, mae effaith cadarnhaol posib ar grŵp bychan o ddysgwyr sydd yn dewis mynychu ysgolion ffydd, gan fod y Polisi drafft yn cynnig canllawiau eglur o safbwynt pellter teithio cymwys. Fodd bynnag, mae effaith negyddol posib hefyd gan fod y Polisi drafft yn cynnig cludo dysgwyr i ysgolion ffydd o uchafswm pellter o 5 milltir, tra bod y Polisi presennol yn fwy amwys ynglŷn â'r pellter cludo.
- 5.2.5 Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau y rhoddir cyfleoedd i bawb fynychu safleoedd addysg dalgylch/addas agosaf. Mae effaith bositif posib o ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 ar sail disgresiwn, fel eu bod yn gallu parhau i astudio mewn chweched dosbarth neu goleg addysg bellach gyda darpariaeth cludiant yn rhad ac am ddim. Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth trefniadau cludiant addysg â'r nodweddion cydraddoldeb.

5.3 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

- 5.3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.
- 5.3.2 Yn dilyn ystyriaeth yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y Polisi Cludiant Addysg (Drafft) arfaethedig yn cyfrannu at bob un o'r 7 nod llesiant, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal a llewyrchus.

6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 6.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar y Polisi Cludiant Addysg (Drafft).

- 6.2 Yn unol â gofynion y ddogfen *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol (Mehefin 2014)* mae'n ofynnol i ymgynghori ar unrhyw newid i gynnwys y Polisi Cludiant Addysg, ynghyd â chyhoeddi'r trefniadau erbyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol. Rhagwelir felly y byddai'r cyfnod ymgynghori'n cael ei gynnal yn ystod misoedd Chwefror-Mawrth 2026.
- 6.3 Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, bwriedir ceisio barn nifer o ran-ddeiliaid, gan gynnwys:
- Penaethiaid Ysgolion
 - Cyrff Llywodraethol
 - Grŵp Llandrillo Menai
 - Rhieni / Gwarchodwyr
 - Plant a Phobl Ifanc
 - Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- 6.4 Yn dilyn hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod Tymor yr Haf er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid mabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig ai peidio.
- 6.5 Pe byddai'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet, byddai'r Polisi newydd yn cael ei gyhoeddi cyn 1 Hydref 2026, er mwyn sicrhau y byddai'n dod i rym yng Ngwynedd ym Medi 2027, yn unol â'r *Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009*.
- 6.6 Dyma'r amserlen arfaethedig:

Camau	Amserlen
Cyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg Drafft gerbron Cabinet i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghori.	Ionawr 2026
Ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft (cyfnod o 4-6 wythnos).	Chwefror-Mawrth 2026
Adrodd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.	Mehefin 2026
Adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, ac argymhelliad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a chyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg terfynol gerbron Cabinet i'w fabwysiadu.	Gorffennaf 2026
Polisi Cludiant Addysg diwygiedig yn cael ei gyhoeddi.	1 Hydref 2026
Polisi Cludiant Addysg diwygiedig yn dod yn weithredol.	1 Medi 2027

7. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

7.1 Prif Swyddog Cyllid:

“Nid yw'r newid polisi yn debygol o gael effaith arwyddocaol yn gyllidol, ac rwyf yn cytuno gyda'r angen i'r polisi fod yn gyfredol, eglur ac addas i bwrpas. Rwyf felly yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.”

7.2 Swyddog Monitro:

“Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gyda chynghor ac arweiniad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

8. Atodiadau

Atodiad 1: Polisi Cludiant Addysg Gwynedd 2026 (Drafft)

Atodiad 2: Asesiad Effaith Cydraddoldeb

POLISI CLUDIANT ADDYSG

CYNGOR GWYNEDD



POLISI DRAFFT
(Ionawr 2026)



1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i ddarparu cludiant i'r ysgol yn unol â *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* a *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*. Mae'r Polisi Cludiant i Ddysgwyr yma'n amlinellu sut mae'r Awdurdod yn darparu cludiant i ddysgwyr ysgol a dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai sy'n preswyllo yng Ngwynedd, a'r meini prawf cymhwyster.
- 1.2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried y canlynol wrth wneud trefniadau i ddysgwyr sy'n preswyllo yng Ngwynedd:
 - Oedran y dysgwr
 - Y pellter o'r cartref i'r ysgol
 - Natur y llwybr o'r cartref i'r ysgol
 - Ceisiadau am addysg ffydd
 - Anghenion dysgwyr gydag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol
 - Anghenion dysgwyr sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol
 - Anghenion dysgwyr gyda phreswyliaid deuol.
- 1.3 Mae'r Mesur yn caniatáu'r Awdurdod Lleol i ddefnyddio disgresiwn mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir o dan rai amgylchiadau. Amlinellir yr elfennau dewisol hyn yn Rhan 3 o'r polisi hwn.
- 1.4 Darperir cludiant i ddysgwyr ôl-16 o dan y polisi fel trefniant dewisol. Gweler Rhan 3.3.
- 1.5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol o dan rai amgylchiadau. Amlinellir y rhain yn Rhan 2. Mae'r ddyletswydd i ddarparu'r cludiant hwnnw ond yn berthnasol os ydy plentyn yn preswyllo yn ardal yr Awdurdod.
- 1.6 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu cludiant diogel, priodol, effeithlon a chost effeithiol i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys o dan y polisi hwn.
- 1.7 Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys rhwng eu cyfeiriadau cartref neu fan casglu dynodedig a'r ysgol addas agosaf lle mae'n nhw wedi cofrestru ynddi. Ni ddarperir cludiant am ddim i gyfeiriadau neu o gyfeiriadau aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, cyfeiriadau gwaith y rhieni, neu gyfleusterau gofal plant o unrhyw fath.
- 1.8 Daw'r Polisi i rym o 1 Medi 2027 ymlaen. Bydd trefniadau cludiant a aseswyd ac a ddarparwyd o dan bolisi blaenorol yr Awdurdod Lleol yn parhau oni fod newid materol mewn amgylchiadau a fyddai'n gofyn am wneud cais newydd, e.e. symud cartref neu ysgol / ysgol neu goleg ôl-16.

2. CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

2.1 Ysgolion sy'n gymwys

2.1.1 Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n diwallu'r meini prawf am gludiant a osodir yn y polisi hwn. Cyfeiria'r polisi at gludiant i ysgolion sy'n gymwys ac oddi wrthynt yn y categorïau canlynol:

- Ysgol gymunedol, sylfaen, a reolir neu wirfoddol a gynorthwyr
- Ysgol arbennig nas cynhelir
- Uned cyfeirio i ddisgyblion
- Ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig

2.2 Meini Prawf Pellter

2.2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn amodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr oed ysgol gorfodol yn unig, os ydi'r pellter o'r cartref i'w hysgol addas agosaf o leiaf:

- a) 2 filltir i ddysgwyr Ysgolion Cynradd
- b) 3 milltir i ddysgwyr Ysgolion Uwchradd

2.3 Yr Ysgol ddalgylch/addas agosaf

2.3.1 Diffinnir ysgol ddalgylch dysgwr gan ddalgylchoedd penodol ac yn seiliedig ar leoliad cartref y dysgwr. Yr ysgol addas agosaf at ddibenion cludiant fydd yr ysgol dan ofal Cyngor Gwynedd sydd agosaf at gartref y dysgwr. Ceir gwybodaeth bellach am yr ysgol ddalgylch/addas agosaf trwy ymweld â'r ddolen 'Lle dwi'n byw' ar wefan Cyngor Gwynedd: [Chwilio am gyfeiriad](#)

2.3.2 Os yw'r ysgol ddalgylch / addas agosaf yn llawn, asesir argaeledd yr ysgol addas agosaf nesaf sydd ar gael i dderbyn y dysgwr. Bydd yr un meini prawf pellter yn berthnasol.

2.3.3 Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys rhwng eu cyfeiriadau cartref neu fan casglu dynodedig a'r ysgol addas agosaf lle maent wedi cofrestru ynddi. Ni ddarperir cludiant am ddim i gyfeiriadau neu o gyfeiriadau aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, cyfeiriadau gwaith y rhieni, neu gyfleusterau gofal plant o unrhyw fath.

2.4 Mesur Pellter Teithio

2.4.1 Ar gyfer asesiadau o dan y meini prawf pellter yn Rhan 2.2, bydd y gwaith o gyfrifo pellter o'r cartref i'r ysgol yn glynu wrth yr arweiniad a ddarparwyd yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*.

- 2.4.2 Lle disgwylir yn rhesymol i ddysgwyr gerdded i'r ysgol, caiff y pellter ei fesur yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael y gallai plentyn, boed yn annibynnol neu gyda hebryngwr, gerdded, yn rhesymol o ddiogel arno; o ystyried oedran ac anghenion y plentyn.
- 2.4.3 Asesir addasrwydd y llwybr teithio o ran diogelwch y dysgwr wrth gerdded arno, a gwneir asesiadau risg trylwyr gan swyddogion yr Uned Gludiant Integredig (Cyngor Gwynedd) ar amseroedd tebygol o'r dydd y byddai'r dysgwr yn ei ddefnyddio.
- 2.4.4 Wedi cynnal asesiad risg o lwybr teithio'r dysgwr (boed hynny'n cerdded yn annibynnol neu gydag oedolyn cyfrifol), os bernir bod llwybr teithio o'r cartref i'r ysgol yn beryglus, yna ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol, er bod y pellter o'r cartref i'r ysgol yn llai na'r pellter statudol a nodir yn 2.2 uchod. Yn yr amgylchiadau yma, mae gan y dysgwr hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim.
- 2.4.5 Y diffiniad o ffordd beryglus yw lle mae natur y ffordd, sydd yn cynnwys llwybrau troed cyhoeddus, yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr gerdded yn gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd yr Awdurdod yn asesu'r peryglon y gallai dysgwr eu hwynebu; gall y rhain gynnwys afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd, data damweiniau o'r gorffennol, coed a changhennau, ynghyd â nodweddion eraill all rwystro gyrrwr cerbyd allu gweld cerddwyr ar y ffordd.
- 2.4.6 Ar gyfer asesiadau dros y meini prawf pellter a nodir yn 2.2, caiff pellter y llwybr i'r ysgol ei fesur o ffin y cartref i'r fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol, a gallai gynnwys llwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau eraill, yn ogystal â ffyrdd wedi'u mabwysiadu. Nid oes rhaid iddo gynrychioli'r pellter byrraf ar y ffordd. Caiff y pellter ei fesur gan system fapio ddigidol (GIS).

SYLWER: Dylai Rhieni / Gwarchodwyr gyfeirio hefyd at Ran 5.5 am wybodaeth am ddulliau teithio cynaliadwy i'r ysgol.

2.5 Cludiant Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

- 2.5.1 Bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf yn unol â meini prawf y polisi hwn ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Gallai darpariaeth ddewisol fod yn berthnasol hefyd, yn rhinwedd y meini prawf a ddengys yn Rhan 3.

2.6 Dewis Ysgol y Rhieni / Gwarchodwyr

- 2.6.1 Mae gan rieni / gwarchodwyr yr hawl i ddewis unrhyw ysgol ar gyfer mynediad i'w plentyn yn amodol ar argaeledd llefydd. Os derbynnir y cais, bydd y rhiant / gofalwr yn colli eu hawl i gludiant am ddim os nad dyma yw eu hysgol ddalgylch / ysgol addas

agosaf, neu os nad honno yw'r ysgol Uwchradd ddynodedig ar gyfer yr ysgol fwydo gynradd a fynychwyd ganddynt.

- 2.6.2 Mae hyn yn gyson ac yn cwrdd â'r gofynion a amlinellir yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol (Mehefin 2014)*.

PWYSIG: Cyngorior rhieni / gofalwyr i ystyried goblygiadau cludiant ysgol cyn datgan eu dewis am le mewn ysgol. Gweler Rhan 2.3 ar yr ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd a Rhan 4.4 ar effaith cludiant.

2.7 Mynediad i Ysgol

- 2.7.1 Os bydd rhieni / gofalwyr yn methu sicrhau lle i'w plentyn yn eu hysgol dalgylch/addas agosaf, neu os ydy eu hysgol Uwchradd ddynodedig (o'r ysgol gynradd fwydo briodol) yn llawn, yna bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'w hysgol addas agosaf nesaf, ar yr amod y bodlonir y meini prawf pellter yn Rhan 2.2.

2.8 Safleoedd Casglu a Gollwng

- 2.8.1 Ar gyfer dysgwyr sydd yn gymwys ar gyfer cludiant, bydd disgwyliad eu bod yn cychwyn o fan casglu wedi'i benderfynu ymlaen llaw, oni nodir fel arall pan brosesir y cais. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i leoli mannau casglu sy'n rhesymol agos i gartrefi dysgwyr, ac nad yw'n fwy na'r pellteroedd statudol a amlinellir yn Rhan 2.2. Bydd unrhyw bellter a fesurir yn dilyn yr egwyddorion a amlinellir yn Rhan 2.4. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried llwybrau peryglus, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn Rhan 2.8.
- 2.8.2 Cyfrifoldeb y rhiant / gwarchodwr yw sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd y man casglu mewn modd amserol a'i fod yn mynd ar y cerbyd yn ddiogel. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod yno oedolyn cyfrifol i gyfarfod y plentyn ar y siwrnai'n ôl, os yw oedran neu anghenion y plentyn yn gofyn am ddarparu hebryngwr.
- 2.8.3 Os nad oes oedolyn cyfrifol yno i gyfarfod plentyn sydd o ran oedran neu anghenion yn gofyn am ddarparu hebryngwr, yna bydd costau ychwanegol yn daladwy gan y rhiant/gwarchodwr, oherwydd gallai fod angen i Swyddogion geisio arweiniad gan y Gwasanaethau Plant ac, os bydd angen, trefnu i fynd â'r plentyn i fan diogel gan Gyngor Gwynedd.
- 2.8.4 Nid oes unrhyw beth yn y Polisi hwn yn creu'r disgwyliad y dylai pob plentyn gerdded i'r mannau casglu, gan y byddai hyn yn anaddas mewn rhai achosion. Mae'r Awdurdod yn cadw cofrestr o lwybrau peryglus hysbys, ac mae hyn yn ffurfio rhan o'r ystyriaeth a roddir wrth asesu ceisiadau am gludiant. Fodd bynnag, os cred rhiant / gwarchodwr nad yw defnydd o fan casglu'n addas i'w plentyn, dylent fynegi eu pryderon er sylw'r

Awdurdod, a fydd yn ymchwilio i'r amgylchiadau i benderfynu a oes angen trefniadau cludiant ychwanegol neu amgen eu hangen i'r plentyn hwnnw; er mwyn sicrhau bod gofynion y *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn cael eu bodloni. Er hyn, disgwylir y bydd rhieni / gwarchodwyr yn gwneud trefniadau ar gyfer y ddwy filltir gyntaf i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan yr Awdurdod.

- 2.8.5 Mae gan yr Awdurdod yr hawl i adolygu'r manau casglu i sicrhau y cynhelir llwybr diogel yn barhaus ac yn amodol ar sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf cost effeithiol ar waith.
- 2.8.6 Unwaith bydd cymhwysedd am gludiant ysgol wedi'i gadarnhau, bydd yr Uned Gludiant Integredig yn hysbysu'r ysgol gyda chais i'r ysgol rannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r rhieni / gofawyr.
- 2.8.7 Ble defnyddir cludiant i gludo dysgwyr i fannau casglu, rhaid i'r dysgwyr aros gyda'r taci hyd nes i'r cerbyd i'w cludo ymlaen gyrraedd. Mae disgwyl i yrwyr adrodd i'r Uned Gludiant Integredig am unrhyw ddysgwyr nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r disgwyliad yma.
- 2.8.8 Mae contractwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi'u cyfarwyddo i aros gyda dysgwyr i sicrhau eu bod yn mynd ar y cerbyd sy'n eu cludo ymlaen. Anogir rhieni / gwarchodwyr hefyd i adrodd i'r Uned Gludiant Integredig am unrhyw achosion lle nad yw gyrwyr yn gwneud hyn.

2.9 Llwybrau Peryglus

- 2.9.1 I ddysgwyr sy'n byw o dan y pellter cymhwyso statudol a ddengys yn Rhan 2.2, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol os ystyrir fod y llwybr yn beryglus. Asesir llwybrau peryglus gan Yr Uned Gludiant Integredig gan dilyn y canllawiau a ddarparwyd yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*.
- 2.9.2 Lle defnyddir manau casglu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried hefyd a oes llwybrau peryglus allai atal dysgwyr yn rhesymol rhag cerdded i'r lleoliadau hyn, gyda chwmni hebryngwr fel y bo angen. Yn yr achosion hynny, bydd yr Awdurdod Lleol, ar ôl asesu, yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r man casglu, neu'n cyfeirio at yr ysgol (pa bynnag un sydd fwyaf effeithlon).

SYLWER: Lle mae rhieni / gofawyr wedi defnyddio'u hawl i ddewis ysgol yn ôl eu dymuniad (gweler Rhan 2.6), yna cyfrifoldeb y rhiant/gofawr yw trefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol.

- 2.9.3 Os cred rhiant / gwarchodwr fod llwybr penodol yn beryglus, dylent fynegi eu pryderon i sylw'r Awdurdod, a fydd yn ymchwilio i gadarnhau a oes angen unrhyw drefniadau cludiant ychwanegol neu amgen.

2.10 ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) A CHYFLYRAU MEDDYGOL

- 2.10.1 Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyflwr meddygol, anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwr wrth asesu anghenion teithio dysgwyr yn yr ardal. Os oes gan ddysgwr Gynllun Datblygu Unigol (CDU), bydd cludiant i'r dysgwr yn cael ei ddarparu yn unol â'r CDU – gall hyn gynnwys plant cyn-ysgol hefyd. Os caiff y CDU ei adolygu a'r elfen cludiant yn cael ei ddiwygio, bydd unrhyw drefniadau cludiant yn adlewyrchu'r CDU diwygiedig.
- 2.10.2 Gall yr Awdurdod ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oed ysgol orfodol, os nad oes ganddynt CDU, pan ofynnir am gludiant am resymau meddygol, anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol dysgwr (ADY). Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hystyried pan fydd ffurflen gais am gludiant ar sail feddygol yn cael ei chwblhau ynghyd â thystiolaeth gan ymgynghorydd neu berson o statws tebyg (nid Meddyg Teulu, Nyrs neu Ymarferydd). Bydd cludiant i ddysgwyr gydag anhawster meddygol/ADY yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau unigol a'r llwybr y mae'n ofynnol i'r dysgwr ei deithio. Caiff y trefniadau cludiant yma eu hadolygu'n flynyddol.
- 2.10.3 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr i deithio'n annibynnol ble fo hynny'n ymarferol bosibl. Bydd yr adolygiad blynyddol o'r trefniadau teithio yn ystyried y math o gludiant a ddarperir i'r dysgwr ac, os darperir cynorthwyydd teithwyr personol, p'un a oes angen parhau gyda'r trefniant hwnnw ai peidio. Gall Cyngor Gwynedd wneud newidiadau i drefniadau cludiant yn dilyn yr adolygiad.

2.11 Plant sy'n Derbyn Gofal

- 2.11.1 Plant sy'n derbyn gofal yw'r term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio plant sydd o dan 18 oed sy'n derbyn gofal a llety gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyngor Gwynedd, yn aml gyda gofalwyr maeth.
- 2.11.2 Mae gan blant sy'n derbyn gofal (yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989) yr un hawl i dderbyn cludiant a phlant nad ydynt yn derbyn gofal; fodd bynnag, nid oes gofynion iddynt fynychu'r ysgol addas agosaf at eu cartref neu gyfeiriad y lleoliad.
- 2.11.3 Os yw'r plentyn sy'n derbyn gofal yn mynychu ysgol agosach na'r pellter gofynnol a ddengys yn Rhan 2.2, ni fydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu. Gallai eithriadau yn rhinwedd y meini prawf a ddengys yn Rhan 3 fod yn berthnasol hefyd.

2.12 Preswyliaid Deuol

- 2.12.1 Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswyllo mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwyr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r preswylfeydd hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif breswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa. Ni ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na phum milltir o'r ysgol addas agosaf.
- 2.12.2 Rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth os ydynt yn credu fod yr amser rhwng y ddau gyfeiriad yn hafal ac yn bodloni'r meini prawf cymhwys.

SYLWER: Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cadw'r hawl i brofi rhesymoldeb y cludiant y gofynnwyd amdano o dan yr amod hwn, o ystyried pellter, llwybrau diogel a hygyrch, hyd y daith, cost, ynghyd ag agosrwydd i sefydliadau addysg addas eraill.

3. CLUDIANT YSGOL DEWISOL

- 3.1 O fewn *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*, gellir gwneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur. Mewn rhai achosion, gellir codi ffi am gost y trefniadau hynny i'r rhiant / gwarchodwr cyfrifol.

3.2 Ysgolion Ffydd

- 3.2.1 Ar gyfer ysgolion ffydd, bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol ffydd agosaf ar sail ddewisol os dyma yw dewis y rhieni/ gwarchodwr i ddysgwyr sy'n byw hyd at 5 milltir o'r ysgol (ffydd) addas agosaf. Defnyddir y meini prawf pellter statudol yn Rhan 2.2 er mwyn gwirio bod y dysgwr yn gymwys, ond gydag ysgolion ffydd, adolygir y cais yn erbyn meini prawf mynediad yr ysgol ffydd hefyd. Gall tystiolaeth o brawf gynnwys enghreifftiau megis tystysgrif bedydd, tystysgrif prawf o ffydd neu lythyr gan arweinydd ffydd. Os na fydd dysgwr yn cwrdd â'r gofynion ffydd, yna adolygir y cais mewn perthynas â gofynion yr ysgol agosaf neu ddalgylch agosaf.

3.3 Cludiant Ôl-16

- 3.3.1 Mae rhan 2 o *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr sydd o dan 19 oed, (mae'n

rhaid i ddysgwyr fod yn astudio cwrs llawn amser a bod o dan 19 oed ar y 1af o Fedi y flwyddyn academiaidd y dilynir y cwrs).

- 3.3.2 Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol i ddysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol Uwchradd ddalgylch / addas agosaf a ddynodwyd gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y dysgwyr yn unig, neu yn achos cyrsiau llawn amser Grŵp Llandrillo Menai, i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs. Bydd cludiant am ddim ar gael i ddysgwyr sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol neu'r safle coleg addas agosaf. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r pellter a fesurwyd ganddynt o'r cartref i'r ysgol neu goleg cymwys ar y system (GIS) er mwyn cadarnhau gwir bellter.
- 3.3.3 Bydd dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu manteisio ar gynllun cludiant ôl-16 oed yr Awdurdod am gyfnod o hyd at 4 blynedd o ddechrau eu tymor cyntaf.
- 3.3.4 Mae'r polisi'n berthnasol ar gyfer teithio i'r sefydliadau addysgol canlynol:
- Ysgolion Uwchradd a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynnyddoedd 12 & 13.
 - Ysgolion arbennig a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynnyddoedd 12 & 13 & 14.
 - Grŵp Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon, Gellir gweld y cyrsiau sydd ar gael ym mhob un o'r sefydliadau hyn yn eu prospectai, sydd ar gael gan y sefydliadau yn uniongyrchol.
- 3.3.5 Os yw lleoliad cwrs neu ddysgwr yn trosglwyddo sefydliad addysgol arall yn ystod y flwyddyn academiaidd, bydd y meini prawf ar gyfer cludiant ôl-16 yn Rhan 3.3.2 yn parhau'n berthnasol.
- 3.3.6 Darperir cludiant rhwng sefydliadau dysgu sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd gan y partneriaid hynny.
- 3.3.7 Ceir rhagor o wybodaeth am gludiant ôl-16 yn Atodiad 1.

3.4 Ad-drefnu Ysgolion

- 3.4.1 Mewn achosion ble mae ysgolion wedi eu had-drefnu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y dewisiadau mwyaf priodol ar gyfer cludiant ysgol. Gallai hyn gynnwys darparu cludiant am ddim am gyfnod penodol o amser yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd y fath drefniadau'n cael eu darparu ar sail ddewisol ac yn cael eu dogfennu yn y broses ad-drefnu; felly bydd ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni / gwarchodwyr perthnasol ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill i gyd yn ymwybodol o delerau'r trefniant.

3.5 Adolygu Dalgylchoedd

3.5.1 Mewn achosion ble mae'r Awdurdod yn adolygu ffiniau dalgylchoedd (y tu allan i'r broses ad-drefnu ysgolion), bydd y meini prawf cludiant yn Rhan 2.2 yn berthnasol.

3.6 Symud Cartref

3.6.1 Mewn achosion lle mae dysgwr, sydd wedi bod yn derbyn cludiant ysgol am ddim, yn symud cartref rhan o'r ffordd trwy'r flwyddyn academiaidd, bydd darpariaeth cludiant yn dod i ben os nad ydynt mwyach yn mynychu eu hysgol ddalgylch/addas agosaf.

3.6.2 Os yw dysgwr ran o'r ffordd trwy flwyddyn TGAU (blynyddoedd ysgol 10 ac 11), bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu cludiant dewisol hyd nes i'r blynyddoedd academiaidd gael eu cwblhau, h.y. tan ddiwedd blwyddyn 11.

3.6.3 Mae'r ymrwymiad hwn yn dibynnu ar y dysgwr yn byw yn ardal yr Awdurdod Lleol.

SYLWER: Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cadw'r hawl i brofi rhesymoldeb y cludiant y gofynnwyd amdano o dan yr amod hwn, o ystyried pellter, amser y daith, a'r agosrwydd i sefydliadau addysg addas eraill.

3.6.4 Bydd pob ail-asesiad cymhwysedd arall yn dilyn yr un meini prawf a nodir yn Rhan 2. Ni fydd y rhan hon yn berthnasol lle mae rhieni / gwarchodwyr wedi defnyddio eu dewis yn flaenorol fel y manylir yn 2.6.

3.7 Trosglwyddiadau Ysgol a Reolir

3.7.1 Lle cefnogir trosglwyddiadau ysgol a reolir gan bennaeth ysgol y gyrchfan newydd a'r Adran Addysg, bydd rhieni / gofalmwr yn ymwybodol o'r weithred hon ac yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn ar lefel ysgol. Gallai cludiant ysgol o dan yr amgylchiadau hyn gael eu cefnogi ar sail ddewisol lle ffurfia ran o'r weithred a chytundeb pob parti i fynd ar drywydd newid ysgol er lles y dysgwr.

3.7.2 Cyfrifoldeb y rhiant / gofalmwr yw sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn gyda'r Awdurdod a'r ysgol wrth fynd ar drywydd trosglwyddiad a reolir. Mae angen gwrio'r materion hyn ac mae tystiolaeth ar gael. Mae hyn yn galluogi'r Adran Addysg i wneud penderfyniad deallus ar sail y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais am gludiant.

3.7.3 Lle nad oes tystiolaeth ar gael ac/neu lle mae rhiant/gwarchodwr yn gwrthod ymwneud â'r broses gyda'r ysgol a'r Adran Addysg, bydd y cais am gludiant yn cael ei

wrthod. Bydd hyn yn seiliedig ar y diffyg tystiolaeth sydd ar gael i wneud penderfyniad deallus.

3.8 Cyflyrau Meddygol

- 3.8.1 Rhoddir ystyriaeth i'r angen i ddarparu cludiant i'r dysgwyr rheiny sydd angen cludiant i'r ysgol dros dro oherwydd bod natur eu cyflwr meddygol yn effeithio'n ddifrifol ar eu symudedd (e.e. torri coes). Bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i bob achos yn unigol, nid yn unig i'r rheiny sy'n gymwys am gludiant ar sail pellter. Ymhob achos darperir cludiant i'r safle a fynychir gan y dysgwr yn unig.

4. GWYBODAETH ARALL

4.1 Addysg Feithrin

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cludiant i blant sy'n mynychu ysgol feithrin neu ddosbarthiadau meithrin yn 3 neu 4 oed. Darperir cludiant i blant cymwys o ddechrau'r flwyddyn ysgol lle mae'r plentyn yn cyrraedd 5 oed ac yn dechrau addysg amser llawn, fel rheol yn y dosbarth derbyn.

4.2 Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol

Ni fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i glybiau ar ôl ysgol neu oddi wrthynt (h.y. clwb brecwast, clybiau ar ôl ysgol ayyb) neu weithgareddau allgyrsiol sy'n disgyn y tu allan i'r cwricwlwm statudol. Cyfrifoldeb y rhiant / gwarchodwr yw sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar waith os manteisir ar y darpariaethau hyn.

4.3 Newidiadau i'r Polisi

Os bydd angen diwygio'r polisi hwn, rhaid i'r Awdurdod ddilyn y gofynion statudol a osodwyd yn *Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009*. Mae hyn yn gofyn i'r Awdurdod ymgynghori, cytuno a chyhoeddi newidiadau i'r polisi cyn 1af Hydref yn y flwyddyn sy'n rhagflaenu'r flwyddyn academiaidd y daw'r newidiadau i rym.

4.4 Effaith Cludiant

Dylai rheini / gwarchodwyr ystyried goblygiadau eu dewis ysgol ar y defnydd o geir preifat a'r effaith y gallai hynny ei gael ar draffig ac allyriadau carbon y tu allan i'w hysgol ddethol. Mae'r Awdurdod yn annog rhieni / gwarchodwyr i ystyried cludiant a theithio llesol a chynaliadwy i'r ysgol o'u dewis.

4.5 Dulliau Teithio Cynaliadwy

Dylai rhieni / gofalmwyr ystyried dewisiadau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol. Mae gwybodaeth i'w gael am Deithio Llesol yng Ngwynedd ar wefan y Cyngor ynghyd â gwefan *Walk Wheel Cycle Trust* o safbwynt llwybrau beicio ar hyd a lled y sir.

5. DARPARU CLUDIANT

5.1 Darpariaeth Cyngor Gwynedd

- 5.1.1 Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu'r dull cludiant mwyaf addas a phriodol i bob dysgwr cymwys sy'n ddiogel ac sy'n darparu'r dull cludiant mwyaf cost effeithiol. Efallai y bydd hyn ar fws, coets, bws mini, neu gytundebau tacsî, neu ar gludiant cyhoeddus sy'n bodoli eisoes. Trefnir a rheolir y gwasanaethau hyn a'r cytundebau cysylltiedig gan yr Uned Gludiant Integredig.

5.2 Taliadau Cludiant

- 5.2.1 Er mwyn cwrdd â'r gofynion statudol, mewn amgylchiadau eithriadol gall y Cyngor gynnig cyllideb bersonol i rieni gludo eu plant i'r ysgol/coleg os bydd hynny'n rhatach na darparu cludiant a drefnir gan yr Awdurdod, neu ble nad oes trefniadau cludiant eisoes mewn lle.
- 5.2.2 Gwneir taliadau misol i gyfrif banc rhiant ar ôl derbyn ffurflen hawlio tâl C1 gan yr Uned Gludiant Integredig. Caiff y ffurflen gais ei gwirio gyda gwybodaeth am bresenoldeb y dysgwr o fewn yr ysgol/coleg a fynychir. Cyfrifir y tâl yn seiliedig ar bellter teithio'r rhiant o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio meddalwedd mapiau digidol (GIS) y Cyngor. Cyfrifir y gost yn ôl pellter y siwrne o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl ddwywaith. Nid oes rhwymedigaeth ar rieni / gwarchodwyr i dderbyn y cynnig ad-daliad, fodd bynnag, hwyrach yr ystyrir mai dyma'r dull cludiant mwyaf rhesymol.

5.3 Trefniadau Tywydd Garw

- 5.3.1 Mewn amgylchiadau o dywydd garw, cyfrifoldeb y Pennaeth yw penderfynu a ddylid cau'r ysgol ai peidio. Caiff yr Adran Addysg eu hysbysu o unrhyw benderfyniad i gau ysgol. Bydd y penderfyniad yn ddibynnol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys y rhagolygon tywydd, y sefyllfa yn ardal yr ysgol, sefyllfa aelodau staff mewn perthynas â theithio, a.y.y.b.
- 5.3.2 Os nad ydi'r darparwr yn gallu darparu bws neu dacsî yn y bore, oherwydd tywydd garw, yna ni fydd y cludiant hynny ar gael yn y prynhawn. Dylid hysbysu unrhyw rieni sydd

wedi penderfynu cludo eu plant i'r ysgol dan amgylchiadau o'r fath bod angen iddynt drefnu i gludo'r plant adref yn y prynhawn gan na fydd y cludiant ysgol arferol ar gael.

5.3.3 Os bydd darparwyr cludiant yn hysbysu'r ysgol eu bod yn awyddus i gludo rhai dysgwyr adref yn fuan, bydd rhaid i'r ysgolion gytuno i'r cais gan mai cyfrifoldeb y darparwr ydi cludo'r dysgwyr adref yn ddiogel. Wrth wneud cais o'r fath fe fydd y darparwr yn ymateb i rybuddion tywydd neu dystiolaeth uniongyrchol fod y sefyllfa mewn perthynas â'r tywydd yn gwaethygu. Ni ddylai cais o'r fath o reidrwydd arwain at benderfyniad i anfon pob dysgwr adref yn fuan.

5.3.4 Os penderfynir cau ysgol, bydd y Pennaeth yn cysylltu â darparwyr cludiant i'w hysbysu. Dylid hefyd gadarnhau â'r darparwyr y trefniadau ar gyfer y dyddiau dilynol cyn gynted ag y gwneir unrhyw benderfyniad perthnasol. Os methir â chysylltu â'r darparwyr dylid hysbysu'r Uned Cludiant Integredig ar 01766 771 000. Pan gymerir penderfyniad i gau ysgol, dylai'r Pennaeth hysbysu'r Adran Addysg drwy ddefnyddio'r system "Ysgol ar Gau" ar y wefan yr Awdurdod: www.gwynedd.gov.uk/cau

5.4 Monitro Gwasanaethau

5.4.1 Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i archwilio gwasanaethau Cludiant Addysg ar hap er mwyn sicrhau bod pawb sy'n teithio'n gymwys.

5.5 Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

5.5.1 Mae'r Uned Cludiant Integredig (Cyngor Gwynedd) yn rheoli ac yn trefnu'r holl gytundebau cludiant addysg angenrhreidiol gyda'r darparwyr gwasnaeth priodol. Mae hyn yn cynnwys derbyn tystiolaeth a chadw cofnod o archwiliadau'r Gwasnaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob gyrrwr a hebryngwr teithio gan y darparwyr.

SYLWER: Cyflogir hebryngwr teithio ar wasanaethau cludiant ysgolion cynradd yn unig lle ystyrir bod hynny'n briodol, neu os bydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y plentyn yn gwneud hynny'n briodol.

5.6 Y Cod Ymddygiad

5.6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r "Cod Ymddygiad Wrth Deithio" a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cod yn gosod disgwyliadau ar y dysgwr unigol, cyd-deithwyr a'r darparwyr cludiant. Gellir gweld y Cod ar Wefan y Cyngor [Cod Ymddygiad](#), ac yn yr atodiad i'r Polisi yma.

5.6.2 Wrth i ddysgwyr gyflwyno cais am gludiant addysg bydd yn rhaid iddynt, neu riant / gwarchodwr, ddatgan ar y ffurflen gais eu bod wedi deall ac yn ymrwymo i gadw at y Cod Ymddygiad a'u bod yn ymwybodol o'r canlyniadau posib wrth dorri'r Cod.

5.6.3 Gall gweithrediad annerbyniol sy'n groes i'r Cod gan ddysgwr arwain at:

- adennill costau difrod pwrpasol gan ddysgwyr a / neu eu rhieni / gwarchodwr,
- dileu'r trefniadau teithio a gytunwyd i ddysgwr am gyfnod penodol neu amhenodol. Cyfrifoldeb y dysgwyr fydd gwneud eu trefniadau cludiant i fynychu'r ysgol/coleg eu hunain o dan yr amgylchiadau hyn,
- camau disgyblu gan yr ysgol neu goleg perthnasol,
- cyflwyno adroddiad am y digwyddiad i'r Heddlu.

6. GWELLA GWASANAETH

6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i dderbyn adborth a sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth allai arwain at wella gwasanaethau. Dylid cyflwyno unrhyw adborth neu sylwadau ynglŷn â'r Polisi hwn drwy'r drefn Cwynion ac Adborth [Cwyn ffurfiol / Canmoliaeth](#)

7. GWYBODAETH YCHWANEGOL

7.1 Mae'r canlynol ar gael ar wefan y Cyngor : www.gwynedd.llyw.cymru

- A. Amserlenni a mapiau o'r Rhwydwaith i'r sefydliadau perthnasol
- B. Y Cod Ymddygiad
- C. Ffurflenni cais.
- Ch. Cwynion a Sylwadau

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i

sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Cliciwch neu daro yma i deipio testun.

Awdur: Robert John Jones, Rheolwr Cludiant Addysg

Dyddiad: 23/11/2025

Fersiwn: Fersiwn 2

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mabwysiadwyd y Polisi Cludiant Addysg presennol yn 2009, ac er nad oes newid i'r gofynion statudol ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr, mae'n amserol adolygu'r polisi oherwydd yr angen i:

- Sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol
- Sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Sicrhau bod y Polisi'n addas i bwrpas o ran rhesymoldeb gweithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol:

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal ei hawdurdod;
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir o'r ysgol addas agosaf;

- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir o'r ysgol addas agosaf;
- Asesu a diwallu anghenion plant 'sy'n derbyn gofal' yn ardal eu hawdurdod;
- Hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg ac ysgolion ffydd;
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â gofynion y Mesur. Ar yr un pryd, o fewn y Mesur, gall yr Awdurdod Lleol wneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur, ac ar sail dewis a disgresiwn yr Awdurdod.

Yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu polisiau i ddarparu cludiant dewisol o fewn eu Polisi Cludiant Addysg, ac os bydd Awdurdod yn gwneud defnydd o bwerau Rhan 6 i ddarparu cludiant dewisol, mae gan yr Awdurdod hefyd yr hawl i ddiddymu'r ddarpariaeth yn ddiweddarach. Er mwyn gwneud hynny, o dan ganllawiau statudol 2014, mae'n ofynnol:

- Cynnal ymgynghoriad cyn dileu neu addasu darpariaeth ddewisol; a
- Cyhoeddi trefniadau erbyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol.

Mae'r prif newidiadau a gynigir i'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) i bwrpas ymgynghori yn ymwneud â darpariaeth cludiant dewisol yr Awdurdod yn y meysydd canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliaid Deuol
- Ôl-16

Ceir yna hefyd feysydd eraill o fewn y Polisi Cludiant Addysg ble rydym wedi ychwanegu manylder ac eglurder i'r polisi, ond nid yw'r ychwanegiadau hynny'n arwain at unrhyw newid i'r ymrwymiad i ddarparu cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant presennol. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys:

- Mesur Pellter Teithio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Ad-drefnu Ysgolion
- Disgwyliadau ar rieni/gwarchodwyr
- Taliadau cludiant

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad :

- Penaethiaid Ysgolion
- Cyrff Llywodraethol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc

Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth benodol i sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn dilyn yr ymgynghoriad.

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes, rydym yn gofyn am ganiatâd y Cabinet i symud ymlaen â'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus.

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Cwynion ac ymholiadau	Medi 2024-Medi 2025	Yn dilyn craffu manwl ar y cwynion a'r ymholiadau a dderbyniwyd am gludiant addysg dros y cyfnod, daw'n amlwg fod ein Polisi Cludiant Addysg presennol yn wan o ran cynnig arweiniad a'r manylder berthnasol wrth ymdrin a'r materion yma: - Asesu ac Addasrwydd llwybrau - Yr ysgol ddalgylch/addas agosaf - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chyflyrau Meddygol

		- Cod Ymddygiad O ganlyniad rydym wedi cynnig eglurder a manylder pellach ar yr agweddau hyn yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Derbyniwyd hefyd nifer o geisiadau, ymholiadau, ac yn sgil hynny gwynion am y Cynllun Seddi Gweigion sydd yn rhan o'r Polisi Cludiant Addysg presennol. Er bod ffi ynghlwm â'r Cynllun Seddi Gweigion, nid yw'r cynllun yn gwarantu sedd wag am gyfnod penodol, ac nid oes modd cynyddu capasiti cerbydau i gyfarch yr angen am ragor o seddi yn rhan o'r cynllun, gan mai bwriad y cynllun yw hwyluso cludiant i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys o dan y gofynion statudol, ond nad yw hynny'n arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdod. Yn sgil y gofynion statudol i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid cyn I Hydref y flwyddyn flaenorol, nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion fel y bwriadwyd heb ymrwymo i gynnig sedd wag drwy gydol y flwyddyn academiaidd. Mae hyn yn mynd yn groes i hanfod y cynllun o drefniant hyblyg i allu cynnig sedd wag heb ymrwymo i ddarparu'r sedd am gyfnod penodol, gan y gallai hynny arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod. O ganlyniad, mae'r Cynllun Seddi Gweigion fel pennawd wedi'i ddiddymu fel cynnig o'r Polisi Cludiant Addysg Drafft.
Ymgynghoriad cyhoeddus	Chwefror - Mawrth 2026	Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad: - Penaethiaid Ysgolion - Cyrff Llywodraethol - Grŵp Llandrillo Menai - Rhieni - Plant a Phobl Ifanc Bwriedir ymgysylltu'n uniongyrchol gyda rhai grwpiau perthnasol e.e.

		- Grwpiau Strategol Penaethiaid - Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd - Fforwm Plant a Phobl Ifanc Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth i sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn dilyn yr ymgynghoriad.
--	--	--

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae gan yr Adran Addysg, yr Uned Gludiant Integredig, a holl ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol, sydd yn ymestyn allan i'r trefniadau cludiant i'r ysgol ac adref ar gyfer yr ysgol benodol honno. Ni ragwelir felly y byddai'r Polisi Cludiant Addysg arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd yma.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Anabledd	Ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ddarpariaeth ac addasrwydd llwybrau, mannau codi, cerbydau cludo a safleoedd perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol â pholisi Cludiant Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma

	hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.	
Rhyw	Ni ragwelir y byddai'r Polisi Cludiant arfaethedig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Oedran	Rhagwelir y byddai gweithredu'r Polisi Cludiant arfaethedig yn golygu fod dysgwyr o bob oed cymwys yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Bydd cyflwyno uchafswm terfyn oed cymwys o 19 ar gyfer dysgwyr ôl-16, yn unol â Mesur Teithio 2008, yn lleihau costau cludiant yn y tymor hir ac yn sicrhau capasiti digonol i ddysgwyr cymwys.	Mae effaith cadarnhaol posib gan y bydd y Polisi newydd yn gosod canllaw clir i ddysgwyr yn sgil y ffaith y bydd dysgwyr o bob oed cymwys yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae effaith negyddol posib ar grŵp bychan o ddysgwyr 19 oed a hŷn sydd ar hyn o bryd yn manteisio ar y Tocyn Teithio Ôl-16. Mae bwriad i ymgynghori ar y newid hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft, a byddwn yn ystyried yr adborth a dderbynnir o'r ymgynghoriad, yn addasu a newid y Polisi Addysg Cludiant Drafft fel y gwelir orau, cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu'n derfynol.
Crefydd a Chred	Mae gan bob ysgol a choleg addysg bellach Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. Does dim cyfeiriad at Ysgolion ffydd yn y Polisi Cludiant Addysg presennol, o ganlyniad does dim canllawiau clir o fewn y polisi ar gludiant l ddysgwyr sy'n mynychu Ysgolion ffydd yng Ngwynedd.	Mae effaith cadarnhaol posib gan fod y Polisi newydd yn gosod canllawiau clir ar gyfer y grŵp bychan o ddysgwyr sydd yn dewis mynychu ysgolion ffydd, ac felly byddent yn cael eu trin yn deg un unol â'u hanghenion. Mae effaith negyddol posib ar grŵp bychan o ddysgwyr sy'n dewis mynychu ysgolion ffydd yng Ngwynedd. Mae'r Polisi drafft yn cynnig cludo dysgwyr i ysgolion ffydd o uchafswm pellter o 5 milltir, tra bod y Polisi presennol yn fwy amwys ynglŷn â'r pellter cludo. Mae bwriad i ymgynghori ar y newid hwn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, a byddwn yn ystyried yr adborth a dderbynnir o'r ymgynghoriad, ac yn addasu a newid y Polisi Cludiant Addysg Drafft fel y gwelir orau, cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu'n derfynol.

Cyfeiriadedd Rhywiol	Ni ragwelir y byddai'r Polisi Cludiant Addysg arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Ail-bennu rhywedd	Ni ragwelir y byddai'r Polisi Cludiant Addysg arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywiol. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ragwelir y byddai'r Polisi Cludiant Addysg arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn bartneriaeth sifil. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ni ragwelir y byddai'r Polisi cludiant drafft yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu'n riant, gan fod ysgolion a cholegau yn gweithredu'r un polisiau. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Iaith Gymraeg	Ni ragwelir y byddai cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cludiant Addysg yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg. Diweddariadau i weithdrefnau a phrosesau comisiynu a gweinyddol yw'r prif newidiadau yma.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Nid yw darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 yn ofyn statudol, fodd bynnag, ar nodyn positif mae Cyngor Gwynedd ar sail disgresiwn yn darparu cludiant rhad ac am ddim i fyfyrwyr addysg bellach i fynychu cyrsiau addysg amrywiol yn ein hysgolion sydd gyda chweched dosbarth a sawl campws coleg. Mae sicrhau cludiant am ddim yn hybu mynediad i bob dysgwr fedru astudio mewn addysg bellach. Byddwn yn ychwanegu manylion am yr effaith ar	Mae effaith bositif posib o ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 ar sail disgresiwn, fel eu bod yn gallu parhau i astudio mewn addysg bellach gyda darpariaeth cludiant rhan ac am ddim. Byddwn yn ystyried unrhyw adborth perthnasol o safbwynt yr ystyriaethau economaidd gymdeithasol a dderbynnir o'r ymgynghoriad, ac yn addasu a newid y Polisi Addysg Cludiant Drafft fel y gwelir orau, cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu'n derfynol.

	yr ystyriaethau economaidd gymdeithasol fel mae mwy o wybodaeth yn dod i law.	
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghys a'u Teuluoedd	Ni ragwelir y byddai'r Polisi arfaethedig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol neu goleg mae nhw'n mynychu.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Hawliau Dynol	Ni ragwelir y byddai newidiadau i'r Polisi Cludiant Addysg yn cael effaith ar hawliau dynol.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Arall	Dim sylwadau pellach ar hyn o bryd.	Dim sylwadau pellach ar hyn o bryd.

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Yn dilyn arweiniad, ac yn ddarostyngedig i benderfyniad Cabinet i fynd allan i ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft, bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Chwefror a Mawrth 2026. Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad:

- Ysgolion
- Cyrff Llywodraethol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc

Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth i sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn dilyn yr ymgynghoriad.

Bydd yr ymgynghoriad yn gyfle i gasglu data a gwybodaeth bellach ar gyfer cynnwys y Polisi Cludiant Addysg ynghyd â'r Asesiad Effaith. Byddwn yn diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Ni ragwelir y bydd effaith gronnus o gyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg drafft i bwrpas ymgynghori.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwrddpasu?

Bydd y Polisi yn dilyn y gofynion statudol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal o fewn y sefydliadau perthnasol a dilynir polisiâu a gweithdrefnau cydraddoldeb.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Bydd y Polisi Cludiant Addysg arfaethedig a gynigir yn sicrhau y rhoddir cyfleoedd i bawb fynychu safleoedd addysg dalgylch/addas agosaf. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn trywydd addysg o'u dewis, gan ddilyn cwrs o'r amrediad o bynciau a gynigir ar draws holl safleoedd addysg y sir, ac ar safle sydd yn diwallu holl anghenion y dysgwyr. Darperir cludiant addas, trefnus a gyda chysylltiadau arbennig i'r perwyl hwn.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r Polisi Cludiant Addysg yn darparu cludiant i ddysgwyr i ysgolion Categori 3 cyfrwng Gymraeg ac ysgolion trosiannol yn unol â'r gofynion statudol. Mae hwyluso mynediad i ysgolion cyfrwng Gymraeg drwy gyfrwng y Polisi Cludiant Addysg yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion, ynghyd a manteisio ar ymgyrchoedd yr ysgolion i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol yn unol â gweledigaeth y Siarter Iaith.

At hyn, mae pob cytundeb tendr rhwng y Cyngor a'r darparwyr cludiant addysg yn gofyn i'r contractwr gydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg, gan allu cyfathrebu a deall y Gymraeg a'r Saesneg i safon fyddai'n eu galluogi i ymdrin yn amserol ac addas gydag unrhyw fater allai godi yn ystod gweithrediad y cytundeb.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y polisi yn cwrdd â'r gofynion isod: Mae'r Polisi Cludiant (drafft) yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Ddeddf mewn sawl ffordd:

1. **Cymru lewyrchus** – Drwy hwyluso mynediad at addysg rhoddir cyfleoedd i feithrin a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig.

2. **Cymru gydnherth** – Trwy eu hastudiaethau daw dysgwyr yn ymwybodol o werthoedd sydd yn cynnal cydnherth cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.
3. **Cymru iachach** – Bod yn rhan o gymdeithas sydd yn hybu llesiant corfforol a cheisio adlewyrchu ar hunaniaeth bositif, sy'n gysylltiedig â chryfhau iechyd meddwl. Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol.
4. **Cymru fwy cyfartal** – Mae darparu mynediad at addysg gynhwysfawr i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir yn ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.
5. **Cymru o gymunedau** – Rhoddir cyfleoedd i gysylltu pobl a chymunedau trwy ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth hyfwrdd a diogel.
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yw un o'r prif ddulliau i wireddu'r nod hwn.
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Mae mynediad at addysg yn hybu a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein dysgwyr gan obeithio fod hyn yn ymledu at lesiant byd-eang.

Mae'r pum ffordd o weithio ar waith:

Hirdymor – hybu mynediad at addysg a lleihau unrhyw rhwystredigaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Atal – sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i gael mynediad at addysg o'r math gorau.

Integreiddio – cysylltu ag addysg, diwylliant, iechyd a chydraddoldeb.

Cydweithio – partneriaethau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni. Bydd cyfle i ran-ddeiliaid gymryd rhan yn yr ymgysylltu cyhoeddus.

Cynnwys – rhoi llais i deuluoedd a dysgwyr wrth lunio a datblygu Polisi.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd cludiant i ddysgwyr yn cael ei ddarparu drwy brosesau tendr a chytundebau trydydd parti a weinyddir gan yr Uned Gludiant Integredig, Cyngor Gwynedd.

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Bydd y ddogfennaeth tendr yn rhai safonol Cyngor Gwynedd sydd yn nodi'r disgwyliadau o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Rhoddir ystyriaeth i hyn wrth ymgysylltu ar y Polisi drafft arfaethedig. Sicrheir fod pawb, gan gynnwys y dysgwyr, yn cael lleisio eu barn ar y Polisi arfaethedig. Gwneir hyn trwy gyhoeddi pecyn ymgysylltu ar-lein ar ein gwefan corfforaethol fydd yn cynnwys dogfen gefndirol yn esbonio'r rhesymeg am yr ymgynghoriad, y Polisi Cludiant Addysg Drafft, holiadur ar-lein, ynghyd â'r Asesiad Effaith ar Bobl Gwynedd. Bydd copïau papur o holl ddogfennau'r pecyn ymgynghori ar gael o Siop Gwynedd ym mhrif adeiladu'r Cyngor. Byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiwn gryno o'r Polisi Cludiant Addysg ar ein gwefan, a bydd copi papur ohono ar gael yn Siop Gwynedd hefyd. Pwysleisir fod yr ymgynghoriad yn ddibynnol ar dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Cludiant Addysg Drafft.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Gall effeithiau negyddol ddod i'r amlwg wrth gyflwyno rhai newidiadau i'r Polisi, yn enwedig wrth ddileu rhai agweddau a gynigir yn bresennol ac ar ddisgresiwn y Cyngor. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain wrth ymgysylltu ar y Polisi drafft arfaethedig, ac wrth lunio'r Polisi terfynol. Byddwn yn diweddarau'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Byddwn yn manylu ymhellach ar hyn yn dilyn dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r ymgynghoriad. Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol yn deillio o'r Polisi Cludiant Addysg drafft, er enghraifft:

- Bydd canllawiau eglur ar ddysgwyr sy'n byw mewn cyfeiriadau deuol er mwyn cynnig eglurder di-amwys.
- Bydd disgwyl i ddysgwyr addysg bellach ddilyn cwrs o'u dewis yn eu coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs er mwyn hwyluso trefniadau cludiant addysg.
- Rhoddir rhagor o eglurder ac ystyriaethau i ddalgylchoedd ysgolion ffydd gan nad oes cyfeiriad atynt ar hyn o bryd yn y Polisi gyfredol.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Byddwn yn gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol sydd arnom.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir ac yn ystyried a oes cyfleoedd i gryfhau neu newid y Polisi er hyrwyddo cyfle cyfartal, helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach cyn ei fabwysiadu'n derfynol.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Adolygir hyn wrth drin a thrafod cynnwys y Polisi, byddwn yn diweddarau'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Adolygir hyn wrth drin a thrafod cynnwys y Polisi, byddwn yn diweddarau'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Mae'n bosib symud ymlaen i ymgynghori ar y Polisi Drafft.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw'n dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Adolygu'r Polisi Cludiant	Tymor Yr Haf	Blyneddol	Rheolwr Cludiant Addysg	Na
Cyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg terfynol i'w fabwysiadu gan y Cabinet	Tymor yr Haf	I'w gadarnhau	Rheolwr Cludiant Addysg	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Adolygiad o'r Polisi	Blyneddol	Rheolwr Cludiant Addysg	Na

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd



Teitl yr eitem:	Strategaeth Caffael 2026 - 2031
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg
Swyddog perthnasol:	Arwel Evans, Rheolwr Caffael
Dyddiad y cyfarfod:	20fed o Ionawr 2026

1. Penderfyniad a geisir

- 1.1. Derbyn a chymeradwyo'r Strategaeth Caffael 2026 – 2031 (Atodiad 1).
- 1.2. Gofynnir am yr hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol wneud addasiadau gweithredol i'r Strategaeth fel mae'r angen yn codi i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau statudol.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

- 2.1. Mae'r Strategaeth gyfredol wedi dyddio, a'r maes a gofynion caffael cyhoeddus wedi newid gryn dipyn yn y blynyddoedd diwethaf. Felly mae angen cyhoeddi Strategaeth Caffael newydd er mwyn cyfleu gweledigaeth a chyfarch anghenion caffael y Cyngor nawr a thros y pum mlynedd nesaf.
- 2.2. Bydd cymeradwyo'r Strategaeth yn rhoi'r Cyngor mewn lle cadarn mewn paratoad ar gyfer gofynion deddfwriaethol cenedlaethol newydd (Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)) y disgwylir iddynt ddod i rym yn 2026. Bydd methiant â llunio a chyhoeddi strategaeth caffael yn torri gofynion statudol.
- 2.3. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gyd-fynd â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), fydd yn manylu ar y gofynion ar awdurdodau contractio Cymreig o ran cynnwys strategaethau caffael. Er nad yw'r canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi'n derfynol eto, ni ragwelir y bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Strategaeth Caffael arfaethedig yn ei sgil. Er hynny, mae'n bosib bydd angen gwneud mân addasiadau gweithredol yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau ac yn ystod cyfnod y Strategaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf a chanllawiau statudol. Gofynnir felly am yr hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau

Corfforaethol wneud addasiadau gweithredol i'r Strategaeth er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau unwaith bydd y rhain wedi dod yn eglur.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1. Cefndir / Cyflwyniad

- 3.1.1. Caffael yw'r broses o sicrhau nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae caffael yn chwarae rhan allweddol yn holl weithgarwch Cyngor Gwynedd. Yn wir, heb brosesau caffael priodol, ni fyddai'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol wrth brynu a gosod contractau ar gyfer gwasanaethau, nwyddau a gwaith, a fyddai'n arwain at anallu ein swyddogion i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.
- 3.1.2. Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn y flwyddyn drwy weithgarwch caffael ar wasanaethau, nwyddau a gwaith megis, ond nid yn gyfyngedig i, gofal i oedolion a phlant, cludiant, gwastraff ac ailgylchu, fflyd, adeiladu, systemau a llawer mwy.
- 3.1.3. Bydd y Strategaeth yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer pawb sy'n caffael yn y Cyngor, a gwneud yn siŵr bod ein contractau yn cael eu caffael yn gywir a phriodol, a'n gwariant yn rhoi'r gwerth gorau am arian wrth roi'r budd gorau i drigolion y Sir.
- 3.1.4. Trwy osod strategaeth caffael, mae'r Cyngor yn gosod gweledigaeth ar gyfer sut y gall sicrhau gwasanaethau, nwyddau neu waith gael effaith ar drigolion y Sir – e.e. ceisio gwneud popeth i gadw'r budd yn lleol neu gefnogi'r Cyngor i gyrraedd ei nod sero net. Yn ogystal â chyflawni'r gwasanaethau, mae gan y Cyngor gyfle i wneud y mwyaf o fuddion ychwanegol, megis gwerth cymdeithasol, o'r gwariant drwy gaffael. Mae'r Strategaeth Gaffael yn anelu i uchafu'r buddion ychwanegol hyn.

3.2. Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

- 3.2.1. Nid yw'r Strategaeth Caffael flaenorol bellach yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion cyfredol. Mae'r Strategaeth newydd wedi'i llunio i adlewyrchu a chefnogi'r newidiadau diwygio caffael diweddar, a gofynion a blaenoriaethau polisïau lleol a chenedlaethol cyfredol.
- 3.2.2. Caiff y cyd-destun o ran y blaenoriaethau a pholisïau perthnasol i'r Strategaeth, megis Datganiad Polisi Caffael Cymru, Cynllun y Cyngor, Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor eu nodi yn y Strategaeth.

- 3.2.3. Gan ein bod fel awdurdod lleol yn gwario arian cyhoeddus, mae'r maes caffael yn faes sy'n cael ei reoleiddio'n drwm, ac mae sawl gofyniad cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hwy wrth gaffael. Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny ac maent wedi cael eu hystyried yn llawn wrth lunio'r Strategaeth er mwyn sicrhau bod holl weithgaredd caffael y Cyngor yn gywir, yn briodol ac yn cydymffurfio a'r holl reolau perthnasol.
- 3.2.4. Bydd y Strategaeth yn dwyn ynghyd y gofynion a blaenoriaethau caffael drwy sefydlu meysydd blaenoriaeth ar gyfer cyfnod y Strategaeth, sef y pum mlynedd nesaf.
- 3.2.5. Trwy ymgynghori gydag arbenigwyr caffael ar draws y Cyngor, mae saith maes blaenoriaeth wedi'u hadnabod fel meysydd allweddol yng nghyd-destun caffael yng Nghyngor Gwynedd, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o weithgarwch caffael.
- 3.2.6. Er enghraifft, trwy godi ymwybyddiaeth busnesau lleol o gyfleoedd caffael a defnyddio mesurau gwerth cymdeithasol ble gellir gwerthuso'n rhannol ar sail cyflogaeth leol, gallwn gadw'r budd yn lleol gymaint â phosibl. Neu trwy sicrhau bod cymalau mewn contractau i weithredu mewn modd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn lleihau ôl troed carbon, gall caffael gynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd ei nod carbon-sero.
- 3.2.7. Rhestrir y saith maes blaenoriaeth yn nhrefn yr wyddor, ac maent yn cynnwys:
- **Budd lleol – cefnogi busnesau lleol i ffynnu**
Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd caffael a lleihau rhwystrau i fusnesau a mentrau lleol geisio am waith gyda'r Cyngor
 - **Carbon sero – cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero**
Datblygu'r ddealltwriaeth o allyriadau carbon contractau'r Cyngor a chydweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor i gynorthwyo i leihau allyriadau carbon y sefydliad
 - **Gwerth am arian – sicrhau gwerth am arian**
Sicrhau bod yr holl arian a gaiff ei wario drwy weithgaredd caffael yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor ac i bobl Gwynedd
 - **Gwerth cymdeithasol – uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael**
Uchafu'r gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a ddaw o gontractau a gweithgaredd caffael i gefnogi cymunedau lleol Gwynedd
 - **Technoleg – cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg**
Gwneud y gorau o ddatblygiadau yn y maes technoleg er mwyn rhoi sylfaen gadarn i gaffael

- **Trefniadau llywodraethu – rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith**
Sicrhau bod ein gweithdrefnau mewnol, dealltwriaeth ac arbenigedd o gaffael a threfniadau rheolaeth contract yn ein galluogi i weithredu’n gywir ac yn effeithiol
- **Y Gymraeg – hybu ffyniant y Gymraeg**
Sicrhau bod gweithgaredd caffael y Cyngor yn hybu’r Gymraeg a bod y Gymraeg yn derbyn lle amlwg yn ein prosesau.

- 3.2.8. Wrth lunio a chyhoeddi’r Strategaeth, byddwn yn gosod cyfeiriad strategol unedig ar gyfer holl weithgarwch caffael yn y Cyngor, gan sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un nodau a blaenoriaethau, gan gryfhau canlyniadau caffael y Cyngor a sicrhau’r budd mwyaf i bobl Gwynedd.
- 3.2.9. Bydd cyhoeddi’r Strategaeth nawr yn rhoi’r Cyngor mewn sefyllfa gadarn ar gyfer gofynion deddfwriaethol newydd sydd i’w disgwyl yn 2026 (Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023) ble bydd gofyn statudol i gyrrff cyhoeddus baratoi a chyhoeddi strategaeth caffael.
- 3.2.10. Mae gan y Cyngor hefyd Bolisi Caffael Cynaliadwy. Y Strategaeth sy’n gosod gweledigaeth a blaenoriaethau lefel strategol, tra bod y Polisi yn ymdrin â’r manylion gweithredol. Pan fydd y Strategaeth wedi’i chymeradwyo, bwriadwn adolygu a diweddarau Polisi Caffael y Cyngor, gan anelu iddo fod yn weithredol o’r 1af o Ebrill 2026, er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithredol o gaffael y Cyngor yn gadarn.

3.3. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

- 3.3.1. Mae caffael yn gallu cyfrannu yn sylweddol at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn enwedig pan gaiff ei arwain gan egwyddorion cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol.
- 3.3.2. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyriaeth lawn wrth ddrafftio’r Strategaeth, a gellir gweld pa rai o’r nodau llesiant y mae pob maes blaenoriaeth yn eu cyfarch yn y Strategaeth.
- 3.3.3. **Cydweithio** – fe wnaethom gydweithio gyda swyddogion caffael mewn adrannau amrywiol yn y Cyngor i ystyried materion a safbwyntiau perthnasol wrth lunio’r Strategaeth. Fe fyddwn yn parhau i gydweithio gyda swyddogion a gwasanaethau perthnasol yn y Cyngor i weithredu nodau’r Strategaeth. Mae cydweithio gyda sefydliadau eraill allanol, megis awdurdodau lleol eraill, yn rhan bwysig o’r Strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu profiadau ac arferion.

- 3.3.4. **Integreiddio** – wrth lunio'r Strategaeth, rydym wedi asesu effaith pob maes blaenoriaeth yn y Strategaeth ar yr holl nodau llesiant, a gellir gweld pa rai o'r nodau llesiant y mae'r meysydd blaenoriaeth yn eu cyfarch yn y Strategaeth.
- 3.3.5. **Cynnwys** – fel y nodir yn y Strategaeth, mae cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol yn hollbwysig ac yn rhan allweddol o sicrhau gweithrediad y Strategaeth. Fe wnaethom gynnwys ystod o randdeiliaid wrth lunio'r Strategaeth ac roedd eu mewnbwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn ac ystyried ystod o safbwyntiau.
- 3.3.6. **Hirdymor** – mae'r Strategaeth yn gosod cyfeiriad i geisio sicrhau ein bod, wrth gaffael nwyddau, gwasanaethau neu waith ar gyfer anghenion tymor byr, yn gwneud ein gorau i leihau unrhyw effaith negyddol hir-dymor a sicrhau ein bod yn gallu diwallu anghenion tymor hir ac i'r dyfodol, megis y maes blaenoriaeth o gyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero.
- 3.3.7. **Atal** – mae'r Strategaeth yn anelu i wella ein canlyniadau caffael a thrwy hynny geisio atal unrhyw broblemau. Mae'r maes blaenoriaeth 'Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith' yn gosod nod o sicrhau bod y rheolau a gweithdrefnau caffael yn cael eu gweithredu'n gywir ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau bod y mwyaf yn cael ei wneud o gaffael ac yn gosod sail gadarn i weithgaredd caffael y dyfodol. Hefyd, wrth uchafu gwerth cymdeithasol yn ein gweithgaredd caffael, gall cyflenwyr a darparwyr gyfrannu at atal problemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ynghyd â chynnig buddion i gymunedau Gwynedd.

3.4. Asesiad Effaith

- 3.4.1. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau i gyd-fynd â'r Strategaeth Caffael – gweler copi o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i atodi i'r adroddiad hwn (Atodiad 2 – Asesiad Effaith).
- 3.4.2. Nid yw'r asesiad wedi dangos unrhyw ardrawiadau sylweddol. Yn gyffredinol, nid yw'r Strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol, ond mae effaith bositif i weld ar sawl nodwedd, megis ar yr iaith Gymraeg ac elfennau economaidd-gymdeithasol.
- 3.4.3. Ystyrir bod y Strategaeth yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg – mae hybu'r iaith Gymraeg yn faes blaenoriaeth yn y Strategaeth, ac rydym yn hybu'r Gymraeg yn ein prosesau caffael, boed hynny wrth ddelio â chwmnïau Cymraeg neu gwmnïau di-Gymraeg. Mae'r Strategaeth hefyd yn uchafu defnydd o werth cymdeithasol, sydd yn

ei dro yn hybu'r Gymraeg gan fod rhai o fesurau gwerth cymdeithasol y Cyngor yn adlewyrchu nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

- 3.4.4. Mae'r Strategaeth hefyd yn cael effaith bositif ar elfennau economaidd-gymdeithasol, gyda'r maes blaenoriaeth o uchafu gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael yn cynyddu'r siawns o gael buddion cymdeithasol ac economaidd i Wynedd drwy wariant y Cyngor gyda chontractwyr, megis cyflogaeth leol, cefnogi pobl ifanc ac unigolion dan anfantais i gael cyflogaeth, cefnogi ymdrechion i hyrwyddo iechyd, cefnogaeth i'r difreintiedig, lleihau troseddu, adeiladu cymunedau cryfach ac ymdrechion i amddiffyn bywyd gwyllt a diwylliant.

3.5. Ymgynghori

- 3.5.1. Wrth lunio'r Strategaeth, cymerwyd y cyfle i ymgynghori gyda sawl gwasanaeth ar draws y Cyngor er mwyn derbyn mewnbwn ac adlewyrchu safbwyntiau a barn gwahanol adrannau fydd yn defnyddio a gweithredu'r Strategaeth.
- 3.5.2. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys y Tîm Categori Amgylchedd (Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC), y Tîm Categori Corfforaethol (Adran Amgylchedd) a'r Tîm Categori Pobl (Adran Tîm Arweinyddiaeth). Trafodwyd cynnwys y Strategaeth gyda'r Adran Economi a Chymuned hefyd.
- 3.5.3. Yn dilyn derbyn sylwadau a thrafodaeth o gwmpas y sylwadau hynny, fe wnaed addasiadau wrth i'r Strategaeth gael ei llunio i adlewyrchu'r sylwadau.
- 3.5.4. Cafodd y Strategaeth Caffael ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16eg o Hydref 2025. Cafwyd trafodaeth gynhyrchol ynghylch y Strategaeth arfaethedig a'r hyn y mae'n ei gyflwyno o'r newydd o gymharu â'r un blaenorol, ynghyd â thrafodaeth o gwmpas y meysydd blaenoriaeth, megis yr hyn sydd ar y gweill a'r heriau o gwmpas datgarboneiddio.
- 3.5.5. Cafwyd cwestiynau ynghylch gweithrediad y Strategaeth a threfniadau monitro. Mae gwybodaeth wedi ei chynnwys yn y Strategaeth (tudalen 23) ynghylch sut y bwriedir rhoi'r Strategaeth ar waith, gan gynnwys llunio cynllun gweithredu fydd yn cael ei ddefnyddio i reoli a monitro cynnydd.
- 3.5.6. Cafwyd un sylw ynghylch y Gymraeg wrth gaffael a chontractio. Roedd trafodaethau eisoes ar y gweill gyda'r Aelod dan sylw y tu allan i'r Pwyllgor a cadarnhawyd bod yr Adran wedi derbyn cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r ymholiadau, ac wedi'i rannu

gyda'r Aelod. Mae'r farn gyfreithiol yn cadarnhau bod y Cyngor yn gwneud cymaint â phosib, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gyflawni ei ddyletswydd i amddiffyn a hyrwyddo'r Gymraeg yn ei phrosesau caffael, ac mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â'r farn gyfreithiol honno. Yn wir, roedd hybu ffyniant y Gymraeg yn ffactor bwysig wrth lunio'r Strategaeth yn wreiddiol, a gwelir ei fod wedi'i gynnwys fel maes blaenoriaeth. Cadarnhawyd wrth y Pwyllgor bod gwaith pellach ar y gweill i archwilio cyfleoedd newydd i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn cyrraedd un o nodau'r Gymraeg o fewn y Strategaeth, sef bod y Gymraeg yn cael ei hybu a'i hannog ym mhrosesau caffael a chontractau'r Cyngor.

- 3.5.7. Penderfynodd y Pwyllgor Craffu dderbyn y Strategaeth a'r adroddiad, a gofyn i'r Aelod Cabinet sicrhau bod popeth posib, o fewn cyfyngiadau (megis ffiniau'r fframwaith cyfreithiol caffael cyhoeddus), yn cael ei wneud i geisio cadw'r budd yn lleol, cefnogi cwmnïau bychain, uchafu gwerth cymdeithasol ac i gefnogi'r Gymraeg.

3.6. Casgliad

- 3.6.1. Argymhellir felly bod y Cabinet yn derbyn a chymeradwyo'r Strategaeth Caffael 2026 – 2031, gan alluogi'r Gwasanaeth Caffael i gyhoeddi'r Strategaeth, er mwyn gosod cyfeiriad strategol unedig ar gyfer holl weithgarwch caffael yn y Cyngor, gan gryfhau canlyniadau caffael y Cyngor a sicrhau'r budd mwyaf i bobl Gwynedd.
- 3.6.2. Gofynnir hefyd i'r Cabinet roi hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol wneud mân addasiadau gweithredol i'r Strategaeth yn ystod ei chyfnod er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

3.7. Camau nesaf

- 3.7.1. Pe derbynnir cymeradwyaeth y Cabinet i'r Strategaeth Caffael, y camau nesaf fyddai cyhoeddi'r Strategaeth Caffael a chyfathrebu'r newid gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.
- 3.7.2. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth i'r Strategaeth, byddwn fel Gwasanaeth Caffael canolog yn arwain ar lunio Cynllun Gweithredu, fydd yn amlinellu'r camau i'w cymryd i wireddu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth, gan gydweithio gyda'r Timau Categori a swyddogion caffael y Cyngor wrth ei lunio. Byddwn hefyd yn ymgynghori gydag unrhyw wasanaeth ac adran berthnasol arall yn y Cyngor fel bo'r angen yn codi.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1. Prif Swyddog Cyllid

Fel mae'r Strategaeth yn nodi, mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn yn flynyddol drwy weithgarwch caffael gydag ystod o gyflenwyr. Mae Strategaeth Gaffael gadarn ond hyblyg yn gam allweddol ar gyfer y Cyngor wrth osod cyfeiriad fel bod pawb sydd yn prynu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Cyngor yn gwneud hynny'n ddoeth ac mewn modd sy'n rhoi'r budd uchaf bosib i Gyngor Gwynedd ac i'r gymuned leol. Mae'r ddogfen sydd gerbron yn rhoi arweiniad gwerthfawr ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Bydd swyddogion yr Adran Gyllid yn rhoi cefnogaeth fel bo'r angen ar draws y Cyngor i wireddu gweithrediad y Strategaeth.

4.2. Swyddog Monitro

Rwy'n croesawu yr adolygiad yma o'r Strategaeth Caffael. Fe nodir yn yr adroddiad fod y Strategaeth flaenorol wedi dyddio. Yn ogystal mae'r fframwaith statudol sydd yn cynnal y gyfundrefn caffael wedi bod drwy newid arwyddocaol ac yn parhau i ddatblygu. Mae cael strategaeth sydd yn gyfredol yn allweddol i sicrhau fod y modd mae'r Cyngor yn caffael yn cael yr allbynnau gorau o'r broses i gyflawni ei amcanion a sicrhau gwerth gorau i'r sir. Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cefnogi a chynghori y gwaith yma ac rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Strategaeth Caffael 2026 – 2031

Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Strategaeth Caffael

2026 - 2031

*“Gwneud y mwyaf o
werth y bunt yng
Ngwynedd”*

Fersiwn 1.0 - Drafft



**GWASANAETHAU
CORFFORAETHOL**
Tud. 58
CYNGOR GWYNEDD

Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno Strategaeth Caffael 2026-2031, sy'n gosod gweledigaeth a blaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgaredd caffael y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf.

Yn y Strategaeth hon, anelwn nid yn unig i barhau i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, ond hefyd i gefnogi amcanion economaidd a chymdeithasol ehangach Gwynedd, gan gyflawni'r hyn sy'n bwysig i Wynedd wrth sicrhau cydymffurfiaeth gydag ystod o rwymedigaethau cyfreithiol a chenedlaethol.

Mae gan gaffael rôl ganolog i'w chwarae er mwyn galluogi'r Cyngor i ddarparu ystod o wasanaethau hollbwysig i drigolion Gwynedd. Cyda'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu, ac awdurdodau lleol yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae'n allweddol ein bod yn defnyddio ein grym gwariant i'w lawn botensial. Golyga hyn nid yn unig sicrhau ansawdd da a gwerth am arian, ond gall caffael hefyd chwarae rhan ganolog wrth gyflawni blaenoriaethau ehangach. Drwy hyn oll, bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob punt a gaiff ei wario yn uchafu'i gwerth i gymunedau a phobl Gwynedd.

Mae'r Strategaeth yma yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o werth y bunt yng Ngwynedd. Edrychaf ymlaen at weld y Strategaeth yn gwireddu ei gweledigaeth ac amcanion.

Y Cynghorydd Llio Elenid Owen

Aelod Cabinet Gwasanaethau
Corfforaethol, Cyfreithiol a'r
Gymraeg



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cyd-destun rheolaethol cenedlaethol	3
Cyd-destun rheolaethol lleol	6
Meysydd blaenoriaeth	8
Budd lleol	10
Carbon sero	12
Gwerth am arian	14
Gwerth cymdeithasol	16
Technoleg	18
Trefniadau llywodraethu	20
Y Gymraeg	22
Gweithredu	24
Cysylltu	25

Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac mae caffael gwasanaethau, nwyddau a gwaith yn rhan allweddol er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn, megis:



Adeiladu, a
chynnal a
chadw



Cludiant a
thrafnidiaeth



Gofal i
blant ac
oedolion



Systemau,
ac offer
technolegol



Cyflenwad
biniau



Fflyd - ceir,
faniau, ac
ati

Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn yn flynyddol drwy weithgarwch caffael gydag ystod o gyflenwyr, o sefydliadau bach a chanolig, y trydydd sector, a chwmnïau mawr. Mae'n hollbwysig sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario mewn modd cyfrifol sy'n sicrhau gwerth am arian.



Yn ogystal â hyn, mae caffael yn cael ei gydnabod yn gynyddol fel arf allweddol i gyflawni ystod o flaenoriaethau – boed yn flaenoriaethau lleol neu genedlaethol ynghyd ag amcanion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenhedlaeth y dyfodol.

Mae digwyddiadau ar draws y byd yn y blynyddoedd diwethaf wedi creu heriau i gadwyni cyflenwi gan amlygu'r angen i gaffael allu bod yn hyblyg wrth fod hefyd yn wydn, ac mewn byd cymhleth a chyfnewidiol, nid yw'r heriau hyn yn debygol o ostegu. Mae felly yn parhau i fod yn gyfnod o newid, gan gynnwys diwygiad sylweddol ym maes caffael cyhoeddus gyda newidiadau deddfwriaethol a statudol sylweddol yn y maes. Mae'r dirwedd newidiol hwn yn cyflwyno cyfleoedd a heriau, ac yn amlygu pwysigrwydd caffael.

Tud. 61

Beth yw caffael?

Caffael yw'r "brores lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd."¹



Mae'r brores yn cwmpasu'r holl gylch caffael – o'r cam cychwynnol o adnabod anghenion, hyd at ddiwedd contract gwasanaethau neu ddiwedd oes ddefnyddiol ased.

Nod y Strategaeth

Nod y Strategaeth hon yw amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer holl weithgaredd caffael yng Nghyngor Gwynedd ynghyd â sefydlu blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni tra'n rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol ac yn effeithiol.

Lluniwyd y Strategaeth, y cyfeiriad a'r blaenoriaethau allweddol yn dilyn ymgynghori gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cyfarch anghenion o bob math. Dim ond y dechrau yw llunio a chyhoeddi'r Strategaeth, bydd gwireddu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau yn ddibynnol ar ymrwymiad a chefnogaeth gan holl adrannau a gwasanaethau'r Cyngor.



Cyd-destun rheolaethol cenedlaethol

Mae ystod o gyfreithiau, rheolau a pholisïau sydd wedi eu gosod i reoli'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn caffael. Mae'n hollbwysig bod y Strategaeth Caffael yn cydnabod ac yn cyd-fynd â'r rheiny er mwyn sicrhau bod trefniadau caffael y Cyngor yn cydymffurfio â'r rheoliadau, ac yn ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol.

Deddf Caffael 2023

Prif ddeddfwriaeth caffael yn y Deyrnas Unedig (DU) a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025, gan ddisodli'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Nod y Ddeddf yw gwneud y drefn gaffael gyhoeddus yn gyflymach, yn symlach, yn fwy tryloyw ac i ddiwallu anghenion y DU yn well tra hefyd parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.



Deddf Caffael 2023

Mae Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 hefyd yn berthnasol i Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023



Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael
Cyhoeddus (Cymru) 2023

2023 dsc 1

Mae'r Ddeddf hon yn adeiladu ar ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae dyletswyddau caffael y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 yn cynnwys dyletswydd i gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol (ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) er mwyn defnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus i ysgogi gwelliannau a sicrhau canlyniadau sydd o fudd i'r gymdeithas.

Disgwylir y bydd y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn dod i rym yn 2026.

Datganiad Polisi Caffael Cymru

Mae'r Polisi yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, drwy nodi deg egwyddor y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn. Mae'r deg egwyddor yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Uchelgais y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, a thrwy hynny helpu i lunio Cymru i fod yn le gwell i fyw ynddi, nawr ac i'r dyfodol.



Mae caffael wedi'i nodi fel un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yn y Ddeddf, ac wedi'i adnabod yn faes ffocws allweddol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011




Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol o ran defnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r hawl i'r Comisiynydd osod Safonau Iaith penodol ar sefydliadau cyhoeddus.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i Safonau'r Iaith Gymraeg a osodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 4A Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Statws Carbon Sero-Net erbyn 2030

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais gyfunol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn y flwyddyn 2030. Mae caffael wedi cael ei adnabod fel maes gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer cyrraedd y nod erbyn 2030.



Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ystod eang o ddeddfwriaethau mewn i un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig, ac yn gosod dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ac ati newydd ar bobl â nodweddion gwarchodedig.



Cyd-destun rheolaethol lleol

Ynghyd â'r rheoliadau a pholisïau cenedlaethol sydd angen eu dilyn, mae ystod o flaenoriaethau lleol sy'n dylanwadu gweithgaredd caffael y Cyngor, sydd wedi cael eu hystyried wrth lunio'r strategaeth hon.

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y cyfnod 2023-2028 o dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory** – rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc;
- **Gwynedd Lewyrchus** – cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng;
- **Gwynedd Glyd** – cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau;
- **Gwynedd Ofalgar** – cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau;
- **Gwynedd Gymraeg** – sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned;
- **Gwynedd Werdd** – gwarchod harddwch naturiol y Sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd;
- **Gwynedd Effeithlon** – rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.



Cyfansoddiad y Cyngor

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys rheolau a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli busnes y Cyngor.

Mae Adran 17 o'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Rheolau Gweithdrefn Contract sydd yn nodi'r prosesau y dylai'r Cyngor eu dilyn wrth gynnal ymarferiad caffael ac yn benodol unrhyw ymarfer caffael sy'n disgyn tu allan i'r deddfwriaethau caffael. Adolygwyd a diweddarwyd adran 17 o'r Cyfansoddiad yn unol â'r diwygio caffael cenedlaethol yn 2025.

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur



Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn amlinellu pa gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd rhwng 2022 a 2030 er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor carbon sero net. Mae caffael yn un o'r themâu sydd wedi eu nodi yn y Cynllun er mwyn ceisio dod yn Gyngor carbon sero net.

Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd

Mae'r Polisi yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Mae Adran 9 o'r Polisi yn cyfeirio yn benodol at brosesau caffael a thendro.



POLISI IAITH GYMRAEG
CYNGOR GWYNEDD 2022

Polisïau ehangach

Yn ogystal â'r uchod, mae polisïau ehangach y Cyngor hefyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth a'u gweithredu wrth lunio'r Strategaeth hon.

Meysydd blaenoriaeth

Dyma'r saith maes blaenoriaeth sydd wedi cael eu hadnabod ar gyfer cyfnod y Strategaeth hon.

Manylir ar gefndir pob maes blaenoriaeth, ynghyd â phennu nodau ar gyfer lle rydym eisiau bod, a sut y bwriedir cyrraedd yno, fel y nodir ymhellach ymlaen yn y Strategaeth.

► **Budd lleol -**

Cefnogi busnesau lleol i ffynnu

Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd caffael a lleihau rhwystrau i fusnesau a mentrau lleol geisio am waith gyda'r Cyngor

► **Carbon sero -**

Cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero

Datblygu'r ddealltwriaeth o allyriadau carbon contractau'r Cyngor a chydweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor i gynorthwyo i leihau allyriadau carbon y sefydliad

► **Gwerth am arian -**

Sicrhau gwerth am arian

Sicrhau bod yr holl arian a gaiff ei wario drwy weithgaredd caffael yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor ac i bobl Gwynedd

► **Gwerth cymdeithasol -**

Uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael

Uchafu'r gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a ddaw o gontractau a gweithgaredd caffael i gefnogi cymunedau lleol Gwynedd

► **Technoleg -**

Cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg

Gwneud y gorau o ddatblygiadau yn y maes technoleg er mwyn rhoi sylfaen gadarn i gaffael

► **Trefniadau llywodraethu -**

Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith

Sicrhau bod ein gweithdrefnau mewnol, dealltwriaeth ac arbenigedd o gaffael a threfniadau rheolaeth contract yn ein galluogi i weithredu'n gywir ac yn effeithiol

► **Y Gymraeg -**

Hybu ffyniant y Gymraeg

Sicrhau bod gweithgaredd caffael y Cyngor yn hybu'r Gymraeg a bod y Gymraeg yn derbyn lle amlwg yn ein prosesau

Budd Lleol

Cefnogi busnesau lleol i ffynnu

Cefndir

Un o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd yw cryfhau'r economi leol, a thrwy hynny mae'r Cyngor yn awyddus i geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod busnesau a mentrau lleol yn gallu cystadlu am ei gcontractau gyda'r nod bod cymaint â phosib o wariant y Cyngor yn aros yn lleol.

Mae prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn un o brosiectau Gwynedd Lewyrchus yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Nod y prosiect yw sicrhau ein bod fel Cyngor yn ymdrechu i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn ffiniau'r rheolau perthnasol, tra hefyd yn sicrhau fod y Cyngor yn cael y gwerth gorau am arian sy'n cael ei wario.

Mae'r Cyngor eisoes wedi ceisio adnabod rhwystrau i fusnesau a mentrau lleol i dendro ac wedi rhoi ystod o gynlluniau ar waith i'w lleihau, megis:

- Codi ymwybyddiaeth am ffyrdd i leihau neu atal rhwystrau a chyfyngiadau a wynebwr gan gyflenwyr/darparwyr lleol wrth gystadlu am gcontractau gyda'r Cyngor
- Cyhoeddi rhestr o gcontractau cyfredol y Cyngor
- Paratoi'r farchnad gan drefnu a chynnal sesiynau cwrdd â'r prynwr pan yn mynd allan i dendr.



**Gwariant
caffael gyda
chyflenwyr lleol**

(gwariant refeiwr - chwarter 1 2025-26)

Mae'r Ddeddf Caffael 2023 yn cyflwyno nifer o ddiwygiadau sydd â'r bwriad o roi cyfle teg i fentrau bach a chanolig i ymgeisio am gcontractau cyhoeddus. Gyda'r mwyafrif o fusnesau lleol Gwynedd yn fusnesau bach a chanolig,² gall hyn fod o fudd i leihau rhwystron i fusnesau lleol.

[2] [Busnes yn y DU: gweithgaredd, maint a lleoliad, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024](#)



Budd lleol

Cefnogi busnesau lleol i ffynnu

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Busnesau a mentrau gydag ymwybyddiaeth dda o gyfleon bidio gyda'r Cyngor
- ▶ Y Cyngor yn parhau i adnabod a lleihau rhwystrau pellach i fusnesau a mentrau lleol geisio am waith gyda'r Cyngor
- ▶ Ymwybyddiaeth dda, yn fewnol ac allanol, o'r prosiect Cadw'r Budd yn Lleol

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Datblygu'r gofrestr contractau ymhellach fel bod gan fusnesau a mentrau well ymwybyddiaeth o gyfleon bidio gyda'r Cyngor
- ▶ Defnyddio'r cyfleoedd a gyflwynwyd drwy'r diwygio caffael er mwyn lleihau'r rhwystrau i fentrau bach a chanolig
- ▶ Cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gallu'r farchnad leol i geisio am gontractau cyhoeddus



Llewyrchus



Mwy
cyfartal



Cymunedau
cydlynus



Diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg
yn ffynnu



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Carbon sero

Cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero

Cefndir

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Yn 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad yn nodi bod argyfwng hinsawdd, ac ymrwymwyd i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu at ddyfodol di-garbon yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod nod i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030.

Bwriad Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd yw amlinellu pa gamau y bydd yn cael eu cymryd o 2022 i 2030 er mwyn cyrraedd y nod o fod yn gyngor carbon sero net a gwireddu'r uchelgais o fod yn "garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."³

Mae oddeutu 72% o allyriadau carbon y Cyngor yn dod drwy weithgaredd caffael.⁴ Tra nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth uniongyrchol dros yr allyriadau hyn, wrth gaffael mae cyfleoedd i ni yrru newidiadau a all leihau'r allyriadau sy'n deillio o'n cadwyni cyflenwi.

Mae gan y Cyngor Bolisi Caffael Cynaliadwy, ac un o nodau'r Polisi yw i leihau ein heffaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

[3] Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 - 2029/30, Cyngor Gwynedd, 2022

[4] Adroddiad Blynyddol 2024/25 - Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, Cyngor Gwynedd, 2025



Carbon sero

Cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Gwell dealltwriaeth gan y Cyngor o allyriadau carbon y gadwyn gyflenwi
- ▶ Camau yn cael eu cymryd yn y broses gaffael i adnabod a lleihau effaith amgylcheddol

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Datblygu cyfres o adnoddau cynaliadwyedd i'w defnyddio yn y broses gaffael
- ▶ Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig darparwyr lleol, i allu mesur ôl-troed carbon
- ▶ Gwella trefn adrodd ar allyriadau carbon
- ▶ Cydweithio gyda sefydliadau eraill i rannu a dysgu am leihau allyriadau carbon



Llewyrchus



Cydnerth



Iachach



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Gwerth am arian

Sicrhau gwerth am arian

Cefndir

Diffinnir 'gwerth am arian' fel y "cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan, o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, yn ogystal â sicrhau budd i gymdeithas, i'r economi ac i'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol."⁵

Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn ar gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae ystod o ffyrdd y gall y Cyngor sicrhau gwerth am arian – megis wrth ddyfarnu contractau drwy gystadleuaeth deg, defnyddio fframweithiau neu gaffael ar y cyd sy'n cynyddu darbodion maint, neu ystyried ac adolygu opsiynau ar ddechrau'r broses gaffael.

Cyda llywodraethau lleol yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae Cyngor Gwynedd yn wynebu pwysau ariannol digynsail ar gyllidebau. Law yn llaw â hynny, mae tuedd prisiau yn gyffredinol wedi bod yn codi yn y blynyddoedd diwethaf (oherwydd elfennau megis digwyddiadau byd-eang, cynnydd prisiau tanwydd, chwyddiant, rhwystrau masnach). Mae felly yn hollbwysig bod unrhyw weithgaredd caffael yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer arian cyhoeddus wrth gynnal gwasanaethau o ansawdd uchel a lleihau risg.

[5] Nodyn Polisi Caffael Cymru, WPPN 01/20, Llywodraeth Cymru, 2023



Gwerth am arian

Sicrhau gwerth am arian

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Gall y Cyngor ddangos ei fod yn cyflawni gwerth am arian drwy'r hyn a gaffaelir
- ▶ Datblygu tryloywder o wariant drwy drefniadau caffael

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Parhau i adrodd ar sut y sicrheir gwerth am arian mewn contractau wrth adrodd ar berfformiad
- ▶ Cydweithio gyda sefydliadau cyhoeddus eraill ble'n briodol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf
- ▶ Adolygu a herio gwariant, gan adnabod cyfleoedd ar gyfer darparu effeithlonrwydd
- ▶ Adeiladu ar drefniadau monitro i sicrhau gwerth am arian drwy gydol cyfnod y contract



Llewyrchus



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Gwerth cymdeithasol

Uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael

Cefndir

Mae 'gwerth cymdeithasol' yn derm eang sy'n disgrifio "effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd y camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion".⁶ Gall grym gwario'r Cyngor gyda sefydliadau allanol gael effaith sylweddol ar yr economi a chymdeithas leol a gall greu cyfleoedd i gyflawni canlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach, gan ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Yn y broses gaffael, bydd gwerth cymdeithasol yn ymrwymiad a wneir gan dendrwy'r i ddarparu gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ychwanegol drwy gyflawni'r contract gyda'r Cyngor.



Dros **£4 miliwn o werth cymdeithasol** wedi'i gynnig gan gyflenwyr

(data yn gywir 2025)

Yn 2023, treialwyd methodoleg gwerth cymdeithasol newydd yn y Cyngor. Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd dull gwerth cymdeithasol newydd. Mae'r Cyngor bellach yn defnyddio tri dull gwahanol o werth cymdeithasol wrth gaffael - craidd, anghraidd, a'r Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal drwy gynnal caffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i osod a chyhoeddi amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib at gyflawni'r nodau llesiant.

[6] [Nodyn Polisi Caffael Cymru, WPPN 01/20, Llywodraeth Cymru, 2023](#)



Gwerth cymdeithasol

Uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Gwerth cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn rheolaidd fel rhan o feini prawf gwerthuso tendrau, ble'n briodol
- ▶ Ymwybyddiaeth dda, yn fewnol ac yn allanol, o werth cymdeithasol yn gyffredinol a'r methodolegau gwerth cymdeithasol
- ▶ Sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion cenedlaethol o ran gwerth cymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Hyrwyddo ac addysgu, yn fewnol ac allanol, ar werth cymdeithasol
- ▶ Datblygu'r drefn monitro ac adrodd ar ganlyniadau gwerth cymdeithasol
- ▶ Cydweithio gyda sefydliadau eraill i rannu a dysgu o ran gwerth cymdeithasol



Llewyrchus

Cydnherth

Iachach

Mwy
cyfartal

Cymunedau
cydlynus

Diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg
yn ffynnu

Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Technoleg

Cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg

Cefndir

Mae datblygiadau a newidiadau technolegol yn digwydd ar gyflymder a maint sylweddol. Mae'r datblygiadau hyn yn cyflwyno cyfleoedd i drawsnewid y Cyngor a'i wasanaethau a thra mae'n bwysig manteisio ar y cyfleoedd hyn, mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol o'r risgiau a cheisio eu lliniaru.


Gall technolegau newydd hefyd drawsnewid caffael cyhoeddus – o awtomeiddio gweinyddiaeth ailadroddus i ddarparu gwybodaeth a dadansoddiad o batrymau gwariant – gall technoleg newydd alluogi gwell penderfyniadau, costau is a chynyddu tryloywder.

Yn 2023, cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Digidol sy'n strategaeth i amlinellu'r llwybr y mae'r Cyngor am ei ddilyn er mwyn addasu i'r 'dyfodol digidol'. Uchelgais y Cynllun yw "datblygu, gwella a gwreiddio meddylfryd a datrysiadau digidol yn naturiol ac effeithiol ym mhob ystod o weithgaredd, cryfhau a gwella ein gwasanaethau, gweinyddu'n fwy effeithlon, a meddu ar y wybodaeth i wneud penderfyniadau dysg ac ystyrlon, a hynny mewn amgylchedd diogel a gwydn."⁷

Gall caffael hefyd fod yn alluogwr canolog i allu manteisio ar dechnolegau newydd – er enghraifft bydd rhai o'r eitemau blaenoriaeth yn y Cynllun Digidol angen eu caffael er mwyn eu gwireddu'r weledigaeth y mae'r Cynllun yn ei gosod.

Ynghyd â datblygiad technolegol cyffredinol mae galluoedd deallusrwydd artiffisial yn datblygu ar gyflymder rhyfeddol, ac mae'n gwreiddio ei le fwyfwy mewn caffael. Mae'n cynnig cyfleoedd megis drwy ddadansoddi data, a gallu deallusrwydd artiffisial i wella awtomeiddio o fewn prosesau caffael. Ond nid yw heb ei heriau a'i risgiau – megis o gwmpas defnyddio data a diogelu data, y gost gychwynnol, neu wrth beidio â chael dealltwriaeth drylwyr o sut y gellir ei ddefnyddio a beth yw'r cyfyngiadau.

[7] [Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28, Cyngor Gwynedd, 2025](#)



Technoleg

Cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Ymwybyddiaeth dda o ddatblygiadau technolegol a chymryd mantais o'r rheiny ble'n briodol
- ▶ Cryfhau y gaffael ar ddata allweddol er mwyn rhoi sylfaen cadarn i gaffael

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Gwerthuso technolegau newydd yn barhaus i wella'r broses gaffael, lleihau costau, a chynyddu effeithlonrwydd
- ▶ Cydweithio gyda phartneriaethau a sefydliadau cyhoeddus eraill i ddatblygu gwell mewnwelediad i'r datblygiadau technolegol a rhannu profiadau



Llewyrchus



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Trefniadau llywodraethu

Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith

Cefndir

Fel sydd eisoes wedi ei amlygu yn y Strategaeth hon, mae ystod o gyfreithiau a pholisïau sydd angen cydymffurfio â hwy yn y maes caffael sector cyhoeddus – o reoliadau penodol yn y maes caffael, i ystod o reoliadau a pholisïau ehangach megis y Gymraeg, llygredd, iechyd a diogelwch.

Mae'r diwygio caffael yn rhoi pwyslais ar drefniadau llywodraethu yn y maes caffael. Un o nodau'r Ddeddf Caffael 2023 yw i wreiddio tryloywder drwy gydol y cylch caffael fel y gellir craffu ar wariant arian trethdalwyr. Bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hefyd yn datblygu ar y nod o dryloywder wrth osod angen ar gyrff cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi strategaeth caffael, paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol a chyhoeddi cyfleoedd caffael mewn cofrestr.

Wrth i unrhyw ddatblygiadau yn y maes caffael ddod i rym, mae'n holl bwysig sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth a gwybodaeth o'r newidiadau, bod unrhyw ddogfennau wedi eu diweddarau'n briodol, a bod prosesau a pholisïau mewnol yn cyd-fynd â'r newidiadau.

Yn ychwanegol i'r gofynion deddfwriaethol a chenedlaethol, mae rheolau mewnol caffael y Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Gweithdrefn Contractau a'r Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cynnwys rheolau am y broses gaffael yn ei chyfanrwydd.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau llywodraethu da yn eu lle ac yn cael eu dilyn. Bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw risgiau a sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni drwy ein gweithgaredd caffael.



Trefniadau llywodraethu

Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Sicrhau bod y rheolau a gweithdrefnau caffael yn cael eu gweithredu'n gywir ar draws y Cyngor
- ▶ Bod polisïau, canllawiau a dogfennaeth caffael yn gyfredol ac yn bwrpasol
- ▶ Trefniadau rheolaeth contract effeithiol mewn lle ym mhob adran
- ▶ Dealltwriaeth ac arbenigedd caffael gadarn ar draws y Cyngor

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Adolygu templedi, canllawiau a dogfennaeth yn gyson a gwneud unrhyw newidiadau fel bo'r angen yn codi, gan gyfathrebu unrhyw newidiadau gyda'r swyddogion perthnasol yn y Cyngor
- ▶ Datblygu a gweithredu trefniadau safonol rheoli contract
- ▶ Cynyddu dealltwriaeth ac arbenigedd caffael ar draws y Cyngor, trwy ddulliau megis creu adnoddau a hyfforddiant pellach
- ▶ Datblygu trefniadau monitro a chefnogi ymhellach



Llewyrchus



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Cefndir

Mae Gwynedd yn sir unigryw o ran y Gymraeg, ac mae ymrwymiad i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn cael ei nodi fel un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

Mae Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor (2022) yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith. Nodir egwyddorion a safonau i'w cydymffurfio â hwy wrth gaffael a thendro yn Adran 9, megis:

- Bydd y Cyngor, wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, yn gwarchod a sicrhau anghenion trigolion Gwynedd o safbwynt derbyn gwasanaethau dwyieithog;
- Manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda chyd-ddarparwyr.

Mae caffael eisoes yn gwneud cyfraniad i hybu'r Gymraeg drwy amryw o ffyrdd: cynnwys cymalau mewn cytundebau gyda chontractwyr yn nodi gofynion a disgwyliadau y Gymraeg; cyhoeddi dogfennau allanol yn ddwyieithog.

Mae'r prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn ceisio uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol, a thrwy fod Gwynedd yn sir unigryw o ran y Gymraeg, mae hyn yn hyrwyddo a datblygu'r iaith.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu defnydd o'r Fframwaith Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru, sef fframwaith o fesurau amrywiol gwerth cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gellir defnyddio'r fframwaith i fesur a gwerthuso'r elfennau meintiol ac ansoddol o werth cymdeithasol a gynigir gan dendrwyr fel rhan o'r ymateb tendr. Mae dau fesur sy'n adlewyrchu'r nod llesiant o 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.



Lle ydym eisiau bod

- ▶ Bod holl weithgaredd caffael yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau statudol y Cyngor o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau cysylltiedig, ynghyd â Pholisi Iaith y Cyngor
- ▶ Bod y Gymraeg yn cael ei hybu a'i hannog ym mhrosesau caffael a chontractau'r Cyngor

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Cwrdd â'r Safonau Iaith a chydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor
- ▶ Cynnwys gofynion iaith perthnasol yn y dogfennau caffael a chytundebau
- ▶ Uchafu defnydd o fesuryddion gwerth cymdeithasol i annog defnydd o'r iaith



Diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg
yn ffynnu

Gweithredu

Bydd cyflawni'r Strategaeth hon yn ddibynnol ar nifer o elfennau a fydd yn galluogi'r weledigaeth a'r blaenoriaethau i gael eu gwireddu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymrwymiad a chefnogaeth gan holl adrannau a gwasanaethau'r Cyngor;
- gweithwyr proffesiynol caffael medrus sydd â gwybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth ac arferion gorau;
- ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid i feithrin cydweithio a thryloywder; a
- prosesau effeithlon wedi'u diffinio'n glir sy'n cefnogi cysondeb, cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus.

Cyda'i gilydd, bydd y rhain yn cefnogi canlyniadau caffael effeithlon, cydymffurfiol a chyfrifol yn gymdeithasol.

Dylid cydnabod yr angen i fod yn realistig ynghylch yr hyn sy'n bosibl ei gyflawni o fewn y cyfyngiadau adnoddau presennol. Byddwn yn ymrwymo i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael, gan weithredu'n effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, byddwn yn ceisio nodi a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill, er mwyn cryfhau'r effaith a'r gwerth a gaiff ei greu.

Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu yn flynyddol, ac unrhyw ddiwygiadau yn cael eu gwneud fel bo'r angen yn codi.

Cynllun Gweithredu


Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r Strategaeth, gan amlinellu'r camau gweithredu penodol i'w cymryd wrth weithredu'r Strategaeth, a bydd y Cynllun yna yn cael ei ddefnyddio i reoli a monitro cynnydd.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn.





caffael@gwynedd.llyw.cymru



<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Tendrau-a-chaffael/Tendrau-a-chaffael.aspx>



Gwasanaeth Caffael
Adran Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH



**GWASANAETHAU
CORFFORAETHOL**
CYNGOR GWYNEDD

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Awdur: Arwel Evans (GC)

Dyddiad: 15/12/2025

Fersiwn: Drafft 2

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth laith Gymraeg)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mae'r Strategaeth Caffael flaenorol wedi dod i ben, gan greu'r angen am Strategaeth newydd sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth a'r diwygio caffael cyhoeddus diweddar, ac yn cyfuno blaenoriaethau lleol ac oblygiadau cenedlaethol, er mwyn gosod cyfeiriad strategol unedig i holl weithgaredd caffael ar draws y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2026-2031.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys saith maes blaenoriaeth ar gyfer cyfnod y Strategaeth, gyda phob maes blaenoriaeth wedi'i adnabod fel meysydd allweddol yng nghyd-destun caffael yng Nghyngor Gwynedd:

- Budd lleol - cefnogi busnesau lleol i ffynnu
- Carbon sero - cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero
- Gwerth am arian - sicrhau gwerth am arian
- Gwerth cymdeithasol - uchafu gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael
- Technoleg - cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg
- Trefniadau llywodraethu - rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith
- Y Gymraeg - hybu ffyniant y Gymraeg.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Y prif grŵp ymgynghorol yw Timau Categori y Cyngor (timau a swyddogion caffael sy'n gweithredu ar gyfer gwahanol adrannau yn y Cyngor).

Mae rhai o'r budd-ddeiliaid eraill yr ydym wedi ymgynghori â hwy yn cynnwys:

- Adran Economi a Chymuned
- Aelodau Cabinet y Cyngor
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Adborth gan y Timau Categori	2024	Cafwyd adborth gan Reolwyr y Timau Categori yn cadarnhau'r angen am Strategaeth Caffael newydd wedi i'r Strategaeth flaenorol ddod i ben.
Trafodaethau gyda'r Timau Categori	Gwanwyn-Haf 2025	Cynhaliwyd sesiynau gyda Rheolwyr y Timau Categori i dderbyn sylwadau a thrafod cynnwys drafft o'r Strategaeth Caffael.
Adran Economi a Chymuned	Gwanwyn-Haf 2025	Trafod gweledigaeth a chynnwys y Strategaeth Caffael a'r Strategaeth Economi Gwynedd gyda'r Adran Economi a Chymuned.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Hydref 2025	Cafodd y Strategaeth yn cael ei chraffu ym Mhwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ym mis Hydref 2025. Penderfynwyd i dderbyn y Strategaeth gan nodi'r sylwadau. Linc i'r eitem agenda yn y Pwyllgor Craffu
--	--------------------	---

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Anabledd	Mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys gwerth cymdeithasol fel rhan o feini prawf gwerthuso tendrau ble'n briodol. Ymhellach i hyn, mae'r Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru yn cynnwys mesur sy'n adlewyrchu'r gwerth o roi swyddi i bobl anabl.	Gall uchafu pwysigrwydd cynnwys gwerth cymdeithasol yn y Strategaeth a thrwy hynny bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru, bwysleisio pwysigrwydd rhoi cyflogaeth i bobl ag anabledd, ac o bosib felly yn cynyddu'r siawns o gwmnïau sy'n gweithio i'r Cyngor yn rhoi swyddi i bobl anabl.
Rhyw	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Oedran	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Crefydd a Chred	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Ail-bennu rhywedd	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.

Iaith Gymraeg	Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae 64.4% o boblogaeth Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hybu ffyniant y Gymraeg yn faes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd. Mae hybu ffyniant y Gymraeg hefyd yn un o feysydd blaenoriaeth y Strategaeth Caffael.	Rhagwelwn y bydd y Strategaeth Caffael yn arwain at effaith bositif ar y Gymraeg trwy hybu'r Gymraeg yn ein prosesau caffael, boed hynny efo cwmnïau Cymraeg, neu gwmnïau di-Gymraeg; byddwn yn croesawu a hwyluso cyflwyno tendrau yn Gymraeg; cynnwys mesurau yn ein model gwerth cymdeithasol sy'n hybu'r Gymraeg; fel rhan o werth cymdeithasol hefyd, gall buddion gynnwys cyflogi gweithwyr lleol a all fod yn siaradwyr Cymraeg o ystyried bod mwyafrif o bobl Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg; sicrhau bod contractau gyda chyflenwyr yn cydymffurfio gyda Pholisi Iaith y Cyngor.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod pŵer gwario sefydliadau cyhoeddus yn creu cyfleoedd i wireddu canlyniadau economaidd gymdeithasol ac amgylcheddol, gyda gwerth cymdeithasol yn gallu cyfrannu yn sylweddol i gwrdd â'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Mae'r canlyniadau y mae'r Cyngor eisoes wedi eu gwireddu drwy ddefnyddio gwerth cymdeithasol fel rhan o werthusiad tendrau hefyd yn dangos bod y gwerth cymdeithasol a gawn drwy gontractau'r Cyngor yn rhoi canlyniadau economaidd gymdeithasol positif.	Rhagwelir y bydd y Strategaeth Caffael, wrth roi pwyslais ar werthuso tendrau gan gynnwys gwerth cymdeithasol, yn creu canlyniadau positif economaidd gymdeithasol.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd â'u Teuluoedd	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Hawliau Dynol	Dim sylwadau.	Nid yw'r Strategaeth Caffael ei hun yn ymwneud ag elfennau megis hawliau dynol, caethwasiaeth, cyflogaeth foesegol ac ati gan fod hynny yn rhan fwy gweithredol o gaffael. Er enghraifft, yn ein termau ac amodau safonol (megis y cymalau hawliau dynol a chyflogaeth foesegol), a'r cwestiynau cyn-gymhwysu sy'n gwirio os yw cyflenwyr wedi bod yn euog o unrhyw dor-cyfraith cysylltiedig. Ond fe all y maes blaenoriaeth o 'Roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith' a'r gwaith fydd ynghlwm â'r maes blaenoriaeth hynny sicrhau bod y trefniadau mwy gweithredol o gaffael yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac felly gael effaith gadarnhaol o sicrhau ein bod yn cynnal safonau ein cadwyni cyflenwi.

Arall	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
--------------	---------------	---

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Dim bylchau wedi eu hadnabod.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid oes effaith gynyddol wedi ei hadnabod.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r Strategaeth Caffael yn gosod nod a chyfeiriad strategol, lefel uchel i gaffael ar draws y Cyngor, ac mae pob dyletswydd a chyfraith berthnasol wedi cael ei hystyried wrth ei llunio. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn cael ei chyfarch ar lefel Polisi, i sicrhau bod yr ystyriaethau cydraddoldeb perthnasol yn cael eu hystyried wrth gynnal pob ymarferiad caffael. Nodir yn y Polisi Caffael cyfredol y dylid ystyried cydraddoldeb ar y cam o lunio dogfennaeth caffael, sydd yn gyfrifoldeb i ba bynnag wasanaeth sy'n caffael. Mae'r templedi y mae'r Gwasanaeth Caffael yn gyfrifol amdanynt ac y mae'r Strategaeth yn cyfeirio atynt yn y maes blaenoriaeth 'Trefniadau llywodraethu' yn rhoi sylw i'r ddyletswydd cydraddoldeb - megis telerau ac amodau safonol y Cyngor fydd yn llunio sail contract gyda chwmnïau yn cynnwys cymalau sy'n ymdrin â chydaddoldeb, peidio â gwahaniaethu, cyfleoedd cyfartal.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae ein pŵer gwario fel llywodraeth leol yn creu cyfleoedd i wireddu canlyniadau economaidd cymdeithasol positif, ac yn benodol mae'r elfen gwerth cymdeithasol yn ein prosesau caffael yn gallu cyfrannu i'r ymdrech o fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru wedi eu llunio yn benodol i fesur gwerth cymdeithasol o ran cyfraniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Caiff pwysigrwydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Pholisi iaith y Cyngor eu hamlygu ar ddechrau'r Strategaeth ble rhoddir crynodeb o gyd-destun rheolaethol ar gyfer y Strategaeth. Mae hybu ffyniant y Gymraeg wedi ei adnabod a'i gynnwys fel maes blaenoriaeth yn Strategaeth.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyriaeth lawn wrth ddrafftio'r Strategaeth, a gellir gweld pa rai o'r nodau llesiant y mae pob maes blaenoriaeth yn eu cyfarch yn y Strategaeth. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i weithredu'r Strategaeth a chaffael yn gyffredinol ar draws y Cyngor.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd

Unrhyw sylwadau

Er bod y Strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer gweithgaredd caffael, mae gweithredu a gwireddu'r Strategaeth Caffael o fewn rheolaeth fewnol y Cyngor.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Fel sydd wedi'i nodi uchod, ystyrir bod y Strategaeth Caffael yn cael effaith bositif ar sawl nodwedd gan gynnwys anabledd, yr iaith Gymraeg ac ystyriaethau economaidd gymdeithasol. Trwy lunio Strategaeth, rydym yn gosod cyfeiriad strategol unedig i holl weithgaredd caffael yn y Cyngor, gan uchafu gwerth y bunt a chryfhau canlyniadau caffael, a thrwy hynny yn sicrhau'r budd mwyaf i drigolion Gwynedd drwy ein contractau.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Ni ystyrir y bydd effaith negyddol sylweddol nag unrhyw ganlyniadau anghyfartal yn sgil y Strategaeth Caffael.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Dim yn berthnasol.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Ystyrir bod sylw dyledus wedi cael ei roi i'r elfennau hyn, megis bod creu perthnasau da gyda rhanddeiliaid i gydweithio a rhannu arfer dda ac ati yn rhan allweddol o gyflawni nifer o feysydd blaenoriaeth. Mae'r elfennau o gyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu eisoes yn cael eu gweithredu yn ein prosesau caffael ac yn cael eu cyfarch gan y Polisi Caffael.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ystyrir bod sylw dyledus wedi ei roi i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r Strategaeth Caffael. Rydym yn disgwyl y bydd uchafu pwysigrwydd cynnwys gwerth cymdeithasol yn ein prosesau caffael yn creu canlyniadau economaidd-gymdeithasol positif.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rydym eisoes yn cymryd pob cyfle, o fewn ein gallu ac o fewn ffiniau deddfwriaeth caffael gyhoeddus, i hybu'r Gymraeg drwy ein Strategaeth Caffael a gweithgaredd caffael yn gyffredinol, ac yn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor. Nid yw'r Strategaeth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Llunio Cynllun Gweithredu fydd yn amlinellu'r camau i'w cymryd i wireddu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth	2026-2031	Blynyddol	Arwel Evans	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth

Monitro Cynllun Gweithredu	Pob 6 mis	Arwel Evans	Na
Herio a Chefnogi Perfformiad	Cylch adrodd	Arwel Evans	Na

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Polisi Canu'r Gloch
Aelod Cabinet:	Cyng. Llio Elenid Owen
Swyddogion perthnasol:	Eurig Williams / Jac Ynyr Evans
Dyddiad y cyfarfod:	20 Ionawr 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

Bod y Cabinet yn penderfynu mabwysiadu y Polisi Canu'r Gloch diwygiedig a welir yn Atodiad 1.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mae adolygu'r polisi a'r trefniadau cysylltiedig sydd ynghlwm â chanu'r gloch yn dasg benodol o fewn Cynllun Ymateb i Droseddau'r Cyngor Bwriad yr adroddiad yw argymhell diweddariadau i'r Polisi cyfredol fydd wedyn yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 . Mae'r polisi hwn a'i drefniadau yn un pwysig gan ei fod yn cyfarch dyletswyddau statudol y Cyngor a hwaliau a gwarchodaeth i "weithwyr" o dan y *Public Interest Disclosure Act 1998*. Mae'n darparu arweiniad i holl staff y Cyngor, contractwyr yn ogystal â chyflenwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar ei eiddo ar sut i rannu pryder sydd ganddynt am gamymarfer, ymddygiad amhriodol, neu weithgarwch anghyfreithlon o fewn y Cyngor, gan egluro hefyd y camau i ymateb. Mae'r pwyslais ar rannu gwybodaeth ynghylch materion allai fod â budd cyhoeddus; nid yw'r polisi yn berthnasol i faterion cyflogaeth personol, gan fod yna drefniadau gwahanol mewn lle i gynorthwyo staff gyda hynny.

3.2 Adolygwyd y polisi presennol gan grŵp o swyddogion o feysydd gwaith cyfreithiol, adnoddau dynol ac archwilio mewnol yn ystod misoedd yr hydref 2025. Cyflwynwyd y cynnwys yn nghyfarfod diweddar y Bwrdd Ymateb i Droseddau am sylwadau hefyd. Mae'r polisi manwl i'w weld yn Atodiad 1, ac mae'n adlewyrchu gofynion cyfreithiol ac ymarfer da yn y maes.

3.3 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn datblygu perthynas ag elusen *Protect*, sydd yn gorff sydd yn arbenigo mewn materion canu'r gloch, a byddwn yn cydweithio â nhw am sawl blwyddyn er mwyn adolygu'r polisi yn gyson, ac i'w roi ar waith trwy gyfrwng rhaglen o godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant. Yn hynny o beth, byddwn yn defnyddio *Protect* i fesur pa mor llwyddiannus yw'r trefniadau o dan y polisi newydd, ac i addasu er gwell

eto pe bai angen. Gall yr elusen roi cefnogaeth arbenigol i ni fel cyflogwr ond hefyd i staff pe byddent yn dymuno derbyn cyngor gan gorff annibynnol.

- 3.4 Pe bai'r Cabinet yn cytuno i fabwysiadu'r polisi, yna byddwn yn symud ymlaen i godi ymwybyddiaeth trwy gyfrwng rhaglen gyfathrebu gynhwysfawr a hefyd yn darparu hyfforddiant i'r gweithlu ar egwyddorion a gweithredu elfennau'r polisi. Bydd y rhaglen hon yn cael ei theilwra i wahanol garfannau o'r gweithlu, gyda gofyn i benaethiaid, penaeithiaid cynorthwyol, rheolwyr ac arweinyddion tîm fod â dealltwriaeth fanylach o'r gofynion na staff er enghraifft. Fodd bynnag, bydd gofyn i bob unigolyn fod â dealltwriaeth o'r maes.
- 3.5 Mae'r undebau llafur wedi cyfrannu i'r gwaith o adolygu'r polisi ac yn gefnogol i'r copi diwygiedig a welir yn Atodiad 1. Pe bai'r Cabinet yn mabwysiadu'r polisi, byddwn angen cyfraniad yr undebau yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth ymysg staff hefyd.
- 3.6 Mewn perthynas ag ysgolion, cyfrifoldeb Cyrff Llywodraethol yw mabwysiadu a gweithredu trefniadau canu'r gloch ar gyfer eu hysgol unigol hwy. I'r perwyl yma mae Llywodraeth Cymru yn argymhell polisi penodol iddynt ei fabwysiadu. . O ystyried hynny, nid yw'r union bolisi sydd dan sylw yn Atodiad 1 i'w ddefnyddio ar gyfer y garfan honno o'r gweithlu, ond bydd cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau fod pob un o ysgolion Gwynedd yn mabwysiadu y polisi a argymhellir gan Lywodraeth Cymru.
- 3.7 Nod y camau hyn i gyd ydi ei gwneud hi'n glir i staff a chontractwyr sut y gallan nhw ganu'r gloch mewn amgylchedd diogel, gan felly yn raddol adfer hyder y cyhoedd yn nhrefniadau'r Cyngor mewn perthynas â materion o'r fath. Bydd ein perthynas â *Protect* yn fodd o sicrhau barn annibynnol ar gryfder y trefniadau hynny.
- 3.8 Mae'r Polisi yma yn cyfarch gofynion statudol penodol o fewn cyd-destun o warchod hawliau cyflogaeth. Cydnabyddir hefyd fod budd-ddeiliaid eraill all fod am godi pryderon gyda'r Cyngor, gan gynnwys felly aelodau etholedig. Nid yw'r Polisi penodol yma, y camau na'r warchodaeth statudol sydd yn sail i'r ddogfen yn berthnasol i'r grwpiau yma, a hynny oherwydd natur eu perthynas â'r Cyngor, y cyfrifoldebau arweiniol neu ofynion penodol sydd arnynt. Mae trefniadau eraill hefyd eisoes mewn bodolaeth ar gyfer ymdrin â chwynion a phryderon gan Aelodau, sydd efallai o natur wahanol i'r hyn a ystyrir fel materion 'Canu'r Gloch'. Er hwylustod i Aelodau allu ymglyfarwyddo gyda'r gwahanol gyfundrefnau sydd yn bodoli, rydym wrthi'n llunio canllaw ehangach i roi arweiniad clir ar hyn.
- 3.9 Cynhaliwyd asesiad effaith sydd yn Atodiad 2. Fe nodir fod yr asesiad yn cyfarch dyletswyddau'r Cyngor o dan ystod o ddeddfwriaethau gan gynnwys Deddf

Cydraddoldeb 2010. Nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw reswm i addasu neu beidio symud ymlaen â'r penderfyniad a geisir.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae cael Polisi Canu'r Gloch effeithiol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd, yn gydran greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Bydd yn waith parhaus i sicrhau fod pawb y mae'r Polisi'n berthnasol iddynt yn teimlo'n hyderus i'w ddefnyddio petai'r angen yn codi.

4.2 Swyddog Monitro

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r adolygiad yma wedi ei gynnal mewn cydweithrediad agos gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r adroddiad a'r Polisi yn adlewyrchu y mewnbwn yma yn briodol. Pe mabwysiedig y Polisi byddaf yn symud i'w osod yn Nghyfansoddiad y Cyngor ac adrodd i'r Cyngor llawn er gwybodaeth ac yn ôl gofynion am y diwygiad yma.

ADRAN 22**22. POLISI “CANU’R GLOCH”****22.1 CWESTIYNAU CYFFREDIN****Beth yw “canu’r gloch”?**

“Canu’r gloch” yw pan fydd gweithiwr, contractwr neu gyflenwr yn rhannu pryder difrifol am gamymarfer, ymddygiad amhriodol neu weithgarwch anghyfreithlon o fewn y Cyngor.

Pam mae’r polisi hwn yn bodoli?

Mae’r polisi’n rhoi ffordd ddiogel i bobl siarad allan os oes ganddynt bryderon difrifol. Mae’n helpu i warchod safonau’r Cyngor ac i sicrhau bod gweithredoedd amhriodol yn cael eu hatal.

Beth allaf godi pryder amdano?

Gellir codi pryder am unrhyw beth o fudd i’r cyhoedd, megis:

- twyll neu gamddefnyddio arian cyhoeddus
- camdriniaeth neu esgeulustod tuag at gwsmeriaid neu gleientiaid
- llygredigaeth neu gamddefnyddio awdurdod
- perygl i iechyd a diogelwch
- cuddio gwybodaeth bwysig neu gamymarfer

Pwy all “ganu’r gloch”?

Gall unrhyw weithiwr, contractwr, cyflenwr, gwirfoddolwr neu ymgynghorydd sy’n gweithio i’r Cyngor wneud hynny.

A fydd fy enw’n cael ei gadw’n gyfrinachol?

Bydd, lle bo hynny’n bosibl. Ni ddatgelir eich enw heb eich caniatâd oni bai bod angen cyfreithiol i wneud hynny (e.e. mewn achos llys).

Beth os nad wyf am roi fy enw?

Gallwch wneud datgeliad dienw, ond gall fod yn anoddach ymchwilio i’r mater os na ellir cysylltu â chi am fanylion pellach.

A fyddaf yn cael fy amddiffyn rhag dial neu erlid?

Byddwch. Mae’r gyfraith (Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998) yn eich amddiffyn rhag unrhyw fath o gosb, aflonyddu neu driniaeth annheg os ydych yn codi pryder dilys.

Pwy ddylwn i gysylltu â nhw i rannu pryder?

Mae sawl llwybr gwahanol ar gyfer rhannu pryder, gwelir cymal 22.6 yn y ddogfen hon ar gyfer fwy o wybodaeth.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi godi pryder?

Bydd y Cyngor yn cadarnhau derbyn eich pryder, yn cymryd camau i ymateb i’r datgeliad gan gynnwys cychwyn ymchwiliadau ffurfiol ac yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad lle bo hynny’n bosibl. Mae natur unrhyw ymchwiliad am amrywio yn dibynnu ar y datgeliad.

Nid wyf yn gweithio i'r Cyngor, a allaf godi pryder?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr y Cyngor. Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pobl nad ydynt yn gweithio i'r awdurdod lleol dymuno codi pryder. Ceir nodyn canllaw ar ddiwedd y polisi, sydd yn esbonio sut y gall unigolion nad ydynt yn weithwyr y Cyngor godi pryder ac â phwy y dylent gysylltu.

22.2 Ble gallaf gael cyngor neu gymorth?

Mae cymorth ar gael trwy eich Undeb Llafur neu'r elusen Protect (www.protect-advice.org.uk), sy'n cynnig cyngor cyfrinachol i unigolion sy'n canu'r gloch.

DATGANIAD POLISI

- 22.2.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bobl Gwynedd ac mae'n ddibynol ar safon y staff a'r rheolwyr trwy'r awdurdod i wneud hyn. Yn achos camymarfer neu drosedd ddifrifol, mae'n hollbwysig dwyn y gweithgareddau hyn i'r golwg a'u datrys cyn gynted â phosibl er mwyn gwarchod safonau uchel y Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor felly yn hyrwyddo'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn onest ac yn atebol.
- 22.2.2 Lluniwyd y Polisi Datgelu i agor ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn am bryderon, heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu yn creu anfantais iddynt yn sgil hynny. Nid fydd Cyngor Gwynedd yn goddef aflonyddu neu erlid unigolyn sy'n sôn am bryder dilys.
- 22.2.3 Mae'r polisi yn annog gweithwyr i weithredu'n gyfrifol er mwyn gwarchod enw da'r Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Disgwylir i unigolion ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer.
- 22.2.4 Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol o fewn y Cyngor yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.
- 22.2.5 Bydd Cyngor Gwynedd yn ymateb yn gyflym ac yn drwyadl i bryderon y sonnir amdanynt dan y polisi hwn, ac yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a phositif i sicrhau nad yw camymarfer yn cael parhau.
- 22.2.6 Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu ynghyd â'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i weithwyr, yn ogystal â'r canllawiau i reolwyr ar sut i ymateb i bryderon y sonnir amdanynt. Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn oddi wrth yr Adran Gwasanaethau Gorfforaethol.
- 22.3 I BWY Y MAE'R POLISI'N BERTHNASOL**
- 22.3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y Cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor megis gweithwyr

asiantaeth neu adeiladwyr; cyflenwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gcontract gyda'r Cyngor mewn eiddo megis cartrefi gofal.

2.4 AMCANION

2.4.1 Mae'r polisi yn ceisio

- annog gweithwyr sy'n bryderus ynghylch camymarfer i deimlo'n ddigon hyderus i ddod ymlaen a rhannu eu pryderon
- sicrhau bod gweithwyr yn deall beth yw eu cyfrifoldeb o ran sôn am gamymarfer
- creu ffyrdd dibynadwy iddynt sôn am bryderon a chael gwybod yn llawn beth ddigwyddodd wedyn
- sicrhau bod gweithwyr sy'n rhannu pryder yn cael gwybod beth oedd canlyniad y mater, a hefyd eu bod yn gwybod sut i fynd â'r mater ymhellach os nad ydynt yn fodlon gydag ymateb y Cyngor
- rhoi sicrwydd y bydd gweithwyr sy'n sôn am bryder dilys sydd ganddynt yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ddial neu erlid posibl.

2.4.2 Er mwyn gwneud hyn bydd y Cyngor yn:

- Hyrwyddo'r polisi hwn a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithwyr a rheolwyr mor eang â phosibl i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'i fodolaeth, ei sgôp a'i amcanion.
- Cynnwys y Polisi Datgelu fel rhan hanfodol o'r broses gyflwyno i weithwyr newydd.
- Hyrwyddo'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol yn y man gwaith.
- Rhoi hyfforddiant i reolwyr llinell ar sut i ymdrin â phryderon a rennir dan y polisi hwn, cefnogi pobl sy'n ymwneud ag achosion o ddatgelu a Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998 a chefnidir cyfreithiol 'datgelu'.
- Sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn ddifrifol a sensitif a'i bod yn cael ei hymchwilio'n drwyadl.
- Cymryd camau i amddiffyn unigolion sy'n rhannu pryderon dan y polisi hwn rhag unrhyw ddial neu erlid.
- Ceisio datrys y mater yn y lle cyntaf o fewn y Cyngor.

22.5 SGÔP

22.5.1 Ar gyfer pryderon yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae budd eraill neu fudd y Cyngor ei hun mewn perygl y bwriedir y polisi yn bennaf. Dylai gweithwyr ddefnyddio'r polisi hwn os ydynt yn rhesymol amau bod yna gamymarfer neu drosedd wedi cymryd lle, ar fin digwydd neu efallai am ddigwydd.

22.5.2 At ddibenion y polisi hwn, mae 'datgeliad cymwys' yn golygu unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan weithiwr y mae'n credu'n onest ac yn rhesymol ei bod yn dangos camymarfer neu gamwedd o'r math a restrir yn adran 22.4.2 Mae 'datgeliad diogel' yn golygu datgeliad a wneir yn unol â'r gofynion cyfreithiol yn y Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998, fel bod yr unigolyn yn cael yr amddiffyniadau statudol.

22.5.3 Gall cwynion fod ynghylch rhywbeth y credir ei fod o fudd i'r cyhoedd gan gynnwys rhywbeth

- sydd yn anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu yn lygredigaeth;
- sydd yn gyfystyr â chamweinyddu fel a ddiffinnir gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Mae camweinyddu yn cwmpasu, er enghraifft, oedi di-gyfiawnder, methiant i ddilyn rheolau'r awdurdod neu'r gyfraith, rhagfarn, defnyddio ystyriaethau amhriodol, rhoi gwybodaeth anghywir a nifer o faterion tebyg a sydd yn achosi anghyfiawnder.
- sydd yn groes i, neu sydd heb fod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, ei Reoliadau Ariannol neu'i bolisiâu, ei godau ymarfer neu ei ymrwymïadau cyfreithiol;
- nad yw'n cyrraedd y safonau ymarfer sefydledig;
- sydd yn torri unrhyw gôd ymarfer statudol;
- sydd yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol;
- sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol;
- sydd yn peryglu iechyd a diogelwch unigolyn;
- sydd yn achosi, neu sy'n debygol o achosi niwed i'r amgylchedd;
- sydd yn aflwyddiant cyfiawnder;
- sydd yn gamddefnydd o rym neu'n ddefnydd o rym ac awdurdod y Cyngor ar gyfer rhyw ddiben anawdurdodedig;
- sydd yn methu ag unioni neu gymryd camau rhesymol i adrodd am fater sy'n debygol o olygu cost fawr y gellid ei hosgoi neu golli canlyniad i'r Cyngor neu a fyddai fel arall yn peryglu'r Cyngor, neu
- sydd yn ymgais i guddio unrhyw rai o'r enghreifftiau uchod.

Nid yw'r rhestr yn derfynol; ei bwriad yw rhoi syniad o'r math o ymddygiad y gellid ei ystyried yn drosedd neu yn gamymarfer.

22.5.4 Ni ellir defnyddio'r polisi hwn yng nghyswllt torri posib ar gytundebau gwaith, e.e. cwynion personol neu i herio penderfyniadau, arferion neu bolisiâu y gall unigolion fod yn anghytuno â hwy. Dylid ystyried y Polisi Datgelu, felly, fel peth cwbl ar wahân i brosesau sydd yn galluogi aelod staff i gyflwyno cwyn yng nghyswllt ei gyflogaeth ef ei hun.

22.6 SUT I RANNU PRYDER

22.6.1 Rhannu Pryder

22.6.1.1 Mae gan unrhyw un sy'n dymuno canu'r cloch nifer o opsiynau diogel i wneud hynny. Dylid dewis yr opsiwn sy'n teimlo fwyaf priodol yn ôl natur y pryder a'r amgylchiadau.

Mae sawl llwybr yn bodoli ar gyfer rhannu pryder. Mae'r llwybrau gwahanol wedi eu rhestru isod:

- Rheolwr llinell – er mwyn i'r rheolwr llinell gyfeirio'r mater ymhellach (gweler isod). Mae angen i bob rheolwr llinell fod ag ymwybyddiaeth o'r trefniadau, fel eu bod fan leiaf mewn sefyllfa i allu cyfeirio'r mater at swyddog priodol.
- Pennaeth Adran / Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Prif Weithredwr / Swyddog Monitro. Bydd yr union llwybr yn dibynnu ar natur y pryder.
- Swyddogion Canu'r Gloch y Cyngor; sef Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Monitro y Cyngor. Y Swyddogion Canu'r Gloch sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu Grŵp Ymateb i unrhyw ddatgeliad (gweler isod).
- Bydd unrhyw bryder sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion yn cael ei gyfeirio yn syth o dan drefniadau diogelu'r Cyngor. Ni ddylai cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth pan fo trosedd, risg o niwed, neu camymddwyn difrifol, a disgwylir i bob ymarferydd weithredu'n brydlon i sicrhau diogelwch.
- Bydd unrhyw bryderon ynghylch camweinyddu ariannol yn cael ei rannu gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- Os nad yw staff am ddefnyddio un o'r opsiynau uchod yn uniongyrchol, gellir cyfeirio unrhyw bryder at gyfeiriad e-bost; canurgloch@gwynedd.llyw.cymru
- Beth bynnag fo'r dull o rannu gwybodaeth, fe fydd yr wybodaeth honno yn cael ei chyfeirio yn syth at y Grŵp Ymateb (gweler 22.6.2 isod).
- Gellir rhannu pryderon yn ysgrifenedig neu ar lafar. Os yw'n cael ei wneud ar lafar, bydd angen i'r Swyddog Gweithredol (sef y swyddog yr aethpwyd ato / ati i sôn am y pryder yn wreiddiol) gofnodi cyn gymaint o'r manylion â phosib.
- Er na fydd disgwyl i weithwyr sy'n rhannu pryder i ddarparu tystiolaeth i ddangos fod yr honiad yn wir, fe fydd disgwyl iddynt ddangos i'r Swyddog Gweithredol fod digon o sail i'r honiad.
- Mae rhwydd hynt i weithiwr ofyn am gyngor cyfrinachol gan Undeb Llafur ar sut i rannu pryder o dan y polisi hwn a gall wahodd cynrychiolydd i godi'r mater ar ei ran.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod na fyddai rhoi un llwybr yn unig ar gyfer rhannu pryderon yn addas ar gyfer pob sefyllfa; dyna pam ei fod yn rhoi mwy nag un opsiwn i bobl ar gyfer rhannu gwybodaeth. Ni fyddwch dan anfantais am ddewis un o'r opsiynau uchod dros eraill, cyn belled â'ch bod wedi gweithredu'n ddidwyll.

22.6.2 Grŵp Ymateb Canu'r Gloch

22.6.2.1 Bydd Grŵp Ymateb Canu'r Gloch yn gweithredu fel fforwm ganolog i asesu pob pryder sy'n cael ei godi trwy'r llwybrau y cyfeirir atynt uchod, ac i benderfynu wedyn ar y ffordd mwyaf priodol o ymdrin ag unrhyw bryder neu ddatgeliad a wneir o dan y Polisi Canu'r Gloch. Rôl y Grŵp Ymateb yw sicrhau fod pob datgeliad yn cael ei ystyried yn deg, yn wrthrychol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, cyn bod yna ystyried pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn ymateb.

22.6.2.2 Swyddogion Canu'r Gloch y Cyngor, sef Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Monitro, sy'n gyfrifol am drefnu Grŵp Ymateb i unrhyw datgeliad sy'n cael ei wneud. Os ydych yn derbyn datgeliad perthnasol felly, dylid hysbysu'r Swyddogion a fydd yn trefnu cyfarfod o'r Grŵp.

Bydd y Grŵp yn gyfrifol am:

- Adolygu manylion y datgeliad cychwynnol;
- Penderfynu a yw'r mater o fewn cwrdd y Polisi, neu a ddylid defnyddio un o bolisiâu eraill y Cyngor er mwyn ymdrin â'r pryder;
- Penderfynu a ddylid cynnal asesiad cychwynnol neu ymchwiliad ffurfiol;
- Dyrannu cyfrifoldeb ymchwilio i'r adran berthnasol neu swyddog priodol, gan gadw mewn cof yr angen i flaenoriaethu materion canu'r gloch;
- Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r sawl sydd wedi codi'r pryder rhag unrhyw ddial neu anfantais.
- Sicrhau fod yna gytuno ar drefniadau cyswllt gyda'r sawl sydd wedi codi'r pryder, a bod hynny yn cael ei weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- Cadarnhau pwynt cyswllt dynodedig i'r unigolyn sydd wedi gwneud datgeliad.

22.6.2.3 Bydd y Grŵp yn cynnwys rhai neu'r cyfan o'r swyddogion canlynol, gyda hynny yn dibynnu ar union natur y pryder.

- Prif Weithredwr;
- Swyddog Monitro;
- Cyfarwyddwyr Corfforaethol;
- Pennaeth Adran Perthnasol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Cyfreithiol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

22.6.2.4 Ni fydd unrhyw aelod o'r Grŵp yn cymryd rhan os yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r mater dan sylw.

22.7 Sut bydd y Cyngor yn ymateb

22.7.1 Pan dderbynnir datgeliad o bryder, bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn y datgeliad o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb hwn yn cynnwys:

- cadarnhad bod y datgeliad wedi'i dderbyn; a
- disgrifiad byr o'r camau nesaf yn y broses asesu neu ymchwilio.

22.7.2 Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol i egluro'r datgeliad neu i helpu gyda'r asesiad cychwynnol, bydd y swyddog perthnasol yn cysylltu â'r sawl sydd wedi codi'r pryder cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

22.7.3 Mae'r ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu yn dibynnu ar natur y pryder. Lle bo hynny'n briodol, gall y materion a godir gael:

- eu hymchwilio'n fewnol gan reolwyr, archwilwyr mewnol neu trwy bolisi neu weithdrefn arall sydd gan y Cyngor
- gael eu cyfeirio i brosesau statudol megis trefniadau amddiffyn plant
- gael eu cyfeirio at yr heddlu;
- gael eu cyfeirio i asiantaethau gorfodi allanol megis yr HSE
- gael eu cyfeirio at yr archwiliwr allanol;
- fynd i ymchwiliad annibynnol.

22.7.4 Er mwyn amddiffyn unigolion a'r rheini sy'n cael eu cyhuddo o gamweddau neu gamymarfer posibl, gwneir ymholiadau i gychwyn i benderfynu a yw'n briodol cynnal ymchwiliad, ac os felly, sut ymchwiliad.

22.7.5 Gellir datrys rhai pryderon trwy gytuno ar ba gamau i'w cymryd heb fod angen cynnal ymchwiliad. Os oes angen cymryd camau brys, gwneir hynny cyn cynnal unrhyw ymchwiliad.

22.7.6 Byddwn yn ymrwymo i gwblhau asesiad cychwynnol (hynny yw, asesiad gan y Grŵp Ymateb) o'r pryder o fewn 10 diwrnod gwaith o'i dderbyn (lle bo'n ymarferol), er mwyn penderfynu:

- a oes yna angen ymchwiliad ffurfiol,
- pa weithdrefn sy'n berthnasol, a
- pwy fydd yn gyfrifol ar yr ymchwiliad

22.7.7 Bydd y sawl a gododd y pryder yn cael gwybod pan fydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau a pha gamau nesaf fydd yn cael eu cymryd gan gydnabod fod y wybodaeth y gellir ei rannu yn ddibynnol ar y cyd destun a gofynion cyfreithiol. Os yn bosibl, byddwn yn pob tro yn ymrwymo i ddiweddarau yr unigolyn sy'n gwneud datgeliad (yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith).

- 22.7.8 Os y bu cyfarfod yn cael ei drefnu, bydd gan y gweithiwr sy'n codi'r pryder hawl i ddod â chynrychiolydd undeb gydag ef, neu gydweithiwr nad yw'n gysylltiedig â'r maes gwaith y mae a wnelo'r pryder ag ef. Eto, nid oes pob tro posibilrwydd o drefnu cyfarfod, ac mae ymateb a gweithred yn medru amrywio yn ddibynnol ar gyfyngiadau'r gyfraith.
- 22.7.9 Bydd y Cyngor yn ceisio rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r sawl sydd wedi codi'r pryder, yn unol â gofynion cyfrinachedd a chyfreithiau diogelu data. Fodd bynnag ni ellir gwarantu y bydd modd darparu cynnydd ym mhob achlysur, Fel arfer, bydd diweddariadau'n cael eu darparu:
- pan fydd yr ymchwiliad wedi dechrau'n ffurfiol,
 - pan fydd cam pwysig wedi'i gwblhau (e.e. cyfweiliadau neu gasglu tystiolaeth), ac
 - ar ddiwedd yr ymchwiliad, pan fydd penderfyniad neu ganlyniad wedi'i wneud.
- 22.7.10 Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd y sawl a gododd y pryder yn cael hysbysiad terfynol yn nodi bod y broses wedi dod i ben ac, lle bo hynny'n briodol, crynodeb cyffredinol o'r canlyniad (yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith).
- 22.7.11 Bydd y Cyngor yn prosesu unrhyw ddata personol a gesglir yn ystod y broses hon yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a GDPR.

22.8 RHWYSTRO DIAL, ERLID NEU AFLONYDDU

- 22.8.1 Mae'n ddealladwy bod chwythwyr chwiban weithiau yn poeni am effeithiau posibl. Ein nod yw annog rhannu gwybodaeth yn agored a byddwn yn cefnogi staff sy'n codi pryderon gwirioneddol o dan y polisi hwn, hyd yn oed os ydynt yn troi allan i fod yn anghywir.
- 22.8.2 Mae gweithwyr sy'n rhannu pryderon dilys ynghylch achosion o gamymarfer wedi'u hamddiffyn rhag erlid a chael eu diswyddo dan Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ymgais ar ran gweithiwr, cynghorydd, contractwr na chyflenwr i gosbi neu greu anfantais i unigolyn sydd wedi rhannu pryder o dan y polisi hwn. Bydd ymgais o'r fath yn cael ei drin fel trosedd ddisgyblu ddifrifol.
- 22.8.3 Man gan bob chwythwr chwiban yr hawl i gysylltu'n uniongyrchol a'r Swyddogion Canu'r Gloch neu a'r Pwynt Cyswllt dynodedig os ei bod yn derbyn unrhyw adwaith negyddol, triniaeth andwyol, neu unrhyw fath o niwed o ganlyniad i'w datgeliad. Rhaid i unrhyw bryderon o'r fath cael eu hystyried yn gyfrinachol ac yn llawn tegwch, heb unrhyw ragfarn i'r unigolyn sy'n codi'r mater.

- 22.8.4 Mae llinell gymorth a chwnsela gyfrinachol ar gael i chwythwyr chwiban sy'n codi pryderon o dan y polisi hwn. Mae eu manylion cyswllt wedi'u nodi ar ddiwedd y polisi hwn.

22.9 CYFRINACHEDD

- 22.9.1 Mae'r Cyngor yn annog pob gweithiwr sy'n rhannu pryder dan y polisi hwn i roi'i enw wrth y gŵyn gan fod honiadau dienw yn llawer gwannach ac yn gallu rhwystro canlyniad unrhyw ymchwiliad.
- 22.9.2 Os cyfyd sefyllfa lle nad yw'n bosibl datrys y mater heb ddatgelu enw'r gweithiwr a rannodd y pryder, e.e. os bydd angen iddo roi tystiolaeth mewn llys, bydd y swyddogion priodol yn trafod gyda'r gweithiwr pa un a ddylid mynd ymlaen â'r achos ai peidio â sut y gellid gwneud hynny.
- 22.9.3 Nid ydym yn annog staff i wneud datgeliadau yn ddiennw, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i ddatgeliadau dienw. Dylech fod yn ymwybodol y gall ymchwiliad priodol fod yn anoddach neu'n amhosibl os na allwn gael rhagor o wybodaeth gennych. Mae hefyd yn anoddach sefydlu a yw unrhyw honiadau'n gredadwy.
- 22.9.4 Ni ddylai cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth pan fo risg i ddiogelwch, trosedd, camymddwyn difrifol yn hysbys neu'n debygol, neu pan fo gofyniad statudol i wneud hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn briodol ac ymateb yn brydlon er mwyn diogelu unigolion a'r cyhoedd.
- 22.9.5 Mae'n rhaid i ymarferwyr gan gynnwys cyflogaion, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol fod yn ymwybodol na allant fod yn anhysbys wrth wneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac eithrio pan fyddai hynny'n golygu y byddan nhw eu hunain sy'n wynebu risg. Yn yr achos hwn dylid trafod eu pryder amdany'n nhw eu hunain gael ei drafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.
- 22.9.6 Dylai chwythwyr chwiban sy'n pryderu am ddial posibl os datgelir eu hunaniaeth ddod ymlaen i'r Swyddogion Canu'r Gloch neu eich pwynt cyswllt dynodedig gan y Grŵp Ymateb a gellir cymryd mesurau priodol wedyn i gadw cyfrinachedd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gallwch ofyn am gyngor gan Protect, yr elusen canu'r gloch annibynnol, sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol. Mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

22.10 HONIADAU FFUG A MALEISUS

- 22.10.1 Os bydd gweithiwr yn rhannu pryder dilys ond nad yw'r ymchwiliad yn ei gadarnhau, ni fydd camau yn cael eu cymryd yn ei erbyn. Fodd bynnag, os bydd gweithiwr yn fwriadol yn gwneud honiadau ffug neu faleisus dan y polisi hwn, bydd yr ymddygiad yn cael ei ystyried fel trosedd ddisgyblu ddifrifol.

22.11 SUT Y GELLIR MYND A'R MATER YMHELLACH

- 22.11.1 Os yw'r gweithiwr a rannodd y pryder yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cwblhau'r broses fewnol, neu os nad yw'n teimlo ei bod yn briodol i godi'r mater o fewn y Cyngor, gall y gweithiwr wneud datgeliad allanol mewn ffordd ddiogel a chyfreithiol.
- 22.11.2 Bydd y Cyngor yn parchu hawl unrhyw weithiwr i wneud datgeliad allanol ac yn sicrhau nad yw'r weithred o wneud hynny, os yw'n cael ei wneud yn unol â Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998, yn arwain at unrhyw ddial, aflonyddu nac anfantais i'r unigolyn dan sylw.

22.12 DATGELU ALLANOL

- 22.12.1 Disgwylir i unrhyw bryderon gael eu rhannu o fewn y Cyngor yn y lle cyntaf. Ond gall fod achosion lle nad yw gweithiwr yn teimlo y gall drafod y mater yn fewnol neu lle nad yw'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, ar yr amod fod y gweithiwr yn gweithredu'n ddidwyll a'i fod yn gallu dangos bod sail resymol a digonol dros ei bryderon, gall godi'r mater yn allanol trwy gysylltu â'r cyrff isod:
- Protect – www.protect-advice.org.uk
 - Ombwdsmon Llywodraeth Lleol
 - Undeb Llafur
 - Cyrff Proffesiynol neu fudiadau rheolaethol perthnasol
 - Yr Heddlu
- 22.12.2 Dylai gweithiwr sy'n penderfynu codi pryder yn allanol sicrhau nad yw'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol i rywun sydd heb hawl iddi.

22.13 Y SWYDDOG SY'N GYFFIROL

- 22.13.1 Gan y Prif Weithredwr y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a gweithredu'r polisi hwn a darparu sicrwydd ynglŷn a'i weithrediad.
- 22.13.2 Mae gan y Swyddogion Canu'r Gloch gyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd am y polisi hwn a dylech gyfeirio unrhyw gwestiynau am y polisi hwn atynt yn y lle cyntaf. Rhaid Swyddogion Canu'r Gloch sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd a phriodol yn cael ei ddarparu i'r holl reolwyr a staff eraill a allai ddelio â phryderon neu ymchwiliadau o dan y polisi hwn.

DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998
- Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Cod Ymarfer ACAS

CWNSELA / CEFNOGAETH

I gyfeirio eich hun am gwnsela:

Rhif Ffon: 01286 679329

Ebost: iechydgalwedigaethol@gwynedd.llyw.cymru

Mewn argyfwng ble mae staff yn dymuno cefnogaeth/cyngor brys tu allan i oriau arferol y Cyngor, mae modd cysylltu a MEDRA yn uniongyrchol ar 0800 132 737 ac bydd aelod o'r tîm yn gallu eich cynorthwyo neu eich cyfeirio ymlaen i asiantaethau priodol.

NODYN CANLLAW

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pobl godi pryderon nad ydynt yn dod o dan y diffiniad ffurfiol o chwythu'r chwiban. Gall hyn gynnwys pryderon a godir gan bobl nad ydynt yn aelodau o staff.

Bydd y Cyngor yn ymdrin â'r pryderon hyn yn ofalus ac yn deg, gyda'r un gofal ag y mae'n trin pryderon chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd yr un dyletswyddau na'r un amddiffyniadau cyfreithiol yn berthnasol ym mhob achos.

Aelodau

Dylech godi eich pryder gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Monitro. Os yw'r pryder yn ymwneud â Phennaeth Adran neu'r Swyddog Monitro, gallwch gysylltu gyda'r Prif Weithredwr.

Llywodraethwyr Ysgol

Fel arfer, dylech godi eich pryder drwy drefniadau llywodraethu'r ysgol, er enghraifft gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu neu'r Pennaeth Ysgol. Os nad yw hyn yn briodol, neu os yw'r pryder yn ymwneud â'r Cadeirydd neu'r Pennaeth, gallwch gysylltu â swyddog perthnasol y Cyngor, megis Pennaeth Gwasanaeth Addysg, y Swyddog Monitro neu'r Rheolwr Archwilio.

Partneriaid

Fel arfer, dylech godi eich pryder gyda'ch rheolwr contract neu brosiect. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio.

Y Cyhoedd

Fel arfer, dylech ddefnyddio proses gwyno'r Cyngor. Gallwch hefyd gysylltu â'r Cyngor i ofyn am fanylion cyswllt y Prif Swyddog Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio, ac yna cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod am eich pryder i'r Cyngor, gallwch ei gyfeirio at y corff allanol perthnasol. Os ydych wedi cwyno wrthym ac yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch gyfeirio eich cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Proses Canu Gloch

Datgeliad ar:

- twyll neu gamddefnyddio arian cyhoeddus
- camdriniaeth neu esgeulustod tuag at gwsmeriaid neu gleientiaid
- llygredd neu gamddefnyddio awdurdod
- perygl i iechyd a diogelwch
- cuddio gwybodaeth bwysig neu gamymarfer

Pryder diogelu?

Pennaeth Adran/Cyfarwyddwr
Corfforaethol/ Prif
Weithredwr/Swyddog Monitro

Rheolwr
llinell/neu uwch
reolwr

Pennaeth Gwasanaethau
Corfforaethol/Pennaeth
Gwasanaethau Cyfreithiol

Pryder Twyll?

Proses diogelu
plant/oedolion

e-bost: canugloch@gwynedd.llyw.cymru

Trefn delio a
pryder twyll

Grŵp Ymateb Canu'r Gloch
Cael ei alw gan: Pennaeth Gwasanaethau Cefnogol/Swyddog
Monitro
Aelodaeth: Dibynol ar natur y datgeliad

Cadarnhau bod
proses/ymchwiliad
diogelu
plant/oedolion –
trefn arferol

Cadarnhau
dilyn trefn
delio a
pryder twyll

Nid yw datgeliad yn disgyn o dan
Polisi Canu Gloch – cadarnhau sefyllfa
gyda'r sawl a rannodd y pryder.

Datgeliad yn disgyn o dan Polisi Canu
Gloch – Natur yr ymchwiliad yn
ddibynol ar y datgeliad

Cynnal ymchwiliad – adrodd
canfyddiad yn ddibynol ar beth sy'n
bosib i'r sawl gododd y datgeliad

Pwynt cyswllt dynodedig i
gefynogi'r chwythwr chwiban
–cadarnhau cynnal
ymchwiliad a diweddaru ar
gynnydd os yn briodol.

Cofnodi canlyniad yn ganolog - gwersi
i'w ddysgu

Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Asesiad Polisi a threfniadau Canu'r Gloch

Awdur: Eurig Huw Williams (GC)

Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol

Dyddiad: 1/8/2026

Fersiwn: Fersiwn Ionawr 2026

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Nod y polisi ydi sicrhau fod yna drefniadau cadarn yn eu lle i alluogi staff, contractwyr a chyflenwyr ar eiddo'r Cyngor i adrodd am bryderon sydd ganddynt am gamymarfer, ymddygiad amhriodol neu weithgarwch anghyfreithlon o fewn y Cyngor, ac i roi arweiniad ar sut y bydd y

Cyngor yn ymateb i bryderon o'r fath. Mae'r adolygiad o'r polisi wedi canolbwyntio ar greu trefniadau cadarn sydd yn cyfarch dyletswyddau statudol y Cyngor ac yn gwarchod gweithwyr o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Mae'r polisi yn berthnasol i holl staff y Cyngor, i gontractwyr, ac i gyflenwyr ar eiddo'r Cyngor. Mae'r polisi hefyd yn cyfeirio at y trefniant penodol pellach sydd yn ei le i alluogi aelodau etholedig i rannu pryderon. Ymgynghorwyd â grwp o swyddogion i gynnwys y meysydd gwaith cyfreithiol, adnoddau dynol, a chyllid, yr undebau llafur ar ran staff y Cyngor, yn ogystal â'r Bwrdd Ymateb i Droseddu.

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Mae adolygu'r polisi canu'r gloch a'r trefniadau cysylltiedig yn dasg benodol o fewn Cynllun Ymateb i Droseddau'r Cyngor. Ymgynghorwyd â grwp o swyddogion i gynnwys y meysydd gwaith cyfreithiol,	2025/26	Mae'r Cynllun Ymateb i Droseddau yn deillio o'r digwyddiadau a arweiniodd at gasgliadau'r Adolygiad i Ymarfer diweddar, a oedd yn amlygu yr angen i gryfhau trefniadau canu'r gloch ymysg staff, gan gynnwys staff ysgolion.

adnoddau dynol, a chyllid, yr undebau llafur ar ran staff y Cyngor, yn ogystal â'r Bwrdd Ymateb i Droseddu.		
Adroddiad Archwilio Mewnol	2024/25	Nododd yr archwiliad fod yna angen gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd mewn perthynas â chanu'r gloch.	Mae'r polisi a'r trefniadau cysylltiedig yn cynnig llwybrau gwahanol i bobl gysylltu â swyddogion y Cyngor i rannu pryderon, a'r disgwyliad ydi y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r llwybrau hynny yn cynnwys y dewis i gysylltu gydag amrediad o swyddogion, yn ogystal â chyfeiriad e-bost cyfrinachol. Yn ogystal, bydd modd i bobl gysylltu ag elusen sydd yn annibynnol o'r Cyngor ac sydd yn arbenigo yn y maes.
Anabledd	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd mewn perthynas â chanu'r gloch.	Mae angen sicrhau fod gan bawb yr hyder i allu rhannu gwybodaeth am bryderon, ac un ffordd o wneud hynny ydi sicrhau fod yna sawl dull gwahanol ar gael, sydd yn diwallu anghenion cydraddoldeb pob un. Mae yna wahanol lwybrau a dulliau cyfathrebu yn eu lle i alluogi pobl i wneud hynny (mae mwy o wybodaeth yn

		y polisi), ac nid oes rheidrwydd er enghraifft ar bawb i rannu pryderon yn ysgrifenedig. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol.
Rhyw	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd mewn perthynas â chanu'r gloch.	Mae angen bod yn fyw i sensitifrwydd materion, ac mae'r gwahanol ddulliau sydd ar gael i staff i rannu pryderon yn gam cadarnhaol i roi'r hyder i bobl y gallan nhw rannu gwybodaeth mewn pob math o amgylchiadau. Er enghraifft, cydnabyddir na fyddai aelodau staff yn dymuno rhannu pryder gyda rheolwr llinell o ryw gwahanol a bod yna felly wahanol opsiynau ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd.
Oedran	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd mewn perthynas â chanu'r gloch.	Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon.
Crefydd a Chred	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd.	Gallai merched o rai crefyddau efallai ei chael yn anodd siarad gyda rhai rheolwyr am faterion canu gloch, yn arbennig o safbwynt materion personol. Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd.	Gallai rhai pobl deimlo'n anghyfforddus wrth geisio siarad am rai materion gyda rhai pobl e.e. mewn amgylchiadau o aflonyddu. Disgwylir y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol.
Ail-bennu rhywedd	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd.	Mae angen bod yn fyw i'r posibilrwydd y gallai pobl deimlo'n anghyfforddus ac yn fregus wrth drafod materion personol iawn gydag eraill, er enghraifft gyda rheolwr llinell yn uniongyrchol. Gallai'r polisi gael

		effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim tystiolaeth neu wybodaeth benodol ynghylch y nodwedd.	Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Gallai merched yn benodol deimlo'n anghyfforddus ac yn fregus wrth godi pryderon ag eraill e.e. os oes yna honiadau o aflonyddu rhywiol.	Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon.
Iaith Gymraeg	Rydym eisoes yn sicrhau fod bod posib i bobl rannu pryderon trwy'r Gymraeg.	Bydd posib i bobl rannu pryderon trwy wahanol lwybrau o dan y polisi a'i drefniadau, a hynny yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg pe dymunir.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Dim i'w ychwanegu.	Dim i'w ychwanegu.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Dim tystiolaeth wedi ei adnabod.	Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon.
Hawliau Dynol	Gellir defnyddio'r polisi i sicrhau fod hawliau dynol yn cael eu parchu a'u gwarchod e.e. er mwyn adrodd am driniaeth ddiraddiol, yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd, a'r hawl i warchodaeth rhag gwahaniaethau.	Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon. Mae'r polisi yn ymwneud yn benodol â rhoi'r sicrwydd y gellir rhannu gwybodaeth am bryderon heb oddef erledigaeth wedyn yn deillio o fod wedi gwneud hynny.
Arall	Mae'r polisi yn ymwneud yn benodol â rhoi sicrwydd i bobl y gellir adrodd am ymddygiad anghyfreithlon, am gamymarfer neu ymddygiad anghyfreithlon o fewn y Cyngor,	Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon. Bydd y polisi a'i drefniadau, yn ogystal â'r rhaglen godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant sydd i ddilyn, yn cryfhau

	gan gynnwys materion yn ymwneud â diogelu.	gwybodaeth pawb sydd yn gweithio i'r Cyngor am bwysigrwydd y canu'r gloch, ac yn cyfrannu tuag at roi sicrwydd a hyder fod gallu'r Cyngor i ymateb yn gwella. Bydd y gwaith o godi ymwybyddiaeth yn sicrhau fod yna fersiynau hwylus o'r polisi a'r canllawiau yn cael eu creu e.e. Cymraeg clir.
--	--	---

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Dim digon o ddata am achosion canu'r gloch. Bydd yr elfen hon yn cael ei chryfhau o fabwysiadu'r polisi, trwy gasglu gwybodaeth am achosion canu'r gloch penodol a fydd yn cael eu hadrodd o dan drefniadau'r polisi. Bydd unrhyw brosesau casglu gwybodaeth am faterion sensitif o'r fath yn cyfarch y gofynion angenrheidiol o ran rheoli gwybodaeth.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Pwrrpas y polisi ydi cryfhau hawliau pawb sydd yn ystyried canu'r gloch, a sicrhau fod ganddynt yr hyder i rannu gwybodaeth heb orfod poeni am oddef erledigaeth.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Holl bwrpas y polisi ydi rhoi trefniadau yn eu lle sydd yn gwella ffydd a hyder pobl mewn dulliau canu'r gloch, ac yn cynyddu hyder pobl yn sut yr ymdrinnir â materion o'r fath. Mae canu'r gloch yn ymwneud yn benodol â sicrhau nad ydi pobl sydd yn rhannu pryderon gyda'r Cyngor yn dioddef unrhyw erledigaeth o fod wedi gwneud hynny. Mae hyn i gyd yn gydnaws â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus ac yn ceisio rhoi cyfleoedd cyfartal i bawb rannu gwybodaeth mewn dull y mae nhw yn gyfforddus ag o.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Effaith gadarnhaol bosib trwy sicrhau fod yna nifer o wahanol lwybrau ar gael i bobl rannu pryderon.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r polisi yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gyflwyno pryderon yn eu dewis iaith, yn unol â chynllun iaith y Cyngor.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Mae'r polisi yn ymwneud â sicrhau fod pryderon pawb yn cael eu parchu a'u hystyried o ddifri, a bod y Cyngor yn ymddwyn mewn modd cyfrifol bob amser.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

I2. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan contractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Ddim yn berthnasol

Partneriaeth:

Ddim yn berthnasol

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

I3. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Effaith gadarnhaol o safbwynt cryfhau trefniadau canu'r gloch y Cyngor, a meithrin hyder a ffydd trigolion y trethdalwyr o ran sut y bydd y Cyngor yn ymateb i bryderon.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Dim wedi eu hadnabod.

I4. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

NA

I5. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Dim yn berthnasol

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Dim yn berthnasol

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Dim sylw ar hyn o bryd, ond bydd monitro ar y polisi o'i fabwysiadu.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Dim sylw ar hyn o bryd ond bydd monitro ar y polisi o'i fabwysiadu.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Dim sylw ar hyn o bryd ond bydd monitro ar y polisi o'i fabwysiadu.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
O fewn y fframweithiau deddfwriaethol perthnasol, casglu gwybodaeth am achosion canu'r gloch.	2026 /27	Blynnyddol	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Adolygu gweithrediad y polisi.	Blynnyddol	Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gorfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Na

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2025
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	20 Ionawr 2026

Crynodeb

- Mae chwech o adrannau'r Cyngor yn gorwario gyda gorwariant yn parhau yn y maes gofal cartref a gofal preswyl, lleoliadau all-sirol plant, gwasanaeth Derwen, Ôl-16 a gwastraff.
- Cynnydd yn rhagolygon gorwariant adrannau'r Cyngor, gyda rhagolygon fod yr adrannau yn gorwario £6.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn Adolygiad Tachwedd, o'i gymharu â rhagolygon o £6.3 miliwn ar ddiwedd Awst.
- Rhagolygon sefyllfa ariannol y Cyngor yn ei gyfanrwydd wedi gwella ers Adolygiad Awst oedd yn rhagweld diffyg cyllidebol o £2.5 miliwn, ond sydd wedi lleihau i £2.3 miliwn o ddiffyg yn Adolygiad Tachwedd.
- Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru, lleihad mewn costau cyfalaf cyffredinol a sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

1. Penderfyniad a geisir

Fod y Cabinet yn:

- 1.1** Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n lach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n lach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar sail yr adolygiad presennol, amcangyfrifir mai gwerth y gefnogaeth fydd £295k.
- 1.2** Cymeradwyo trosglwyddiad o £3.365 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol, i'w ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r gorwariant a wynebwr gan yr adrannau.
- 1.3** Cymeradwyo'r trosglwyddiad ariannol fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o Breimiwm Treth Cyngor 2024/25, gyda throsglwyddiad gwerth £2.089 miliwn o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

- 2.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi tafluniad o'n sefyllfa refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly mae'r symiau a nodir isod yn amcan o'r hyn a ragwelwn erbyn Mawrth 2026 ac nid symiau sy'n cynrychioli gorwariant heddiw.
- 2.2** Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

- 3.1** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adolygiad diwedd Tachwedd 2025 o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2025/26, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd gan chwech o'r adrannau ddiffyg cyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y prif ddiffyg yn:
- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref
 - Adran Plant a Theuluoedd – lleoliadau all-sirol, Derwen ac Ôl-16
 - Adran Amgylchedd – Gwastraff
 - Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC – priffyrdd a bwrdeistrefol
 - Adran Tai ac Eiddo - Digartrefedd
- 3.2** Isod, ac yn **Atodiad 2**, rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau ble rhagwelir diffyg cyllideb, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Sefyllfa Arbedion

- 4.1** Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.
- 4.2** Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

- 4.3** Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod bron i £47 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Ceir sefyllfa gymysg ar gyfer cyllideb 2025/26 gyda gwerth dros £3 miliwn o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r Adran tra bod y gyllideb ar yr un pryd wedi ei lleihau gan doriadau o dros £1m eleni ynghyd â £500k o arbedion hanesyddol dynnwyd o'r gyllideb ond na wireddwyd hyd yn hyn (cyfanswm arbedion o £1.5m). Awgryma'r rhagolygon diweddaraf os na fydd newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn y bydd diffyg cyllidebol o £3.06m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cynyddodd y galw am wasanaethau gofal preswyl gyda 46 preswilydd ychwanegol mewn cartrefi preifat, yn rhannol oherwydd heriau staffio yng nghartrefi preswyl y Cyngor sydd wedi arwain at leihad yn y gwelyau sydd ar gael, gan gynyddu'r costau'n sylweddol. Bu cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer (14 ers Tachwedd 2024) o unigolion sydd angen gofal preswyl oherwydd materion iechyd meddwl ac mae hynny'n ychwanegu at y galw.

Mae'r ddarpariaeth gofal cartref yn costio uwchlaw'r gyllideb a hynny yn dangos costau ychwanegol ynghlwm ag ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael. Gwelodd y gwasanaeth gofal cartref mewnol gostau ychwanegol yn sgil cynnydd yn y cyfraddau salwch. Mae'r Adran yn ymrwymedig i leihau'r costau hyn, a'r gorrariant yn sgil hynny, yn ystod y flwyddyn hon.

5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd cynnydd o £2.175 miliwn yng nghyllideb yr Adran ar gyfer 2025/26. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr unigolion sydd angen gofal arbenigol tu allan i'r sir a'r gofal hwnnw yn gostus. Gwelwyd cynnydd yn y ddarpariaeth am ofal i blant ag anableddau yn y sir drwy wasanaethau Derwen a Hafan y Sêr. Rhagwelir y bydd diffyg cyllidebol o oddeutu £1.8 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol os na fydd newid yn yr hyn a ddarperir yn ystod y flwyddyn.

5.3 Adran Addysg

Rhagwelir tanwariant o (£15k) gan yr Adran Addysg. Yn dilyn gorrariant sylweddol ar y maes cludiant ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu gwelliant yn y darlun maes cludiant ac felly mae modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £587k yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf.

5.4 Byw'n lach

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n lach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2025/26 gyda'r swm gofynnol wedi cynyddu i £295k erbyn diwedd y flwyddyn.

5.5 Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC

Rhagwelir diffyg cyllidebol o £492k gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm y gwasanaethau priffyrdd. Mae'r adran yn ddarbodus wrth geisio rhagamcanu gwariant fydd yn codi wrth ymateb i stormydd a thywydd garw. Mae gwariant ar ymateb tywydd garw yn rhan o weithredu blynyddol yr Adran ac er yr ymgeisir i ymdopi gyda'r gwariant drwy waith rhaglunedig, mae'r costau cysylltiedig wedi bod uwchlaw'r gyllideb dros y dair mlynedd diwethaf. Yn y Gwasanaeth Bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Mae arbedion nad ydynt yn gwireddu yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant.

5.6 Adran Amgylchedd

Rhagwelir diffyg cyllidebol o oddeutu £685K erbyn diwedd y flwyddyn, gyda'r tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £617k o'r gorwariant adrannol. Mae sawl cynllun ar y gweill gan yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r gorwariant hwn. Ar un adeg roedd y gorwariant yn £1.4 miliwn felly mae llawer wedi ei gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er mwyn gwneud y cam olaf dros y flwyddyn nesaf bydd angen cwblhau ail strwythuro'r Gwasanaeth gwastraff a'r newidiadau gweithredol pellach. Mae arbedion nad ydynt yn gwireddu yn cyfrannu at sefyllfa gorwariant yr adran.

Derbyniwyd £3.7 miliwn o incwm newydd sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu gan y cwmnïau sy'n creu'r gwastraff hwn. Am eleni, bydd rhaid defnyddio cyfran gyntaf yr incwm hwn ar gyfer cyfarch unrhyw ddiffyg yng nghyllideb refeniw'r gwasanaeth gwastraff cyn trosglwyddo'r gweddill i gronfa am y tro.

Bu i Gabinet 16 Rhagfyr 2025 gymeradwyo cyllid o £1.5 miliwn o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i gyllido'r costau yn deillio o ddiogelu a dymchwel adeilad Gwesty'r Corbett Arms yn Nhywyn. Mae'r adeilad rhestredig Gradd II wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd gan ei fod mewn cyflwr strwythurol

peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd.

5.7 Adran Tai ac Eiddo

Mae'r tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.6 miliwn eleni, hyn i gymharu â £6 miliwn y llynedd. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd cyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol. Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn gorwario £248k, sydd yn gyfuniad o gostau uwch ar gyfer symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng a phris y noson ar gyfer llety argyfwng yn parhau i fod yn uchel gan rai darparwyr.

5.8 Corfforaethol

Tanwariant o £4.2 miliwn ar benawdau corfforaethol o ganlyniad i gynnyrch treth ychwanegol a rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2025/26. Lleihad mewn costau cyfalaf cyffredinol yn dilyn ad-dalu benthyciad hanesyddol a gan na fu raid benthycia yn allanol. Y sefyllfa hefyd yn ffafriol yn dilyn derbyniad grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cyflogau sector gyhoeddus, rhagolygon llogau uwch ynghyd â rhyddhau arian bidiau.

5.9 Cronfeydd

Mae **Atodiad 3** yn amlinellu adolygiad o gronfeydd. Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25, adolygwyd incwm treth cyngor a'r premiwm sydd yn deillio o'r dreth ar ail gartrefi ac eiddo gwag ar gyfer 2024/25. Y canlyniad yw bod £2.089 miliwn sy'n berthnasol i Breimiwm Treth Cyngor i'w drosglwyddo o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor. Mae £1.761 miliwn o'r swm yma yn gysylltiedig â chwyddiant a £328k ar gyfer y gweddill sydd yn berthnasol i'r Premiwm 2024/25.

6. Casgliad

- 6.1 Rhagwelir sefyllfa o wario £2.3 miliwn yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael, er mwyn gallu parhau i gyfarfod y galw cynyddol am wasanaethau am weddill y flwyddyn ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ddiffyg cyllidebol o £6.5 miliwn gan yr adrannau, gyda'r effaith yn cael ei liniaru gan danwariant tebygol o £4.2 miliwn ar gyllidebau corfforaethol, gyda gwerth £3.4 miliwn ohono ar gael i gynorthwyo gyda sefyllfa ariannol gweddill y cyngor.

7. Camau nesaf ac amserlen

- 7.1** Cyflwynir adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r Cabinet yn mis Mai 2026.

8. Sylwadau Swyddogion Statudol

8.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

8.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adolygiad o Gronfeydd

Cyllideb Refeniw 2025/26 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Tachwedd				
	Cyllideb Arfaethedig 2025/26 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26 £'000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2025/26 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26 £ '000
Oedolion, lechyd a Llesiant	84,292	3,062	0	3,062	3,133
Plant a Theuluoedd	26,554	1,856	0	1,856	1,561
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	3,163	(144)	0	(144)	(93)
Addysg	125,369	(15)	0	(15)	(20)
Economi a Chymuned	6,449	346	(295)	51	77
Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	19,096	492	0	492	522
Amgylchedd	18,980	685	0	685	740
Tai ac Eiddo	12,400	248	0	248	167
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,950	(14)	0	(14)	(21)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,513	(6)	0	(6)	(6)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,346	(13)	0	(13)	(8)
Cyllidebau Corfforaethol (Gwahaniaethau yn unig)	*	(4,236)	3,365	(871)	0
Cyfansymiau (net)	326,458	2,261	3,070	5,331	6,052

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Rheolaeth	598	563	(35)		(35)	(62)
Anabledd Dysgu	31,281	31,480	199		199	189
Iechyd Meddwl	6,076	6,683	607		607	560
Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	24,516	25,456	940		940	912
Gofal Cartref	11,700	12,974	1,274		1,274	1,558
Anabledd Corff	3,653	2,583	(1,070)		(1,070)	(1,072)
Taliadau Uniongyrchol	2,194	2,122	(72)		(72)	(183)
Eraill	3,058	3,267	209		209	90
	45,121	46,402	1,281	0	1,281	1,305
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	83,076	85,128	2,052	0	2,052	1,992
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	68	979	911		911	1,047
Gofal Cartref	1,147	1,240	93		93	104
Eraill	1	7	6		6	(10)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	1,216	2,226	1,010	0	1,010	1,141
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	84,292	87,354	3,062	0	3,062	3,133

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.1 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf pe na fyddai newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn hon y byddai diffyg cyllidebol o £3.06 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth yr Adran - trosiant staff a thanwariant ar y gyllideb gyfreithiol, costau un tro yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

Anabledd Dysgu - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £400k yn 2025/26, nid yw'r cynlluniau arbedion newydd gwerth £735k yn cael eu gwireddu ac felly yn cyfrannu at y gorwariant. Mae pwysau ar wasanaethau dydd, cynlluniau cefnogol ac ar y gwasanaeth preswyl yng nghartrefi'r Cyngor. Mae'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

Iechyd Meddwl - dyrannwyd £177k o arian ychwanegol i'r maes yn 2025/26, rhagwelir diffyg cyllidebol o £731k ar yr elfen breswyl a nyrsio yn dilyn cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer gydag un ar ddeg o achosion newydd yn ystod blwyddyn ariannol yma (14 ers Tachwedd 2024). Mae cynlluniau cefnogol a llety cefnogol yn tanwario ac felly yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Pobl Hŷn - dyrannwyd £1.5 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r maes ar gyfer 2025/26, gyda £1.2 miliwn ohono i Ofal Cartref. Er hyn rhagwelir diffyg cyllidebol o £1.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Ym mhreswyl a nyrsio, cynyddodd y galw am wasanaethau gofal preswyl gyda 46 preswylydd ychwanegol mewn cartrefi preifat, yn rhannol oherwydd heriau staffio yn y cartrefi preswyl mewnol a arweinia at leihad yn y gwelyau sydd ar gael, gan gynyddu'r costau'n sylweddol. Yng Ngofal cartref, y costau £1.3 miliwn uwchlaw'r gyllideb o ganlyniad i gostau ychwanegol yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael. Yn y maes anabledd corff, llai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', pwysau cynyddol a chynlluniau arbedion sydd eto i'w gwireddu.

Gwasanaethau Darparu - gorwariant staff yng ngofal preswyl yn cynnwys £606k o orwariant ar ddefnydd o staff asiantaeth. Cyllideb ychwanegol o £1 miliwn wedi ei fuddsoddi yn barhaol yng ngofal cartref yn 2025/26 ac felly lleihad yn y gorwariant a adroddir eleni, serch hynny mae costau staff uwchlaw'r gyllideb yn parhau, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel.

Arbedion - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, er bod cynnydd wedi bod mewn gwireddu arbedion yn ystod y flwyddyn mae gwerth bron i £1.5 miliwn o arbedion yn parhau ar ôl i'w gwireddu.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Plant a Theuluoedd	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	708	797	89		89	117
Gweithredol	3,076	3,427	351		351	375
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	6,984	7,667	683		683	409
Cartrefi Grwpiau Bychan	142	171	29		29	12
Maethu Drwy Asiant	1,755	1,484	(271)		(271)	(232)
Maethu Mewnol	3,119	3,244	125		125	18
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	2,212	2,403	191		191	218
	14,212	14,969	757	0	757	425
Ôl-16	1,779	1,983	204		204	229
Gwasanaeth Derwen	3,662	4,195	533		533	515
Cyfiawnder Ieuenctid	276	271	(5)		(5)	(5)
Blynyddoedd Cynnar	158	(16)	(174)		(174)	(171)
Uned Datblygu'r Gweithlu	312	312	0		0	0
Eraill	2,371	2,472	101		101	76
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	26,554	28,410	1,856	0	1,856	1,561

Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £2.175 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26. Er hyn, rhagwelir y bydd diffyg cyllidebol yr adran yn £1.86 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth - costau staffio ychwanegol un tro.

Gweithredol - er bod adnodd ychwanegol parhaol gwerth £365k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae'r tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes.

Lleoliadau - er bod cynnydd yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 36.6 (34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), mae pedwar achos eithriadol mewn lleoliadau heb eu cofrestru eisoes wedi dod i ben eleni a llithriad ar ddau gynllun arall fydd wedi dod i ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd saith lleoliad newydd ers dechrau'r flwyddyn. £216k yw cost gyfartalog y lleoliadau.

Mae niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson â niferoedd 2024/25, ond pedwar achos maethu mewnol ers yr adolygiad diwethaf. Gwelwyd fod yr incwm gan y Swyddfa Gartref wedi lleihau ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth. Yng nghefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar y gyllideb gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

Cartrefi Grwpiau Bychan - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gydag un cartref bellach yn weithredol, yr ail erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a'r trydydd flwyddyn nesaf. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni.

Ôl-16 - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth gan gynnwys ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

Derwen - i ymateb i'r tueddiad gorwariant bu i Derwen dderbyn dyraniad adnoddau parhaol ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer cyllideb 2025/26. Serch hyn, mae'r rhagolygon gorwariant yn £533k, gyda phwysau ar weithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol.

Blynyddoedd Cynnar - trosiant staff a grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at danwariant.

Eraill - nifer o ffactorau gan gynnwys costau ychwanegol un tro, gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogaeth a Chomisiynu	1,328	1,246	(82)		(82)	0
Incwm a Chyllid	1,556	1,518	(38)		(38)	(64)
Gwasanaethau Ataliol	279	255	(24)		(24)	(29)
Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	3,163	3,019	(144)	0	(144)	(93)

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Cefnogaeth a Chomisiynu - arbediad o ganlyniad i benderfyniad ar y cyd ar lefel gogledd Cymru i gwtogi lefel cyfraniad i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ychwanegol i hyn, defnydd o grantiau amrywiol yn erbyn costau ac felly yn gwella'r rhagolygon ariannol.

Incwm a Chyllid - tanwariant ar gostau staff ac o ganlyniad i dderbyniad grant tuag at amser staff ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Am gyfnod bydd dwy system wybodaeth gofal yn cyd-redeg.

Gwasanaeth Ataliol - derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol yn golygu bod tanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Addysg	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,524	2,578	54		54	48
Ysgolion Datganoledig	105,240	105,240	0		0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(2,237)	(2,283)	(46)		(46)	(21)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	8,328	8,328	0		0	0
Gwasanaeth Atodol	1,108	1,035	(73)		(73)	(87)
Eraill	3,906	3,974	68		68	60
	13,342	13,337	(5)	0	(5)	(27)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,487	5,471	(16)		(16)	(28)
Gwasanaeth Ieuenctid	1,013	1,011	(2)		(2)	8
Cyfanswm Addysg	125,369	125,354	(15)	0	(15)	(20)

Addysg

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - gwariant un tro ar weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion a hefyd ar ffioedd ymgynghorwyr.

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfnod trosiannol i'r gwasanaeth newydd gyda swyddi gwag, derbyniad incwm a grantiau ychwanegol, ond fod pwysau sylweddol ar y gyllideb cyfundrefn drochi.

Cludiant - yn dilyn gorwariant sylweddol yn y maes dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf mae modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £587k, felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - rhagolygon o incwm uwch a chostau is ar gyfer arlwyfaeth yn dilyn derbyniad grant ar gyfer cinio ysgol am ddim ysgolion cynradd. Gorwariant ar gostau staff oherwydd bod salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn parhau i orwario £97k o ganlyniad i gostau staff uwch a diffyg incwm.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - costau un tro sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o drosiant staff a derbyniad grant ond pwysau ar benawdau amrywiol eraill. Mae'r amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol bellach wedi dod i ben ac yn gyfrifol am orwariant o £50k.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Economi a Chymuned	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	410	407	(3)		(3)	(4)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	653	651	(2)		(2)	0
Morwrol a Pharciau Gwledig	(128)	(93)	35		35	26
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	2,293	2,679	386	(295)	91	114
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(63)	(63)	0		0	0
Marchnata a Digwyddiadau	269	269	0		0	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,864	1,829	(35)		(35)	(25)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	1,102	1,116	14		14	15
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	49	0	(49)		(49)	(49)
Cyfanswm Economi a Chymuned	6,449	6,795	346	(295)	51	77

Economi a Chymuned

Rheolaeth - derbyniad grant yn arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

Morwrol a Pharciau Gwledig - darlun cymysg sydd yn cynnwys gwariant uwchlaw'r gyllideb o £63k yn Noc Fictoria, Caernarfon, diffyg incwm o £58k gan Traethau a gwariant un-tro ar Barc Padarn tra bod Parc Glynllifon yn tanwario (£25k) o ganlyniad i ragori ar incwm a llai o wariant ar nifer o benawdau. Gwell rhagolygon incwm a throsiant staff yn golygu bod Hafan, Pwllheli yn tanwario (£76k).

Cytundebau Byw'n lach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n lach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi cynyddu i £295k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £91k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

Llyfrgelloedd Gwynedd - yn dilyn cyfnod trosiannol o ailstrwythuro'r gwasanaeth, mae pob swydd wedi ei llenwi erbyn hyn. Derbyniad incwm yn uwch gan fod banciau yn gwneud defnydd rheolaidd o ofod yn Llyfrgell Caernarfon.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod costau staff uwchlaw'r gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn Storiol £12k ac Amgueddfa Lloyd George £12k. Llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb mewn amgueddfeydd eraill yn lleihau'r gorwariant.

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n lach os yw'r gorwariant yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu cymorth gwerth £295k.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau:						
Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	12,255	12,475	220		220	188
Peirianeg	488	460	(28)		(28)	(31)
Bwrdeistrefol	6,149	6,530	381		381	445
Ymgynghoriaeth Gwynedd	204	123	(81)		(81)	(80)
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	19,096	19,588	492	0	492	522

Priffyrdd, Peirianeg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - er y gwelwyd cynnydd mewn gwireddu arbedion yn y maes, arbedion gwerth £250k yn parhau angen eu cyflawni yn y maes Ffyrdd Sirol. Darpariaeth wedi ei wneud am gostau cynnal y gaeaf sydd wedi bod yn uchel mewn blynyddoedd blaenorol. Ymhellach i hyn, lleihad yn yr incwm gan asiantaethau allanol ar gytundebau.

Gwasanaethau Peirianeg - tanwariant ar amrywiol benawdau ynghyd â derbyniad incwm uwch.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys yr angen i wireddu arbedion gwerth £117k. Pwysau hefyd ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Yn dilyn gwaith diweddar yn yr Amlosgfa gwelwyd lleihad yn y rhagolygon incwm cysylltiedig. Tanwariant ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Tacius sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - rhagolygon o ragori ar yr incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianeg ynghyd â swyddi gwag a throsiant staff.

Arbedion - mae gwerth yr arbedion adrannol nad ydynt yn gwireddu yn £462k ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant a adroddir. Er bod llithro ar y gwireddu, bydd yr adran yn gweithredu camau pendant dros y 12 mis nesaf i gyflawni cyfran o'r arbedion.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Amgylchedd	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	783	941	158		158	161
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	745	744	(1)		(1)	67
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	349	(13)	(362)		(362)	(374)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,614)	(2,401)	213		213	206
Cludiant Integredig	2,313	2,401	88		88	70
	48	(13)	(61)	0	(61)	(98)
Marchnadoedd	8	8	0		0	(1)
Cefn Gwlad a Mynediad	772	780	8		8	7
Gwarchod y Cyhoedd	1,938	1,902	(36)		(36)	(58)
Gwastraff	14,686	15,303	617		617	662
Cyfanswm Amgylchedd	18,980	19,665	685	0	685	740
<u>Derbyniad Incwm / Grant yn 2025/26 i'w roi mewn Cronfeydd</u>						
Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer		(187)	(187)	187	0	
Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu		(3,713)	(3,713)	3,713	0	
Cyfanswm	0	(3,900)	(3,900)	3,900	0	

Amgylchedd

Rheolaeth yr Adran - oediad mewn gwireddu gwerth £150k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau cerbydau.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - er bod diffyg incwm yn faterion yn Pridiannau Tir a Rheolaeth Datblygu, y rhagolygon incwm ffioedd cynllunio bellach yn fwy ffafriol ond yn parhau yn is na'r targed. Trosiant staff a swyddi gwag yn cynorthwyo'r tanwariant ar gostau staff.

Rhagwelir costau gwerth £1.5 miliwn yn ymwneud ag adeilad peryglus sef Gwesty Corbett Arms, Tywyn, sef adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynnyddoedd gan ei fod mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Bu i Gabinet 16 Rhagfyr 2025 gymeradwyo cyllid o £1.5 miliwn o gronfa strategaeth ariannol i gyllido'r costau gan nad oes modd i'r Adran ymdopi gyda'r fath wariant yn ddi-rybudd o fewn eu cyllideb.

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, y rhagolygon incwm parcio yn well na'r diffyg o £826k a adroddwyd yn 2024/25, ond yn parhau i fod £321k yn is na'r targed. Tanwariant ar staff a chyllidebau eraill yn gwella'r sefyllfa a adroddir.

Cludiant Integredig - nid yw'r grantiau a dderbynnir i'r maes yn cyfarch yr holl gostau cynyddol contractau. Rhagolygon o danwariant ar gostau staff a chyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gostau cerbydau. Rhagolygon o ragori ar incwm yn safonau masnach ond incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedau tacsis, trwyddedau a gwarchod yr amgylchedd.

Gwastraff - er bod cyllideb ychwanegol o £400k wedi ei dyrannu ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant o £617k a ragwelir. Y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes yn parhau gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses, gyda rhai o'r camau yn llithro i 2026/27 ac felly nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i'r heriau ail-strwythuro. Gorwariant ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, ar y safleoedd gwaredu ac ar redeg y canolfannau ailgylchu. Y rhagolygon incwm o werthiant deunyddiau wedi gwella ac felly'n lleihau y gorwariant ar safleoedd trin a throsglwyddo gwastraff.

Targed Ailgylchu 2024/25 - yn dilyn i Gyngor Gwynedd gyflawni cyfradd o 65.3% ar ailgylchu ar gyfer 2024/25 sydd islaw targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru, golyga fod y Cyngor yn wynebu dirwy o £612k, sydd yn ddarostyngedig i asesiad yn erbyn gwahanol feini prawf gan y Llywodraeth. Credwn fod y risg o orfodi'r ddirwy arnom yn isel ac felly nid ydym wedi cynnwys y swm yma yn y tafluniad at ddiwedd y flwyddyn.

Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer - Arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r cyfraniad wedi ei roi mewn cronfa, gyda'r galwad cyntaf ohono i'w ddefnyddio i gyllido gorwariant yn y maes gwastraff.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Bydd rhaid defnyddio cyfran gyntaf yr incwm hwn ar gyfer cyfarch unrhyw ddiffyg gan y gwasanaeth gwastraff a'r gweddill yn cael ei roi mewn cronfa i'w flaenoriaethu.

Arbedion - mae gwerth £940k o arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu gan yr adran ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adran Tai ac Eiddo	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	785	593	(192)		(192)	(136)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	6,791	7,322	531		531	463
Tai Sector Breifat	485	455	(30)		(30)	(66)
Eraill	446	349	(97)		(97)	(99)
	7,722	8,126	404	0	404	298
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	3,882	3,893	11		11	(6)
Gofalu, Arlwygo a Glanhau	11	36	25		25	11
	3,893	3,929	36	0	36	5
Cyfanswm Tai ac Eiddo	12,400	12,648	248	0	248	167

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau staff.

Digartrefedd - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.6 miliwn eleni, sydd yn cymharu â £6 miliwn y llynedd. Mae cyllideb ychwanegol o £3 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng ynghyd â chyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol. Gwelir cyfuniad o gostau uwch ar gyfer symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng, a phrisiau'r noson ar gyfer llety argyfwng yn parhau i fod yn uchel gan rai darparwyr. Yn ychwanegol i hyn, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghostau lesu tai preifat.

Tai Sector Breifat - trosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Lleihad yn y tanwariant a adroddir ers Adolygiad Awst gan fod costau ynghlwm ag ymestyn y Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol.

Gwasanaethau Tai, Eraill - tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eiddo ynghyd â derbyniad grant.

Gwasanaethau Eiddo - tanwariant ar gostau staff ond pwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau yn Eiddo tra bod diffyg incwm yn broblem yn Difa Pla.

Gofalu, Arlwyo a Glanhau - colled incwm o ganlyniad i golli cytundeb glanhau a gorwariant ar gostau gwasanaethau a chyflenwadau.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Adrannau Canolog	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,950	2,936	(14)		(14)	(21)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,346	9,333	(13)		(13)	(8)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,513	8,507	(6)		(6)	(6)
Cyfanswm Adrannau Canolog	20,809	20,776	(33)	0	(33)	(35)

Adrannau Canolog

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - rhagori ar incwm mewn gwahanol feysydd a swydd yn wag am ran o'r flwyddyn yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir. Bydd costau amrywiol un-tro hefyd yn cael eu cyllido o fewn y sefyllfa ariannol.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o drosiant staff a denu incwm ychwanegol yn cynorthwyo'r adran i ymdopi efo'r cynnydd sylweddol yng nghostau prosesu incwm gan gwsmeriaid a thrigolion Gwynedd. Gwelir hefyd fod pwysau o ran costau meddalwedd ac ar amrywiol systemau'r adran yn dod yn fwy amlwg.

Gwasanaethau Corfforaethol - tanwariant ar gostau staff a rhagori ar incwm mewn nifer o feysydd gan gynnwys Cyfieithu, Cyswllt Cwsmer, Democratiaeth a'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd yr Argraffdy yn gorrwario £35k erbyn diwedd y flwyddyn.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(871)		(871)	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	412	(412)	0	0
Costau Cyfalaf	*	*	(1,612)	1,612	0	0
Llogau	*	*	(631)	631	0	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	0	0	0	0
Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau	*	*	(924)	924	0	0
Grant Llywodraeth Cymru tuag at gostau cyflogau	*	*	(602)	602	0	0
Eraill	*	*	(8)	8	0	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(4,236)	3,365	(871)	0

Corfforaethol

Treth Cyngor - cynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2025/26. Gwelwyd 459 eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor hyd at ddiwedd Tachwedd (692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24). Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 163 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23). O ran y premiwm, hyd at ddiwedd Tachwedd, bu lleihad o 18 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm ers dechrau'r flwyddyn, sydd yn groes i'r cynnydd o 387 a welwyd y llynedd. Yn 2025/26 mae £6 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

Fel sydd wedi ei nodi yn **Atodiad 3**, yn dilyn adolygiad diweddar o ddyraniad Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2024/25, bydd adolygiad cyffelyb o sefyllfa 2025/26 yn cael ei gynnal ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol bresennol, fel bod modd dyrannu'r dreth yn briodol.

Gostyngiadau Treth Cyngor - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd dros y pymtheg mis diwethaf o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly'r gwariant uwchlaw'r gyllideb.

Costau Cyfalaf - cyfuniad o ffactorau yn creu'r tanwariant gan gynnwys effaith ffafriol ad-dalu benthyciad hanesyddol gwerth £16 miliwn yn gynnar, nad oedd fod i aeddfedu tan 2078. Yn ychwanegol i hyn, lleihad mewn costau cyfalaf cyffredinol gan na fu raid benthycia yn allanol, felly yn osgoi'r costau cysylltiedig.

Llogau - rhagwelir y bydd llogau yn rhagori'r targed disgwylidig eleni.

Darpariaeth Arbedion - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau - yn dilyn adolygiad i bremiwm treth cyngor fel sydd wedi ei nodi yn **Atodiad 3**, ystyrir ei bod yn briodol fod gwerth £893k o fidiau parhaol i'r maes Digartrefedd bellach yn cael eu cyllido o'r premiwm, fel bod modd rhyddhau arian y Cyngor. Bu i fid nad oes defnydd llawn iddo eleni hefyd gael ei ddychwelyd.

Grant Llywodraeth Cymru tuag at gostau cyflogau - derbyniad grant yn ystod y flwyddyn tuag at gostau ychwanegol cyflogau sector gyhoeddus, bydd y grant yn dod i mewn i'r setliad gan Lywodraeth Cymru ar sail barhaol o 2026/27 ymlaen.

Argymhellir fod £3.365 miliwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, i'w ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r gorwariant a wynebwr gan yr adrannau.

Yn dilyn ymarferiad adolygiad o'r cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**, fod trosglwyddiad yn ymwneud â Phremiwm Treth Cyngor 2024/25 gwerth £2.089 miliwn yn cael ei wneud o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor i Gronfa Premiwm Treth Cyngor, sef:

- £1.761 miliwn perthnasol i chwyddiant 2024/25, 2023/24 a 2022/23
- £328k ar gyfer y gweddill sydd ar ôl o Breimiwm Treth Cyngor 2024/25.

Adolygiad o Gronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir y dylid gweithredu ar y trosglwyddiadau canlynol yn ymwneud â'r premiwm treth cyngor:

Cronfa	Swm i'w drosglwyddo £'000
Symud o:	
Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol y Cyngor	(2,089)
Symud i:	
Cronfa Premiwm Treth Cyngor	2,089
Cyfanswm	0

Dyraniad ychwanegol Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2024/25

Yn ystod 2024/25 daeth yn amlwg fod effeithiau y newidiadau ar drothwyon gosod tai hunan lety (cynyddu o 70 i 182 diwrnod) wedi arwain at eiddo yn symud rhwng dosbarthiadau treth (annomestig i ddomestig). Mae hynny wedi cael effaith ar y rhagamcanion incwm y disgwyliid eu casglu drwy'r premiwm.

Mae tanwariant ar dreth cyngor ar gyfer 2024/25 wedi ei roi yn Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol y Cyngor yn ystod 2024/25 ac wrth gau y cyfrifon am y flwyddyn ariannol. Felly, mae'n amserol erbyn hyn i gynnal adolygiad pellach o incwm treth cyngor a'r premiwm sydd yn deillio o'r dreth ar ail gartrefi ac eiddo gwag ar gyfer 2024/25.

Mae cyfanswm gwerth biliau treth cyngor ynghyd â'r incwm a dderbyniwyd ar gyfer y gwahanol fathau o gyfrifon wedi eu hystyried.

1. Cefndir

Daeth y premiwm i rym yng Ngwynedd yn 2018/19 ar gyfradd o 50%, yna cafodd y gyfradd ei chodi i 100% yn 2021/22, ac yna i 150% o 2023/24 ymlaen, ar gyfer yr elfen ail gartrefi yn unig.

2 Chwyddiant

Mae £6 miliwn yn flynyddol – heb ei gynyddu â chwyddiant – wedi ei ddyrannu tuag at y Cynllun Gweithredu Tai ers 2021/22. Mae £3 miliwn wedi ei ddyrannu i'r maes digartrefedd ers 2023/24, ond mae'r swm yma wedi bod yn derbyn chwyddiant yn flynyddol.

Byddai ychwanegu chwyddiant tuag at y £6miliwn i gyd-fynd â chyfraddau cynnydd treth cyngor fel a ganlyn:

Tabl A: Chwyddiant yn seiliedig ar gynnydd Treth Cyngor ers 2022/23

	2021/22 £	2022/23 £	2023/24 £	2024/25 £
Cronfa Premiwm				
Swm i Gronfa	6,000,000	6,000,000	6,177,000	6,482,760
Chwyddiant Treth Cyngor %		2.95%	4.95%	9.54%
Chwyddiant Treth Cyngor £		177,000	305,760	618,460
Cyfanswm	6,000,000	6,177,000	6,482,760	7,101,220
Gwerth Chwyddiant (cronnus)		177,000	482,760	1,101,220

Felly mae gwerth y £6 miliwn wedi codi i £7,101,220 ar gyfer 2024/25, sef cynnydd o **£1,101,220**.

Yn ychwanegol i'r uchod, er mwyn sicrhau fod y chwyddiant priodol hefyd yn cael ei ddyrannu ar gyfer 2022/23 a 2023/24, awgrymir fod symiau un tro yn cael eu dyrannu am y ddwy flynedd flaenorol, sef:

2022/23 - £177,000

2023/24 - £482,760

Cyfanswm - £659,760

Felly cyfanswm chwyddiant o £1,760,980 o ystyried yr holl elfennau.

3 Gweddill y swm i'w ddyrannu

Wedi ystyried yr ymrwymadau presennol a dyrannu chwyddiant o £1,760,980 ychwanegol i'r £6m tuag at y Cynllun Gweithredu Tai, byddai ariannu bidiau gwerth £893,150 i'r maes Digartrefedd sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ac sy'n cael eu hariannu o refeniw sylfaenol yn rhyddhau arian refeniw i gefnogi gosod cyllideb 2026/27 a chynnig peth gwarchodaeth i dreth cyngor.

Byddai hyn yn gadael gweddill o £328,400, gyda'i ddefnydd i'w ystyried gan y Cabinet yn Ionawr 2026.

Tabl B: Incwm y Premiwm a'r Ymrwymadau

	£
Premiwm Treth sydd wedi ei gasglu	12,582,600
Ymrwymadau Presennol	
£6 miliwn	6,000,000
£3 miliwn + chwyddiant	3,207,230
Ariannu Swyddi Trethi	53,190
Ariannu Swyddi Tai	155,570
Swydd Cyfrifeg newydd	55,550
Swyddi Trethi newydd	128,530
Cyfanswm Ymrwymadau	9,600,070
 Gweddill yn dilyn ymrwymadau presennol	 2,982,530
 <i>Chwyddiant 2024/25</i>	 <i>1,101,220</i>
<i>Chwyddiant 2023/24</i>	<i>482,760</i>
<i>Chwyddiant 2022/23</i>	<i>177,000</i>
Cyfanswm Chwyddiant	1,760,980
Gweddill ar ôl neilltuo chwyddiant	1,221,550
 Bidiau Parhaol eisoes wedi eu dyrannu i'r maes, nad ydynt yn cael eu hariannu o'r Premiwm ar hyn o bryd	
Gwasanaeth Digartrefedd	57,560
Llety Dros Dro	308,880
Llety Dros Dro	412,150
Cynyddu Capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai	114,560
	893,150
Gweddill i'r drosglwyddo i Gronfa Premiwm Treth Cyngor	328,400

4 Argymhelliad

Trosglwyddo £2,089,380 sef:

- £1,760,980 perthnasol i chwyddiant
- £328,400 sef y gweddill ar ôl o Breimiwm 2024/25

o Cronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor i Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

Bydd y defnydd o'r adnodd ychwanegol yn cael ei ystyried gan y Cabinet.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2025)
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	20 Ionawr 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2025) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf, a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 ac a addaswyd 11 Tachwedd 2025, o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
 - lleihad o £7,544,000 mewn defnydd o fenthycia
 - cynnydd o £2,660,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - cynnydd o £103,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - lleihad o £2,387,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
 - cynnydd o £6,364,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2025/26. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad (rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £152.136m am y 3 blynedd 2025/26 – 2027/28.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r lleihad net oddeutu £0.804m ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.4: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynnyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £93.7m yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £48.2m (51%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £6m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2027/28

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Tachwedd 2025, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynnyddoedd dilynol:

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD				Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf £000
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000	
Addysg	16,391	8,218	3,450	28,059	89
Amgylchedd	8,301	4,315	479	13,095	593
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	-
Cyllid	1,196	737	1,248	3,181	80
Economi a Chymuned	26,608	8,796	2,396	37,800	1,627
Tai ac Eiddo	21,549	5,375	4,103	31,027	(9,441)
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,769	2,700	-	5,469	69
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,877	764	700	4,341	146
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth	14,041	8,413	5,710	28,164	6,328
Corfforaethol	-	500	500	1,000	(295)
CYFANSWM	93,732	39,818	18,586	152,136	(804)

3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae lleihad o £0.804m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ddiwygiedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD				Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf £000
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000	
Benthyca gyda chefnogaeth	4,070	4,070	4,070	12,210	-
Benthyca Arall	9,930	4,760	-	14,690	(7,544)
Grantiau a Chyfraniadau	53,282	11,680	4,871	69,833	2,660
Derbyniadau Cyfalaf	160	-	-	160	-
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,288	-	-	1,288	103
Cronfa Cyfalaf	3,872	11,800	4,350	20,022	(2,387)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	21,130	7,508	5,295	33,933	6,364
CYFANSWM	93,732	39,818	18,586	152,136	(804)

3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £2.991m a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol yn dod â chyfanswm y symudiad i £2.660m (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion):

- £1.000m Grant gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) y Deyrnas Unedig tuag at gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) am ddeunydd pecynnu
- £0.559m Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru
- £0.289m Grant o Gronfa Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun Mwyniant Ein Arfordir

- £0.280m Grant gan y Cyngor Chwaraeon tuag at gaeau synthetig
- £0.176m Grant tuag at cadwraeth adeiladau hanesyddol gan Lywodraeth Cymru
- £0.165m Grant gan y Grid Cenedlaethol tuag at waith ym Mharc Padarn

3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

Mae Cod Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion).

3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 - Gwariant Cyfalaf 8 mis cyntaf 2025/26

Atodiad 4 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

Rhestr Dogfennau Cefndir:

Cyllideb 2025/2026 : [Cyllidebau Blynnyddol](#)

Strategaeth Cyfalaf 2025/26 : Cyngor Llawn 06/03/25: [Eitem 10 - Strategaeth Gyfalaf 2025-26 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthycu.pdf](#)

Manylion y Prif Newidiadau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

	2025/26 £'000	2026/27- 2027/28 £'000
Benthyca Arall		
• Addasiad pellach Tŷ Gofal Maethu (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	19	
• Menter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI) gan Lywodraeth Cymru - cynllun Atal Dirywiad Ffyrdd (<i>Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>).	4,702	3,135
• Ail broffilio yr elfen Prynu i Osod o'r Strategaeth Tai i gyfnod tu hwnt i'r Rhaglen Gyfalaf tair mlynedd hwn i gyfnod o amgylchiadau economaidd mwy ffafriol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(12,520)	(2,880)
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant cyfalaf Partneriaeth Bwyd gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	51	
• Grant tuag at cadwraeth adeiladau hanesyddol gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).		176
• Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).		21
• Grant gan y Cyngor Chwaraeon tuag at gaeau synthetig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).		280
• Grant o Gronfa Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun Mwyniant Ein Arfordir (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	289	
• Grant gan y Grid Cenedlaethol tuag at waith ym Mharc Padarn (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).		165

Grant gan Is-adran Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru tuag at gronfeydd pysgota (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	67
Grant Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru tuag at byllau nofio yn y sir (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	125
Grant Cronfa Tai â Gofal (HCF) ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	102
Grant Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail bwyso lechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	16
Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	10
Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, lechyd a Llesiant</i>).	36
Addasiad triniaeth grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gynllun Gerddi Traphont, Abermaw (<i>Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>).	(339)
Cyfraniad deddfwriaeth cynllunio tuag at faes parcio ysgolion Y Gelli a Pendalar (<i>Adran Amgylchedd</i>).	20
Grant gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) y Deyrnas Unedig tuag at gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) am ddeunydd pecynnu (<i>Adran Amgylchedd</i>).	1,000
Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	559
Cyfraniad deddfwriaeth cynllunio tuag at dŷ penodol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	74

Refeniw Adrannol a Chorfforaethol		
• Addasiadau cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adrannau Addysg; Economi a Chymuned; Priffyrdd Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	52	
• Cyfraniadau Adrannau tuag at offer cyfrifiadurol (Adran Cyllid).	51	
Cronfa Cyfalaf		
• Addasiadau ar amrywiol gynlluniau'r Cynllun Rheoli Asedau ble mae'r proffiliau wedi addasu heibio'r tair mlynedd yn y Rhaglen Gyfalaf neu grantiau a hawliadau benthyca wedi eu derbyn a rhyddhau adnoddau i'w dosrannu yn y dyfodol (<i>Adrannau Addysg; Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd, Corfforaethol</i>).	(1,626)	(761)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
• Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Cyllid</i>).	541	
• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	361	
• Cyfraniad tuag at brosiectau gwledig a meysydd parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>).	142	
• Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Breimiwm Treth y Cyngor tuag at y cynlluniau Strategaeth Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	5,319	

Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hailbroffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2025/26	2026/27 - 2027/28
	£'000	£'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) <i>(Adran Addysg)</i>	(4,507)	4,507
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol <i>(Adran Economi a Chymuned)</i>	(1,529)	1,529
Cronfa Ffyniant Bro <i>(Adran Economi a Chymuned)</i>	(3,174)	3,174
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden <i>(Adran Economi a Chymuned)</i>	(1,272)	1,272
Sefydliadau Plant <i>(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)</i>	(764)	764
Darpariaeth Cyd-Ariannu Prosiectau Gofal <i>(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)</i>	(1,200)	1,200
Cynlluniau Ffyrdd a Bwrdeistrefol <i>(Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth)</i>	(191)	191
Adnewyddu Cerbydau ac Offer <i>(Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo)</i>	(2,782)	2,782
Cynlluniau Trafnidiaeth a Gwelliannau Trefol <i>(Adran Amgylchedd)</i>	(309)	309
Meysydd Parcio <i>(Adran Amgylchedd)</i>	(44)	44
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd <i>(Adran Amgylchedd)</i>	(48)	48
Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu <i>(Adran Amgylchedd)</i>	(1,478)	1,478
Cynlluniau Strategaeth Tai <i>(Adran Tai ac Eiddo)</i>	(160)	160
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai <i>(Adran Tai ac Eiddo)</i>	(947)	947

Cynlluniau Môn-ddaliadau (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(50)	50
Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth (<i>Adran Cyllid</i>)	(14)	14

Noder :

Ni fydd yr ailbroffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ailbroffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2025/26

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd) 2025/26 £'000	GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT 30/11/2025 £'000
Addysg	16,391	7,266
Amgylchedd	8,301	1,224
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	1,196	625
Economi a Chymuned	26,608	6,424
Tai ac Eiddo	21,549	12,869
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,769	1,337
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,877	1,646
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth	14,041	4,031
Corfforaethol	-	-
CYFANSWM	93,732	35,422

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (37.79%) yn uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2024/25 yn 33%), ac yn uwch na dwy flynedd yn ôl (27% yn 2023/24).

Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Cod Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwariant Cyfalaf

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

	Gwir 2024/25 £m	Amcan 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	85.0	94.1	40.2	18.9
Prydlesu Cronfa Gyffredinol	5.3	0.0	0.0	0.0
CYFANSWM	90.3	94.1	40.2	18.9

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £7.5m
- Cerbydau Adrannol - £6.9m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion - £4.5m
- Cynlluniau Eiddo - £3.9m

Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

	Gwir 31.3.2025 £m	Amcan 31.3.2026 £m	Cyllideb 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	179.9	187.4	189.8	187.2

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

	Gwir 31.3.2025 £m	Amcan 31.3.2026 m	Cyllideb 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Dyled ar 30.11.2025 £m
Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau)	100.1	79.2	73.8	71.8	82.7
Gofyn Cyllido Cyfalaf	179.9	187.4	189.8	187.2	

Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

	Uchafswm Dyled 2025/26 £m	Dyled ar 30.11.2025 £m	Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m	Ffin Gweithredol 2025/26 £m	Wedi cydymffurfio ?
Benthyca	94.1	76.7			
Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau	6.0	6.0			
Cyfanswm Dyled	100.1	82.7	200	190	Do

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

	Gwir 2024/25	Amcan 2025/26	Cyllideb 2026/27	Cyllideb 2027/28
Costau Ariannu (£m)	8.5	10.7	10.7	10.8
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	2.5%	3.0%	3.0%	2.9%

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	20 Ionawr 2026

1. Penderfyniad a geisir

- 1.1 I dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

- 2.1 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2025/26 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2025.
- 3.2 Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Cymeradwywyd gwerth £100k o arbedion gan y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, tra fod £3.4 miliwn yn gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn berthnasol i 2025/26.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2025/26

- 5.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn eu targedau arbedion o **£34.4m** ar gyfer y cyfnod 2015/16 – 2025/26 yn seiliedig ar adolygiad Tachwedd 2025. **Gellir adrodd bod gwerth £33.8m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.
- 5.2 Mae tri cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, sydd â chyfanswm gwerth £398k ac un cynllun gwerth £20k gan yr Adran Economi a Chymuned yn wynebu risgiau i'w cyflawni. Gweler rhan 8 o'r adroddiad am fanylion pellach.
- 5.4 Mae pump cynllun sydd yn weddill gwerth £172k wedi llithro ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem eu gwireddu.

6. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2023/24 – 2025/26

- 6.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion ar gyfer y cyfnod 2023/24 – 2025/26 **sydd yn gyfanswm o dros £15m**, yn seiliedig ar adolygiad Tachwedd 2025. **Gellir adrodd fod bron i £13m, neu 81% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £389k pellach, neu 3% ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**
- 6.2 Mae risgiau sylweddol i wireddu dau gynllun gwerth £71k yn y maes Cartrefi Pobl Hŷn ac Iechyd a Llesiant gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac mae'r adran yn edrych ar sut i'w gwireddu.
- 6.3 Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth £2m o gynlluniau arbedion sydd yn cynnwys tri cynllun gan yr Adran Addysg (£66k), pump cynllun gan yr Adran Amgylchedd (£828k), pedwar gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£685k), dau gan yr Adran Prifffyrdd a Pheirianeg (£321k) ac un cynllun gan yr Adran Tai ac Eiddo (£95k).
- 6.4 Mae llithriad ar un cynllun gwerth £71k oedd wedi ei raglennu i'w wireddu yn 2023/24 a pheth oediad i wireddu cynlluniau gwerth £305k perthnasol i 2024/25, ond nid yw'r adrannau'n rhagweld problemau i'w gwireddu. Mae oediad ar dau gynllun perthnasol i 2025/26 gwerth £120k.
- 6.5 Mae un ar ddeg cynllun pellach gwerth cyfanswm o £389k ar drac i wireddu'n llawn ac yn amserol.

7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2026/27 ymlaen

- 7.1 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet ar 16 Medi 2025 sydd yn ystyried y bwlch cyllidol ar gyfer 2026/27 a'r bwriad o ran ymateb i'r sefyllfa ariannol sydd yn ein wynebu fel Cyngor er mwyn gosod cyllideb hafal yn 2026/27.
- 7.2 Yn dilyn cyhoeddiad y setliad ariannol drafft 24 Tachwedd 2025 ac yna'r cyhoeddiad pellach ar 9 Rhagfyr ar gytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru,

mae'r rhagolygon bellach yn llai argyfyngus na'r hyn oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Er mai Gwynedd sydd yn y safle isaf o'r 22 o Gyngorau, mae'r cyhoeddiad bod llawr o 4.1% yn golygu nad oes angen brysio i weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, ond bydd angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blynyddoedd dilynol sydd yn debygol o fod yn llawer fwy heriol. Bydd yr arbedion yn destun adroddiad buan.

- 7.3** Rhestrir arbedion presennol 2026/27 ymlaen fesul Adran, sydd werth £681k yn **Atodiad 3**, mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

8. Adolygiad gwireddu arbedion

- 8.1** Bu i darged incwm cynllun Neuadd Dwyfor gan yr Adran Economi a Chymuned, gael ei leihau o £100k i £20k ar sail dros dro ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Bydd £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei bontio o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor.
- 8.2** Bu i gynllun arbedion perthnasol i 2025/26 yn y maes Cyswllt Cwsmer gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol gael ei ddileu yn yr adolygiad diwethaf. Roedd gwerth yr arbediad hwnnw yn £25k.

9. Casgliad

- 9.1** Gellir adrodd bod cyfanswm o bron i £47 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 93% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorffod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwyf yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.
- 9.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 93% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 1: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	Porth	£m	%
Wedi gwireddu	1	46.5	93
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.4	1
Llithriad/Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.6	1
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	2.0	4
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.5	1
Cyfanswm arbedion		50.0	100

9.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

10. Camau nesaf ac amserlen

10.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn dilyn sefyllfa derfynol diwedd y flwyddyn ariannol 2025/26.

11. Sylwadau Swyddogion Statudol

11.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

11.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2025/26 fesul adran

Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2023/24 - 2025/26 fesul adran

Atodiad 3 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2026/27 ymlaen fesul adran

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2025/26 FESUL ADRAN

TABL 1

CYNLLUNIAU WEDI EU GWIREDDU

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2025/26 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Canran cynlluniau wedi eu gwireddu
Addysg	1,659,740	1,659,740	100%
Ysgolion	4,331,620	4,331,620	100%
Amgylchedd	2,972,463	2,959,963	99.6%
Gwasanaethau Corfforaethol	2,569,218	2,569,218	100%
Cyllid	1,881,636	1,881,636	100%
Economi a Chymuned	2,916,422	2,851,422	98%
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,794,981	6,317,451	93%
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,318,908	2,318,908	100%
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	6,531,580	6,496,580	99%
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	403,240	100%
Tai ac Eiddo	843,230	843,230	100%
Is-gyfanswm	33,223,038	32,633,008	98%
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	100%
CYFANSWM	34,423,398	33,833,368	98%

TABL 2
CYNLLUNIAU ETO I'W GWIREDDU

Adran	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	Cyfanswm
	£	£	£	£	£	£	£	£
Amgylchedd				12,500				12,500
Economi a Chymuned		45,000					20,000	65,000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	215,600	49,360			12,570		200,000	477,530
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd		8,750	26,250					35,000
CYFANSWM	215,600	103,110	26,250	12,500	12,570	0	220,000	590,030

Adran (<i>nifer cynlluniau</i>)	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:
Amgylchedd (1 cynllun)	Llithriad ar balans o £12.5k ar un cynllun sef <i>Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio</i> (£50k).
Economi a Chymuned (2 gynllun)	Bu oediad ar y cynllun <i>Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15</i> (£45k), bwriedir i drefniadau parhaol i godi ffi parcio ddod yn weithredol yn ystod 2026/27. Oherwydd y risg o beidio gallu gweithredu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor, penderfynwyd lleihau y targed incwm o £100k i £20k ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu.
Oedolion, Iechyd a Llesiant (5 cynllun)	Mae risgiau sylweddol o gyflawni arbedion gwerth £200k ar y cynllun <i>Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)</i> , £186k ar y cynllun <i>Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> a £13k ar y cynllun <i>Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion</i> . Bu llithriad ar 2 gynllun sef <i>Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant</i> (£49k) a <i>Cynyddu incwm a lleihau costau eraill</i> sydd gyda balans o £30k ond nid yw'r Adran yn rhagweld problemau eu gwireddu.
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd (1 cynllun)	Mae'r cynllun Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont (£35k) wedi llithro ond mae'r adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2025/26 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 £ - nifer		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - nifer		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - nifer		Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,456,510	34	1,390,770	31	-		65,740	3	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 3 cynllun (2 wedi eu proffilio yn 2024/25) sef <i>Trosglwyddo Canolfan Ieuencid Maesgeirchen i Hwb Cymunedol Maes Ni</i> (£25k), <i>Torri 25% o gyllideb hybiau Ymddygiad Cyfnod Allweddol 4</i> (£18k) a <i>Dileu swydd cymhorthydd lefel 3 y Tim Cynhwysiad</i> (£23k).
Ysgolion	1,966,100	1	1,966,100	1	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
Amgylchedd	2,147,380	36	1,219,380	30 *	50,000	1	878,000	5 *	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 5 cynllun arbedion gwerth cyfanswm o £828k sydd yn cynnwys y cynlluniau <i>Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol</i> (£150k), <i>arbedion yn y gwasanaethau Gwastraff</i> (£200k) a <i>gwasanaeth Gwastraff Masnachol</i> (£240k), <i>Parcio a Gwaith Stryd - Ymestyn Orlau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor</i> (£78k) a <i>Parcio a Gwaith Stryd - Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2</i> (£160k). Mae llithriad ar 1 cynllun gwerth £50k ond mae'n symud yn ei flaen ac 1 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Gwasanaethau Corfforaethol	711,410	25	558,410	21	153,000	4	-		Mae 4 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Cyllid	977,640	22	757,030	17	90,000	2	130,610	3	Bu llithriad ar 3 cynllun sef 2 gynllun i ailstrwythuro yr Uned Incwm gwerth cyfanswm o £59k ac 1 cynllun i ailstrwythuro y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth gwerth £72k. Mae 2 gynllun pellach ar drac i wireddu'n amserol.
Economi a Chymuned	648,780	41	623,780	40	25,000	1	-		Mae 1 cynllun gan Byw'n Iach ar drac i gyflawni'n amserol.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,498,770	27	1,482,850	18	50,680	2 *	965,240	7 *	Mae'r Adran yn rhagweld risgiau sylweddol i wireddu 2 gynllun sef <i>Cartrefi Pobl Hŷn: Edrych ar drefniadau ar gyfer paratoi ail ddewis prydau bwyd mewn cartrefi gofal</i> (£50k) ac <i>Iechyd a Lles: lleihau oriau Swyddog Llesiant</i> (£20k). Yn ogystal mae rhai risgiau i wireddu 4 cynllun (1 o'r rhain yn rhannol) gwerth cyfanswm o £685k sydd yn cynnwys 1 cynllun yn y maes <i>Cartrefi Preswyl</i> (£50k rhannol) a 3 cynllun yn y maes <i>Anableddau Dysgu</i> (cyfanswm o £635k). Bu llithriad o 2024/25 ar 3 cynllun (1 o'r rhain yn rhannol) sydd werth cyfanswm o £110k ac oediad ar 1 cynllun gwerth £100k yn 2025/26. Mae 2 gynllun gwerth cyfanswm o £51k ar drac i wireddu'n amserol.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	308,140	8	308,140	8	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod i gyd wedi eu gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2025/26 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 £ - nifer		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - nifer		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - nifer		Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	1,558,940	22	1,131,940	18	-		427,000	4	Mae'r adran yn rhagweld risgiau i wireddu 2 gynllun sef <i>Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Priffyrdd</i> (£250k) a <i>Lleihau adnodd drwy gyfuno'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd gyda'r gwasanaeth Edrychiad Stryd</i> (£71k). Bu llithriad o 2024/25 yn ymwneud â 2 gynllun sef <i>Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd</i> (£60k) a <i>Newid trefn torri gwledig ucheldir/amlder/fertigol a'r amser rhwng y tymor tyfu</i> (£46k).
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	161,190	8	161,190	8	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod i gyd wedi eu gwireddu.
Tai ac Eiddo	780,350	14	664,850	12	20,000	1	95,500	1	Mae peth risg i gyflawni arbedion o £95.5k ar y cynllun <i>Lleihau ein gofod swyddfa yn sgil dulliau newydd o weithio</i> , ac 1 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Arbedion Rheolaethol	2,400,000	1	2,400,000	1	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
CYFANSWM	15,615,210	239	12,664,440	205	388,680	11	2,562,090	23	Yn nhermau ariannol (£), mae 81% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 eisoes wedi eu gwireddu a 3% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

* cynlluniau gyda rhaniad statws gwahanol yn y blynyddoedd maent wedi eu proffilio

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2026/27 YMLAEN FESUL ADRAN

Adran	2026/27	2027/28	Cyfanswm Arbedion 2026/27 a 2027/28	
	£	£	£ - nifer	
Addysg	98,500	98,500	197,000	1
Amgylchedd	200,000	-	200,000	1
Gwasanaethau Corfforaethol	50,000	-	50,000	1
Oedolion, Iechyd a Llesiant	143,090	-	143,090	2
Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	91,000	-	91,000	1
CYFANSWM	582,590	98,500	681,090	6